TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2023/24

**Hydref 2024**



## EIN GWELEDIGAETH AR GYFER TORFAEN

**Gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a lles ein sir
drwy gryfhau ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a
thrwy ddiogelu a gwella ein hamgylchedd**

## EIN GWERTHOEDD FEL SEFYDLIAD

**Cefnogol, Teg, Effeithiol, Arloesol**



# Ein Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2022-2023

## Rhagair


1. Cefndir tud.5

2. Dethol ein Hamcanion tud.5

3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd tud.10

4. Ein Hunanasesiad 2022/23 tud. 10

   a. Adrodd ar Gynnydd ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 tud. 11

   b. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol tud. 49

5. Cyd-gysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol tud. 63

6. Costau ein Gwasanaethau tud. 66

7. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad tud. 67

8. Cyflawni a Monitro ein Cynnydd

   a. Ein Huwchgynllun Tymor Hir tud. 69

   b. Monitro Cynnydd tud. 71

9. Y Flwyddyn Nesaf a Thu Hwnt tud. 72

Atodiad 1 – Ein Huwchgynllun Marmot tud. 74

# Rhagair

Croeso i’n hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2023–2024.

Yr adroddiad hwn yw ein diweddariad blynyddol ar y cynnydd rydym wedi'i wneud i gyflenwi a datblygu ein gwasanaethau allweddol, gan gynnwys manylion ein gwaith i fwrw ymlaen â'r 9 amcan sydd o flaenoriaeth yn ein Cynllun Sirol.

Fel y dywedwn bob blwyddyn, mae ein llwyddiannau yn ganlyniad i'r holl ymroddiad, y creadigrwydd, yr angerdd a'r gwaith caled sy'n bodoli ym mhob cyfarwyddiaeth ar draws ein sefydliad ac o fewn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Er ein bod yn gwybod bod llawer o heriau o’n blaenau yn y flwyddyn i ddod, mae yna hefyd achos i deimlo'n gyffrous o ran yr hyn sydd i ddilyn. Rydym yn gwybod bod y rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn heriol, heb unrhyw fewnlifiad mawr o adnoddau ar y gorwel. Rydym yn barod am hynny ac yn addasu sut a beth y byddwn yn ei wneud, nid yn unig er mwyn ymdopi, ond gwella, wrth i ni fynd yn ein blaenau.

Bydd ein dull o ddatblygu Cymunedau yn sicrhau mwy o wytnwch i’n cymunedau a’r preswylwyr sydd yn byw ynddynt, ac yn eu galluogi i fyw’n fwy annibynnol. Erbyn 2027, ein nod yw newid y ffordd yr ydym yn gweithredu, a hynny’n radical, gan ymwreiddio 'cymunedau' a ‘llesiant ac atal’ wrth fynd ati i gynllunio ein gwasanaethau. Bydd hyn yn ein galluogi i rymuso ein cymunedau i fod yn iachach, yn fwy cyfartal ac wedi’u cysylltu’n well.

Bydd ein dull cymunedol yn cyd-fynd â’n hymrwymiad i fod y Cyngor Marmot cyntaf yng Nghymru, gan ategu at ein hymdrechion i wella'r ffordd yr ydym yn cynllunio yn y tymor hwy. Bydd mwy o ffocws ar gynllunio tymor hwy yn ein galluogi i fod yn fwy effeithiol, wrth fynd i'r afael â'r heriau rhwng y cenedlaethau, sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb.

Yn olaf, byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau arloesol i weithio'n agosach gyda Chyngor Blaenau Gwent. O dan arweiniad Prif Weithredwr a rennir am 'gyfnod darganfod cychwynnol' o 9 mis, byddwn yn dechrau archwilio'r potensial i arbed arian, cael hyd i adnoddau sy'n gallu gweithio ar raddfa, a'r potensial i gynyddu arloesi a chreadigrwydd ar draws y ddau awdurdod.

Mae lleihau anghydraddoldeb a gwella lles yn sbarduno popeth a wnawn yn Nhorfaen, ond mae'r nod hwn hefyd yn rhan annatod o'n strategaeth ariannol. Mae ymyrraeth gynnar ac atal, gwella gwytnwch a lles unigolion a mynd i’r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, i gyd yn rhan o gynllun ariannol tymor canolig y cyngor. Rydym yn gwybod na allwn ddisgwyl torri gwasanaethau heb gael effaith ar breswylwyr a fydd yn effeithio yn y pen draw ar fywydau’r rhai sydd eisoes fwyaf difreintiedig.

Felly, mae’n iawn fod ein cynlluniau yn uchelgeisiol. Gwyddom mai ein hymagwedd, er ei bod yn wahanol i nifer o gynghorau eraill ledled Cymru, yw’r ffordd gywir i ddatblygu Torfaen mewn modd cynaliadwy a mynd i’r afael â’r anghydraddoldebau sydd yn ein cymunedau.

Rydym yn gwerthfawrogi pawb yn ein sefydliad ac wrth inni symud ymlaen, mae’n galonogol gwybod y gallwn ddibynnu ar ymrwymiad ein staff ochr yn ochr â’n partneriaid, grwpiau cymunedol ac aelodau etholedig i lunio ein stori lwyddiannus.



**Y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd y Cyngor**

**Stephen Vickers, Prif Weithredwr**



# 1. Cefndir

### Ein Hadroddiad Blynyddol

Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant' blynyddol yn nodi’n casgliadau ynghylch ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol a lle rydym yn hoelio'n sylw yn y flwyddyn i ddod.

Er bod llawer o'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn 2023-24, mae hefyd yn cyfleu’r hyn sydd ei angen ar gyfer newid sylweddol o ran y sefydliad, hyd at 2027 a thu hwnt.

Mae’n ofynnol i ni, fel pob corff cyhoeddus arall ledled Cymru gydymffurfio â dyletswyddau penodol. Mae ein ‘Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant’ blynyddol, yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a’n dyletswyddau cyhoeddi statudol, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Mae’r ddwy Ddeddf yn galw arnom yn benodol, i;

- Gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos ein cynnydd mewn perthynas â’n hamcanion Llesiant (DLICD 2015); a
- Chyhoeddi Adroddiad Hunanasesiad blynyddol sy’n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein ‘gofynion perfformiad.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021**

Dyma ein hail adroddiad, dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac wrth wraidd y drefn berfformio newydd, mae’r angen i bob cyngor adolygu eu trefniadau perfformio. Mae angen i gynghorau wneud hyn drwy fynd ati i hunanasesu eu canfyddiadau mewn modd cadarn a pharhaus ac adroddir ynghylch hyn yn yr adroddiad blynyddol hwn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 (Deddf LICD) wedi ymwreiddio saith nod llesiant sydd o flaenoriaeth mewn cyfraith, y mae’n rhaid i’r holl gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt. Maent yn manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio, a chydweithio i wella lles yng Nghymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau yn y tymor hir, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a gyda’i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr ydym wedi cysylltu meysydd ein hamcanion llesiant sydd o flaenoriaeth allweddol i’r Ddeddf hon, a’n hymrwymiad tuag ati.

# 2. Dethol ein Hamcanion

### Ein Cynllun Sirol 2022-2027





Mabwysiadwyd ein Cynllun Sirol gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2022 ac mi fydd yn cael ei weithredu drwy gydol cyfnod gweinyddu bresennol y Cyngor – hyd at 2027.

Datblygwyd y Cynllun a’n hamcanion ar sail pedair thema ganolog a fydd yn llywio ein gwaith o lunio polisïau a dylunio gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae grwpio mentrau gyda’i gilydd i greu themâu wedi helpu i sicrhau nad yw penderfyniadau a chynllunio yn cael eu gwneud ar wahân, a’u bod yn canolbwyntio mwy ar y 'darlun ehangach' a'r weledigaeth ar gyfer y Sir.

Nid yw ein themâu'n hunangynhwysol, maent yn fwy trawsbynciol a byddant yn sail i ni brofi'r cynlluniau cyfredol a holl gynigion y dyfodol. Themâu ein gwaith yw:

### Llesiant…

Hyrwyddo annibyniaeth, ymyrraeth gynnar ac atal a gweithio mewn partneriaeth i'r eithaf a mynd i'r afael a'r materion allweddol sy'n sbarduno anghydraddoldeb




### Cynaliadwyedd…

Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i Dorfaen a'r byd

### Cysylltedd…

Cymunedau croesawgar, gwydn a grymus, cysylltu sgiliau a busnesau i greu Torfaen sy'n hygyrch yn ffisegol ac yn ddigidol

### Diwylliant a Threftadaeth…

Parchu ein hanes, croesawu amrywiaeth, ymfalchïo yn ein lle, dathlu pwy ydym ni a'r hyn sy'n bwysig i ni.

Mae ein 9 maes blaenoriaeth allweddol y byddwn yn gweithio i'w cyflawni ac y byddant ar y cyd yn ffurfio ein hamcanion llesiant, drwy gydol oes y cynllun, fel a ganlyn:

**EIN HAMCANION LLESIANT 2022-27**

**Amcan Llesiant 1 -** Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol

**Amcan Llesiant 2 -** Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu

**Amcan Llesiant 3 -** Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad

**Amcan Llesiant 4 -** Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol.

**Amcan Llesiant 5 -** Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol

**Amcan Llesiant 6 -** Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd.

**Amcan Llesiant 7 -** Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.

**Amcan Llesiant 8 -** Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef


**Amcan Llesiant 9 -** Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a hynny i adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau.

Datblygwyd y 9 amcan llesiant uchod drwy ystyried sail dystiolaeth helaeth, o ymrwymiadau presennol a sbardunau allweddol blaenorol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn disgrifio'r hyn y 'byddwn ni' yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf - nid yn unig i Dorfaen, ond wrth gyflawni'r cyfrifoldeb ar y cyd i wella llesiant yng Nghymru. Yn sail iddynt hefyd mae:

- Ymrwymiadau a sbardunau allweddol blaenorol yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar y cyd, rydym o'r farn mai ein hamcanion llesiant yw'r meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt, er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen. A hynny drwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

- Strategaethau a chynlluniau allweddol sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn yr ydym am ei gyflawni a sut.
- Cynnwys ein cymunedau ac eraill yn bennaf. Yn enwedig wrth ddatblygu ein strategaethau a'n cynlluniau, er mwyn sicrhau mai ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd yw'r rhai cywir ar gyfer Torfaen.
- Mesurau cynnwys eilaidd sy’n ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau yn y dyfodol drwy ofyn i’r cymunedau sut y gallant ein cefnogi a gweithio gyda ni i gyflawni ein hamcanion wrth symud ymlaen.
- Asesiad Llesiant Gwent a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent sydd newydd ei ffurfio, gan gynnwys yr asesiadau llesiant ar gyfer Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon a'u cymunedau cyfagos. Dywedodd hwn wrthym am agweddau ehangach ar les ar draws y sir heddiw, ond hefyd, sut mae fwyaf tebygol o ddatblygu yn y dyfodol. Mae hyn yn seiliedig ar heriau fel gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, poblogaeth sy’n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd, bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a newid yn yr hinsawdd.

Symleiddir hyn yn y darlun isod:




Mae fersiwn llawn o’n **Cynllun Sirol** ar gael i’w ddarllen neu ei lawr lwytho.

Ochr yn ochr â’n Cynllun Sirol mae ein dogfen statudol **Datganiad Llesiant ar gyfer 2022/27**, sy’n egluro’n fanylach sut yr ydym wedi cyflawni ein hamcanion a sut y byddant yn cyfrannu at 7 nod llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae ein datganiad Llesiant hefyd yn gweithredu fel sbardun allweddol i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen. Gwenir hyn drwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

## Cyflwyno Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae Rhan 2 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (SPPP), yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol statudol ar gyrff cyhoeddus, yn amodol ar y ddyletswydd llesiant sydd wedi ei nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn benodol, mae rhan 2 o'r Ddeddf wedi ei diwygio i newid ‘gwaith teg' i ‘waith gweddus’ yn nod llesiant

'Cymru Lewyrchus' sy'n bodoli eisoes yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD).

Er mai newid bach yw hwn, Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bellach yn nodi:

- Os yw'r nodau llesiant cenedlaethol yn cael eu diwygio, **rhaid i gorff cyhoeddus adolygu ei amcanion llesiant**.
- Yn dilyn adolygiad, os bydd corff cyhoeddus yn penderfynu nad yw un neu fwy o'i amcanion llesiant bellach yn briodol, rhaid iddo adolygu'r amcan, neu'r amcanion dan sylw.
- Pan fydd corff cyhoeddus yn adolygu ei amcanion lles, rhaid iddo fynd ati i'w cyhoeddi cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol.

Rydym yn adolygu ein hamcanion llesiant bob blwyddyn yn rhan o'r broses adrodd flynyddol. Ar ddiwedd 2024, ystyriodd ein Tîm Arweinyddiaeth y newid i'r Ddeddf a chytunwyd:

- Yng ngoleuni Deddf SPPP 2023, dylid diwygio Amcan Llesiant 6 y Cynllun Sirol fel a ganlyn:

***' Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy gyflwyno gwaith teg i bawb trwy weithio gyda cyflogwyr lleol, i annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd'***

Yn hyn o beth, cytunwyd, y dylid ymgynghori â Phwyllgor Ymgynghorol Cysylltiadau Gweithwyr y Cyngor (ERCC) hefyd ar y newid arfaethedig hwn fel sy'n ofynnol drwy Ddeddf SPPP ynghylch y newid arfaethedig hwn. Yn dilyn ymgynghoriad, cynigiodd yr ERCC y dylid newid yr amcan ymhellach i:


***Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy gyflwyno gwaith gweddus i bawb trwy weithio gyda cyflogwyr lleol ac undebau llafur, i annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd'.***

Felly dyma fydd 'Amcan Llesiant 6' o 2025-26.

### Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent (BGC)

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei chyflwyno yng Nghymru i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf yn golygu bod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl am bobl nawr ac yn y dyfodol pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau. I wneud hyn, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi:




Mae gan y Cyngor ddyletswydd unigol ac ar y cyd o dan y Ddeddf.

**Ein rôl ar y cyd**:

Mae hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), i osod amcanion llesiant ar y cyd, y byddwn yn eu cyflawni gyda'n gilydd.

Mae BGC yn bartneriaethau statudol sy'n dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd mewn ardal i wella llesiant, yn awr ac yn y tymor hir. Mae'n ofynnol i BGC asesu llesiant yn yr ardal y maent yn ei gwmpasu a pharatoi cynlluniau llesiant ar gylch pum mlynedd. Gellir gweld aelodau BGC Gwent **yma.**

Mabwysiadodd BGC Gwent ei **Gynllun Llesiant Cyntaf** ym mis gan nodi sut y bydd y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ymateb i rai o'r heriau lles allweddol yng Ngwent**.**

Mae'r cynllun yn cychwyn o 2023 tan 25 ac mae'n nodi dau amcan llesiant cydgysylltiedig a phum cam sylfaenol i'w cyflawni dros gyfnod o bum mlynedd.

Mae Amcanion Cynllun Llesiant y BGC fel a ganlyn:

1. *Rydym am greu Gwent sy'n decach a mwy cyfartal a chynhwysol i bawb.*
2. *Rydyn ni eisiau Gwent sy'n barod o ran yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, bydd o fydd i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

Pum cam sylfaenol:

- *Cymryd camau i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hir.*
- *Darparu a sicrhau bod cyflenwad o gartrefi priodol,*
- *Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.*
- *Galluogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, meithrin cysylltiad, ffynnu a bod yn ddiogel, a'u cefnogi i wneud hynny.*
- *Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith* ***Egwyddorion Marmot****.*

Er mwyn cefnogi'r BGC i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o anghydraddoldeb ledled Gwent, mae wedi dechrau gweithio gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd, gan ddefnyddio'r egwyddorion arweiniol a nodwyd yn adolygiad yr Athro Marmot, ***Fair Society, Healthy Lives***, er mwyn sicrhau mwy o degwch iechyd. Ers yr adolygiad gwreiddiol, nodwyd dwy egwyddor arall, sy'n bwysig i wella iechyd.

8 Egwyddor Marmot:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn** | **2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau.** | **3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.** | **4. Sicrhau safon byw iach i bawb.** |
| **5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy.** | **6. Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd.** | **7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'r deilliannau yn sgil hynny.** | **8. Ceisio cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd.** |

Cynhaliwyd dau weithdy a hwyluswyd ar gyfer rhanddeiliaid yn ystod mis Chwefror a Mawrth i ganfod y dulliau gorau i alluogi newid, gwirio a ydynt yn gwneud synnwyr, a gwneud y mwyaf o'r adnoddau cyhoeddus, fel bod y cymunedau yng Ngwent yn cael y canlyniadau gorau posib. Nodwyd arweinwyr partneriaid ar gyfer y grwpiau llywio cydweithredol o oruchwylio gwaith y BGC ac arwain meysydd ffocws penodol.

Ar lefel leol, ni yw'r '***Cyngor Marmot'*** cyntaf yng Nghymru, sy'n golygu ein bod yn defnyddio'r penderfynyddion ehangach sy'n effeithio ar iechyd i gynllunio â llunio'n gwaith ar draws ein sefydliad ymhell i'r dyfodol. Rydym hefyd wedi derbyn cyllid drwy Gronfa Cydweithrediad Ymchwil Penderfynyddion Iechyd i wella ein gallu i ymchwil a chefnogi diwylliant o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, mewn perthynas ag iechyd ac anghydraddoldebau iechyd.

## 3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae ethos y Tîm Uwch Reolwyr sydd newydd ei ailstrwythuro yn rhoi pwyslais cryf ar gyfrifoldeb cyfunol a chefnogaeth ar y cyd i gyflawni nodau a rennir, wrth i ni weithio tuag at ein hamcanion llesiant.

Gweledigaeth y Cyngor yw: "***gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a lles ein sir drwy atgyfnerthu ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a thrwy ddiogelu a gwella ein hamgylchedd"***

Gwerthoedd ein cyngor yw bod yn ***Gefnogol, Teg, Effeithiol*** ac ***Arloesol***.

Mae ein gwerthoedd yn chwarae rhan hanfodol yn niwylliant ein sefydliad. O ran gwerthoedd, rydym yn golygu'r credoau craidd a'r egwyddorion arweiniol, yr ydym yn eu dilyn i gyflawni ein busnes a'r perthnasoedd sydd gennym ag eraill.

Bydd ein gwerthoedd yn cael eu gwireddu gan yr ymddygiad yr ydym yn ei ddangos a hynny'n unig. Mae hyn yn cynnwys y ffyrdd yr ydym yn gwneud pethau; sut yr ydym yn trin eraill; yr hyn yr ydym ni'n ei ddweud a sut yr ydym yn ei ddweud.

Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'r sefydliad yn golygu bod ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a chynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn, o ran yr hyn yr ydym am ei gyflawni a'r ffordd y byddwn yn gweithio tuag at ein hamcanion.

Ochr yn ochr â datblygu ein Cynllun Sirol, rydym hefyd wedi cynhyrchu cyfres o amcanion â ffocws mewnol, y byddwn yn eu defnyddio i asesu ein hunain - ein 8 nodwedd i fod yn Gyngor rhagorol. Credwn fod y nodweddion hyn yn diffinio'r amodau a fydd yn ein galluogi i ffynnu fel cyngor, ein galluogi i fod yn fwy effeithlon a rhoi'r cyfle gorau i ni gyflawni amcanion ein Cynllun Sirol.

## 4. Ein Hunanasesiad 2023-24

Rydym yn parhau i ddatblygu diwylliant lle mae pob rhan o'r sefydliad yn anelu at wella ym mhopeth a wnawn – waeth pa mor dda y maen nhw eisoes yn perfformio. Mae hunanasesu gonest ac agored yn hanfodol os ydym am wireddu ein huchelgais.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gael prosesau ar waith i hunanasesu'n barhaus a ydym yn;

- Cyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn economaidd ac yn effeithiol, a
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar waith, er mwyn sicrhau'r uchod.

Mae ein hadroddiad hunanasesu yn gydgrynhoad o'r holl waith hunanasesu yr ydym wedi'i gwblhau yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein hadroddiad wedi bod drwy broses drwyadl i sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan amrywiaeth eang o dystiolaeth ac mai'r casgliadau yn y pen draw yw'r rhai cywir. Cafodd y casgliadau allweddol a nodir yn ein hadroddiad hunanasesu eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'r broses statudol ym mis Hydref 2023.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran 2 fframwaith ein sefydliad, sef ein 'Cynllun Sirol' a 'Torfaen, Cyngor Rhagorol'. Rydym yn parhau i'w defnyddio fel modd o asesu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud a pha mor dda yr ydym yn perfformio.

## a. Ein Cynllun Sirol – Adrodd ar Gynnydd ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2023-24

Mae ein Cynllun Sirol 2022/27 yn ymrwymo'r Cyngor i naw uchelgais lefel uchel yr ydym am eu cyflwyno neu eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Sirol. Bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, byddant yn rhan o gynllun cyflawni blynyddol - i wireddu ein huchelgais. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig fel y gall y cynllun fod yn ailadroddus ac ystwyth ac fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd drwy gydol oes y cynllun (fel gwaith Marmot rhanbarthol y BGC sy'n dod i'r amlwg ). Mae copi o **Gynllun Cyflenwi Cynllun Sirol 2023/24** ar gael i'w ddarllen eu ei lawr lwytho.

Bydd y "fasged" o weithgareddau a mesurau perfformiad, a nodir yng nghynllun cyflawni pob blwyddyn yn dechrau ar daith y Cyngor tuag at bob un o'n huchelgeisiau hyd at 2027 - a hynny'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant ac maent wedi ffurfio sylfaen ein gweithgarwch monitro ac adrodd chwarterol yn ystod 2023/24 a thu hwnt.

Mae ein hail Gynllun Cyflenwi yn tynnu sylw at y gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd gennym ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24, o ran cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y Cynllun Sirol. Mae ein cynllun cyflawni yn canolbwyntio ar ymrwymiadau y tu hwnt i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd, i ddangos sut y byddwn yn datblygu ein blaenoriaethau wrth gyflawni ein gweledigaeth. "Gan barchu ein gorffennol, llunio ein dyfodol, byddwn yn gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a lles ein sir, drwy atgyfnerthu ein cymunedau, drwy greu economi lleol sy'n ffynnu a gwarchod a gwella ein hamgylchedd."

Mae trosolwg o gynnydd yn ôl pob amcan wedi'i nodi isod:

| Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol 2023-24 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **GLAS** *(cyflawnwyd y cam gweithredu)* | **GWYRDD** (ar darged) | **AMBR** (heb daro'r targed ond llwybr clir yn ôl i 'Wyrdd') | **COCH** (heb daro'r targed – pryderon sylweddol) | **LLWYD** *(nid yw ar fin dechrau eto)* | **DU** *(cafodd y gweithredu ei ddileu* |
| 1. Byddwn ynn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol | 14 | 6 | 3 | 1 | 1 | 0 |
| 2. Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu | 7 | 11 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| 3. Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad | 15 | 21 | 4 | 0 | 0 | 2 |
| 4. Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol | 3 | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| 5. Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol | 8 | 6 | 7 | 0 | 0 | 0 |
| 6. Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd | 2 | 6 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| 7. Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol | 5 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef | 2 | 6 | 6 | 1 | 0 | 0 |
| 9. Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau | 1 | 9 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| **DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN GYFFREDINOL** | **57** | **71** | **38** | **5** | **2** | **3** |
| | **32.4** | **40.3** | **21.6** | **2.8** | **1.2** | **1.7** |

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ein Hamcanion Llesiant. Adroddwyd bod y mwyafrif helaeth naill ai ar darged neu wedi eu cwblhau (73%). Ond, fe wnaeth, 22% o'r camau wynebu anawsterau, er, rydym yn hyderus bod yna gynllun clir i'w dychwelyd ar y trywydd cywir. Ystyriwyd bod pryderon sylweddol ynghylch 3%.

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod bron i dri chwarter yr holl brosiectau wedi'u cyflawni a bod chwarter arall wedi'i ohirio, ond gydag ymrwymiad llwyr i'w cyflawni. Felly, o ystyried bod 176 o brosiectau, mai'r ffaith mai 3 gafodd eu dileu a 5 sy'n achosi pryder, yn dangos maint a chyflymder y dasg o gyflawni. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i holl waith caled y swyddogion, ac effaith y prosesau newydd o ran rheoli perfformiad a phrosiectau yr ydym wedi'u hymgorffori ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn yn ymwneud â'u cymhlethdod, gydag anawsterau pellach yn gysylltiedig â chwyddiant, cyllid, costau byw a'r gweithlu.

Mae adroddiad llawn yn nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed yn ôl pob un o'n Hamcanion Llesiant gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024 ac mae ar gael i'w weld yma.

Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl detholiad o weithgareddau allweddol, o dan bob un o'n 9 Amcan Llesiant Cynllun Sirol:

## AMCAN LLESIANT 1:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol***

### Gwella canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc….

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd sawl datblygiad o fewn y cyngor sydd wedi effeithio ar ein gwasanaethau addysg.

Yn rhan o'n hymgyrch fel sefydliad i wella safonau addysg, gwelwyd sawl newid i'r strwythur arwain a rheoli. Mae hyn wedi cynnwys alinio gwasanaethau plant mewn ffordd strategol (o fewn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn flaenorol) a'n gwasanaethau addysg, dan un gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd. Mae'r ffocws ar ddatblygu a gwella canlyniadau ar gyfer ein plant a theuluoedd ar draws y fwrdeistref.

Mae'r newidiadau hyn a'n gallu i ddadansoddi ystod o ddata ysgol gyfan yn caniatáu inni gael darlun gwell o'n hysgolion, sy'n llywio'n penderfyniadau yn nhermau cefnogaeth ac ymyrraeth. O ganlyniad, mae'r holl newidiadau wedi dechrau dwyn ffrwyth i'n disgyblion ac i ni fel sefydliad.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) sef ein Partner Gwella Ysgolion wedi nodi meysydd â ffocws tymhorol, ac yn ystod y flwyddyn ysgol newydd mae'r gwerthusiadau hyn wedi ein helpu i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob un ysgol. Mae partneriaid gwella ysgolion yn cynnal yr adolygiadau ar hyn o bryd ac mae adroddiadau tymhorol yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda'n harweinwyr addysg a'n Grŵp Gwella Carlam.

Ym mis Gorffennaf 2023 a mis Ionawr 2024, ailymwelodd Estyn â'n Cyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd i gynnal ymweliad monitro, fel dilyniant i'w harolygiad craidd ym mis Mawrth 2022.

Roedd tîm Estyn ar y safle am nifer o ddiwrnodau i ystyried y wnaed o ran:

**Argymhelliad 4**: gwella arweinyddiaeth strategol o ran dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'
**Argymhelliad 1**: gwella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd

Derbyniwyd adborth cadarnhaol yn dilyn y ddau ymweliad. Dangoswyd, fel sefydliad, ein bod yn parhau i sbarduno gwelliannau ar draws y gwasanaethau addysg. Mae'r cyngor nawr yn mynd ati'n fwy effeithiol i ddal ysgolion a gwasanaethau cymorth i gyfri am eu gwaith, sy'n helpu i sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion a datblygu diwylliant lle mai gwelliant parhaus yn brif ffocws.

Er bod y newidiadau yr ydym wedi'u rhoi ar waith ers yr arolygiad wedi gwella'r arweinyddiaeth a'r perfformiad yn ein Cyfarwyddiaeth Addysg yn sylweddol, rydym yn deall ei bod dal yn rhy gynnar i fesur effaith llawer o'r newidiadau diweddar mewn rhai meysydd. Dyna pam ei bod yn hanfodol ein bod yn parhau â'n dull 'fforensig' wrth wella safonau a gwelliant parhaus, a herio'n hunain i barhau i wneud yn well.

Mae'n galonogol bod arolygwyr yn cydnabod bod y berthynas rhwng yr awdurdod lleol, ein hysgolion a'n partneriaid wedi cryfhau. Mae mwy o onestrwydd a thryloywder ac mae'n galonogol bod Estyn yn cydnabod gwelliannau o fewn ein taith a pha mor bwysig yw ein blaenoriaeth i wella bywydau ein disgyblion a'u helpu i ffynnu wrth ddod yn oedolion.

Bydd yr ymweliad monitro nesaf yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf 2024. Cliciwch yma i weld **Llythyr Monitro Estyn 23 Gorffennaf** a **Llythyr Monitro Estyn Ionawr 24**.

Braf hefyd yw nodi, o'r 7 ysgol a gafodd ymweliad arolygu gan Estyn yn 2022/23, mae pob un ohonynt wedi cael adborth cadarnhaol. Nid oedd yr un ysgol yn destun categori dilyniant statudol sef: Gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig. Fodd bynnag, mae un o'n hysgolion (Ysgol Uwchradd Cwmbrân) dal i fod yn destun mesurau arbennig. Mae'r ysgol hon yn parhau i dderbyn lefel uwch o gymorth gan yr Awdurdod Lleol ac mae arwyddion bod gwelliannau a chynnydd o ganlyniad arweinyddiaeth gryfach yn yr ysgol.


### Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac yn dod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)….


Trwy gydol 2023/24, rydym wedi parhau i ymrwymo i: ymyrryd yn gynnar ac mewn ffordd effeithiol o ran ein pobl ifanc sydd mewn perygl o anweithgarwch neu o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

Mae ein Tîm Ysbrydoli wedi cefnogi cyfleoedd gwaith mewn gwahanol ffyrdd, drwy sefydlu prosiectau/cyfleoedd fel: gweini bwyd yn ein caffi newydd yn y Ganolfan Ddinesig, gwirfoddoli i blannu coed mewn cymunedau lleol a chymryd rhan mewn prosiectau cynnal a chadw beiciau. Yn ogystal â hyn, mae Ysbrydoli wedi sefydlu prosesi i gefnogi ein hysgolion i sicrhau ansawdd a'r holl leoliadau profiad gwaith posibl ar gyfer disgyblion oedran ysgol.

Mae ein prosiect Ysbrydoli hefyd wedi darparu ystod o gymwysterau a chyrsiau, fel y'i diffinnir gan y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau i dargedu pobl ifanc oed uwchradd sydd mewn perygl.

O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae ein ffigurau NEET o ran pobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 wedi gostwng fymryn ac mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Er ein bod cydnabod bod nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gael hyd i waith, dilyn addysg neu hyfforddiant dal i fod yn uchel, rydym dal i ymrwymo i wella canlyniadau a monitro/cefnogi ein pobl ifanc sy'n bwriadu gadael yr ysgol bob blwyddyn.




Cadarnhawyd **mai** 1.9**% o ddisgyblion blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant** yw'r % yn Nhorfaen yn 23/24, sydd yn ein rhoi yn yr 8fed safle ar y cyd allan o'r 22 ALl. Mae hyn yn well na pherfformiad y flwyddyn flaenorol: 2.1 (19/20), 2.3 (20/21), 2.6 (21/22), 2.6 (22/23)

## Darparu ysgolion cynaliadwy….

Fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt, rydym wedi ymrwymo bron i £130 miliwn ar ysgolion newydd, ymestyn ysgolion ac adnewyddu ysgolion, er 2015.



Mae'r fath fuddsoddiad wedi parhau hyd at flwyddyn ariannol 2023/24. Ym mis Chwefror 2024, cymeradwyodd ein Pwyllgor Cabinet y gwaith o adnewyddu ac ehangu Ysgol Gynradd Maendy, drwy ddyfarnu contract adeiladu gwerth £14 miliwn i Morgan Sindall.

Bydd y gwaith i ddechrau ar adeilad newydd yr ysgol, yn cynnwys cyfleusterau gofal plant a Dechrau'n Deg, yn dechrau ym mis Mawrth 2024 ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn haf 2025.

Bydd disgyblion yn parhau i ddysgu yn adeiladau'r ysgol bresennol tan y bydd yr ysgol newydd wedi'i chwblhau. Yna bydd hen adeiladau'r ysgol yn cael eu dymchwel, a thir yr ysgol yn cael ei dirlunio i gynnwys 2 faes chwarae, ysgol goedwig, offer chwarae a chae chwarae o laswellt.

Mae'r buddsoddiad yn rhan o'n rhaglen gyfalaf gymeradwy a dyma'r prosiect nesaf i'w gyflawni yn rhan o'r Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (SCfL), a arferai gael ei galw'n Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif.

Bydd yr ysgol hefyd yn helpu i gyflawni dyheadau ynni'r cyngor o ran dyluniad yr ysgol, gan gyflawni Carbon Sero Net gyda charbon isel a fydd i gyd yn drydanol ac yn cael ei bweru gan bympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltäig wedi'u gosod ar y to. Cyfanswm cost yr ysgol newydd yn cynnwys y gwaith cyn y cyfnod adeiladu a'r gwaith dylunio yw £17,131,842. Bydd y cyngor yn cyfrannu £5,220,608. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid ar gyfer y swm sy'n weddill. Mae £10,790,865 gan raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (SCfL) a £1,120,369 o'r Grant Cyfalaf Gofal Plant.

## Helpu ein pobl ifanc ac oedolion i ennill cymwysterau….

Ar draws Cymru roedd canlyniadau arholiadau 2023 yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond nid yn is na chanlyniadau cyn y pandemig 2019.

Nid ein disgyblion ni yn unig oedd yn dathlu eu TGAU yn haf 2023. Roedd mwy na 50 o'n dysgwyr sy'n oedolion hefyd yn casglu eu canlyniadau.

Eleni, fe wnaeth 53 o ddysgwyr yn ein cyfleuster Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sefyll eu harholiadau TGAU. Fe wnaeth cant y cant ohonynt ennill graddau A i C yn eu TGAU Saesneg a 68 y cant A i C yn eu TGAU Mathemateg. Mae hyn, nid yn unig yn dangos eu hymrwymiad i lwyddo, ond mae hefyd yn adlewyrchu'r dysgu ac addysgu uchel ei ansawdd sy'n mynd rhagddo yn ein hysgolion a'n Canolfannau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Ariannwyd pob dysgwr TGAU mathemateg drwy Lluosi, rhaglen newydd Llywodraeth y DU, a oedd yn golygu y gallent gael mynediad iddi am ddim.

### Helpu ein pobl ifanc ac oedolion i ennill sgiliau a chyflogaeth….

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom agor siop un stop newydd yng Nghanol Tref Cwmbrân, i unrhyw un sy'n chwilio am waith neu sydd am wella eu sgiliau.

Mae ein Swyddogion Cymorth Cyflogaeth yn "Torfaen yn Gweithio" wrth law i ddarparu pecyn cymorth wedi'i deilwra i unrhyw un sy'n byw yn Nhorfaen a'r cyffiniau, p'un a ydynt yn ddi-waith neu'n gweithio.




Dyma rhai o'r pethau y maent yn medru cynnig cefnogaeth ar eu cyfer:

- Cymorth ymarferol i baratoi CV, ymarfer cyfweliad a chwilio am swydd.
- Gwybodaeth am y farchnad swyddi leol a pharu swyddi.
- Cymorth ariannol i dalu costau hyfforddi
- Hyfforddiant sgiliau allweddol gan gynnwys mathemateg, Saesneg a sgiliau digidol
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i helpu i lunio'ch cynllun gyrfa a sgiliau.

Ariannwyd hyn drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ac mae'n olynydd i'n pod cyngor cyflogaeth a sgiliau CELT, a oedd wedi'i leoli yn Llyfrgell Cwmbrân.

Rydym hefyd wedi agor canolfan brawf newydd yn ein Canolfan Addysg Gymunedol Pont-y-pŵl i unrhyw un sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant adeiladu. Bydd y ganolfan hon yn darparu cardiau Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS), sy'n cael eu cydnabod yn eang fel y safon ar gyfer profi cymhwysedd galwedigaethol o fewn y diwydiant adeiladu.

Trwy gynnig Prawf CSCS ar y safle o fewn un o'n canolfannau yn Nhorfaen, rydym yn dileu rhwystrau diangen drwy ei wneud yn fwy hygyrch i'n preswylwyr. Bydd y cyfle hwn yn agor drysau i fyd gwaith ac yn grymuso preswylwyr i ddod yn weithwyr medrus yn y diwydiant adeiladu.

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom gefnogi bron i 2000 o breswylwyr gyda chymorth cyflogadwyedd (dros 30% yn fwy na'n targed).

### Cynyddu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg….

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i chwilio am gyfleoedd a goresgyn heriau i hyrwyddo sgiliau Cymraeg a chefnogi dwyieithrwydd, mewn amgylchedd cadarnhaol yn Nhorfaen.

Mae cynnig cyfle i deuluoedd symud i addysg Gymraeg yn helpu i gynyddu'r cyfleoedd hynny i ddysgu'r iaith.




Ym mis Ebrill 2023, agorwyd canolfan arbenigol er mwyn datblygu a gwella sgiliau Cymraeg i blant sydd am drosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.
Mae Uned Carreg Lam wedi'i lleoli yn Ysgol Panteg yn Nhref Gruffydd. Mae'n cynnig 12 lle i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 6, sy'n dymuno cychwyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Cynigir lleoedd fesul tymor pan fydd cyfle i ddisgyblion gofrestru ar raglen iaith ddwys dros gyfnod o 12 wythnos i wella'u sgiliau iaith Gymraeg. Yna cânt eu cefnogi i symud i addysg cyfrwng Cymraeg prif ffrwd.

Ers agor ei drysau eleni, mae Carreg Lam wedi cefnogi 18 disgybl i ddysgu Cymraeg er mwyn trosglwyddo o addysg Saesneg i addysg Gymraeg brif ffrwd.

Mae'r rhaglen beilot yn cael ei hariannu gan grant tair blynedd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n un o gyfres o unedau trochi cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi agor lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhont-y-pŵl.



Agorodd y ganolfan newydd yn Ysgol Gymraeg newydd Gwynllyw yn Nhrefddyn ym mis Ebrill ac mae'n cynnig 45 o leoedd i blant rhwng 2 a 12,sy'n gymwys i dderbyn gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae Gofal Plant yr Enfys Gwynllyw yn cynnig gwasanaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Mae cynlluniau hefyd i ddarparu gofal plant cofleidiol i blant mewn clybiau ysgol a chlybiau gwyliau, yn ogystal â lleoedd a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru erbyn mis Medi.

Mae'r ganolfan hefyd yn garreg filltir arall yn ein hymdrechion i wella darpariaeth gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref.

### Cynyddu presenoldeb yn yr ysgol….

Mae ein cyfraddau presenoldeb ar gyfartaledd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.





Bu gostyngiad hefyd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu hystyried yn absennol yn gyson. Mae hyn yn golygu bod yn bresennol am lai na 80%, - cyfateb ag un diwrnod bob wythnos.

Yn gynharach yn 2023, fe wnaethom gymeradwyo Strategaeth Presenoldeb newydd. Mae'n atgyfnerthu pa mor bwysig yw mynychu'r ysgol yn ddyddiol ac mae'n egluro'r cymorth y gall plant a theuluoedd ei ddisgwyl os ydynt yn cael trafferth mynychu'n gyson. Mae ein hymgyrch #DdimMewnColliMas, hefyd wedi helpu i ddathlu manteision amrywiol mynd i'r ysgol bob dydd.

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hystadegau cenedlaethol ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir. Braf oedd gweld bod ein hysgolion wedi dangos y gwelliant mwyaf, o ran presenoldeb disgyblion ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod presenoldeb yn yr ysgol ar gyfartaledd yn Nhorfaen wedi cynyddu o 88.7% ym mis Chwefror 2023 i 90.4% ym mis Mawrth 2024.

Mae hyn wedi cynyddu lefelau presenoldeb ar draws y fwrdeistref, a oedd gynt ymhlith yr isaf yng Nghymru, i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.




* Ffigurau gan Lywodraeth Cymru:
Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir | LLYW CYMRU

Mae Torfaen bellach yn y 10fed safle yn nhabl y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r cynnydd sylweddol yn dyst i ymdrechion di-baid ein cydweithwyr yn y gwasanaeth addysg, staff ysgolion ac, wrth gwrs, teuluoedd a phlant. Mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad yn chwarae rhan allweddol yn y llwyddiant hwn.

Er gwaethaf y cynnydd mewn presenoldeb yn gyffredinol, rydym ni wedi gweld cynnydd yn y niferoedd yn ein hysgolion uwchradd sy'n cael eu gwahardd. Er bod hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol, nid ydym yn fodlon â'r naratif hon yn Nhorfaen. Mae lleihau cyfraddau gwaharddiadau yn flaenoriaeth i ni yn y maes gwasanaeth addysg. Fel awdurdod lleol Marmot, sydd wedi ymrwymo i greu Torfaen sy'n decach, sicrhau presenoldeb yn yr ysgol a rhoi'r amodau i blant gyflawni eu potensial yw un o'r cyfleoedd gorau sydd gennym i leihau anghydraddoldebau iechyd ledled y fwrdeistref. (Mae awdurdod lleol/rhanbarth Marmot yn rhwydwaith rhanddeiliaid lleol sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy weithredu ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd – yr amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n sail i'n hiechyd).

Mae ymgyrch y cyngor, #DdimMewnColliMas, yn parhau i chwarae rhan hanfodol drwy hyrwyddo'r negeseuon allweddol o ran yr hyn y mae presenoldeb da yn ei olygu, a thynnu sylw at y ffyrdd y mae ysgolion yn creu amgylchedd cynhwysol, cyfoethog, a thosturiol i bob dysgwr. Mae hefyd yn dangos cyfraniad y cyngor cyfan i'n hamcanion llesiant, sef codi cyrhaeddiad addysgol i helpu plant a theuluoedd i ffynnu, a'n hymrwymiad i roi'r cychwyn gorau ym mywyd i bob plentyn.

Mae addysg ein plant o'r pwys mwyaf, ac mae pob diwrnod yn yr ysgol yn cyfrif tuag at eu llwyddiant yn y dyfodol, felly rydym yn hynod falch o'r cyflawniad hwn, a byddwn yn parhau i gefnogi ac ymdrechu i gyflawni cyfraddau presenoldeb sydd hyd yn oed yn uwch.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd, er mwyn cyrraedd ein targed o 95% ar gyfartaledd, ond gyda chefnogaeth a chydweithrediad rhieni, partneriaid allweddol a chymuned yr ysgol, byddwn yn gallu cyflawni'r nod hwn.

## Ein Prif Heriau…

### Addysg:

- **Cynyddu presenoldeb yn ein hysgolion i'r lefelau yr oeddent cyn y pandemig, gyda'r dyhead o daro 95%.**
- **Sicrhau gwelliant yn Ysgol Uwchradd Cwmbrân fel nad ydynt bellach yn y categori mesur arbennig.**

- **Cefnogi pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gyflawni. A fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant.**
- **Datblygu gwasanaethau i reoli a lleihau nifer y gwaharddiadau yn enwedig mewn ysgolion uwchradd ac mewn perthynas â dysgwyr bregus a dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol.**
- **Parhau i gefnogi dysgwyr i fyd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant pan fydd cyllid ffyniant a rennir (SPF) yn dod i ben.**
- **Datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), yn cynnwys cynyddu nifer y dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac ehangu'r gweithlu Cymraeg.**
- **Datblygu'r strategaeth ariannu ar gyfer cynlluniau sy'n weddill o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (SCfL).**

## AMCAN LLESIANT 2:

***Annog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant ffynnu***

### Amddiffyn ein pobl ifanc….

Ar ddechrau 2023, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ymweld â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i arolygu "Cynllunio Gofal ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Gellir dod o hyd i'r canfyddiadau a'r argymhellion llawn o'r arolygiad yma: Arolygiaeth Gofal Cymru

Penderfynodd arolygwyr AGC fod:

***"Roedd yn amlwg o'r cofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd gennym fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymrwymo i gefnogi plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny. Gwelsom hyn yn cael ei adlewyrchu mewn diwylliant sefydledig o beidio â chyhoeddi achos oni bai bod llwybrau eraill wedi'u harchwilio. Roedd hyn hefyd yn amlwg mewn dogfennaeth a adolygwyd, ac yn ein trafodaethau gydag ymarferwyr arweiniol."***

Tra ein bod yn parhau ar ein taith i reoli'r galw, mae canfyddiadau cyffredinol yr arolygiad yn ail gadarnhau'r gwaith da sydd wedi mynd rhagddo yn y maes hwn ac yn rhoi sicrwydd o gyfeiriad ein taith.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi newid ei strwythur a'i arferion proffesiynol, i reoli a lleihau lefel y galw yn y gwasanaeth yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys yr angen am ymyriadau statudol. Mae'r maes gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad parhaus a bydd yn parhau i ddefnyddio data er mwyn siapio'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r galw ar atgyfeiriadau a chysylltiadau drwy ein Timau Gwasanaethau Plant yn parhau i gynyddu. Mae thema o'i chymharu â'r blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â nifer yr atgyfeiriadau sy'n arwain at beidio â chymryd camau pellach. Mae gwaith sylweddol yn parhau i fynd rhagddo gydag asiantaethau sy'n bartneriaid er mwyn deall ac ystyried trothwyon yn well, i sicrhau bod atgyfeiriadau yn briodol a gellir targedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Rydym hefyd yn parhau â'n hymdrechion i reoli'r galw wrth ddatblygu ein 'Cynnig i Gymunedau' a'n dull gweithredu, i sicrhau bod asiantaethau sy'n bartneriaid yn atgyfeirio'n gywir at yr asiantaethau/gwasanaethau cywir ac nid at ofal cymdeithasol fel modd o ddiffyg. Rydym wedi bod yn rhan o ddarn o waith rhanbarthol i archwilio trothwyon a llwybrau atgyfeirio gyda'n partneriaid


rhanbarthol. Fodd bynnag, mae uno meysydd gwasanaeth yn y Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd wedi sicrhau mwy o sgyrsiau cydweithredol rhwng gofal cymdeithasol a'n hysgolion.

Byddwn yn parhau i fonitro a herio ein perfformiad, drwy adrodd yn rheolaidd yn chwarterol i'n Tîm Arweinwyr Gweithredol a bydd hyn yn parhau i gael ei herio gydag asiantaethau cyfeirio i'n galluogi i gael mwy o reolaeth dros y galw ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar ddatblygu cymunedol a gwytnwch, hynny yw, oni bai bod angen ymatebion diogelu, fel y dewis olaf.

Rydym yn cydnabod bod gennym y boblogaeth uchaf o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 (10-17 oed) yng Nghymru, er drwy ymdrechion parhaus a thrawsnewid o fewn y maes gwasanaeth, mae hyn wedi gostwng yn gyson, ers uchafbwynt o 474 ym mis Medi 2020, i 352 ar 31 Mawrth 2023.

Yn ystod dau chwarter olaf y flwyddyn ariannol 23/24, mae'r ffigurau wedi aros mewn sefyllfa sydd braidd yn ddisymud. Mae hyn wedi achosi pryder i ni gan nad ydym wedi cyflawni'n huchelgais i ostwng 15% ar y garfan hon. Felly byddwn yn parhau i fonitro'r maes perfformiad hanfodol hwn a herio'r maes gwasanaeth o ran ei strwythur a'i ddull gweithredu. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ar sail cryfderau drwy'r system gyfan, a sicrhau y gellir rheoli risg a symud plant allan o'r system ofal cyn gynted â phosibl drwy gefnogi adferiad effeithiol a diogel gyda rhieni. Dylai hefyd fod yn werth nodi bod gennym nifer cynyddol o geiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain, yn rhan o'r cynllun trosglwyddo cenedlaethol. Dyma blant sy'n derbyn gofal nad ydym yn gallu eu hatal na'u symud allan o'r system tan eu bod yn 18 oed, oherwydd eu hamgylchiadau. Byddwn yn parhau i adolygu strwythurau gwasanaethau a gwasanaethau a ddarperir, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, a hynny mewn ffordd ddiogel.

Yng Nghynllun Cyflawni ein Cynllun Sirol 23/24, rydym wedi gosod targed blynyddol i ostwng **nifer y plant sy'n derbyn gofal** 15% ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol, ond er na wireddwyd hyn yn llawn eleni, mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun y cynnydd parhaus yn nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn plant sy'n cael eu derbyn gan ein Timau Gwasanaethau Plant.



* Cafwyd y data lleol gan Powerbi:

Bydd gwelliannau pellach o ran y gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal â chysylltiadau cryfach â'n gwaith ar draws cymunedau ac addysg yn gynyddol yn faes blaenoriaeth i'r cyngor.

Drwy gydol 2023, rydym hefyd wedi adolygu a datblygu'r llety yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc ac wedi symud ymlaen i ddatblygu ein darpariaeth breswyl 'fewnol' gyntaf i blant ag anghenion cymhleth sy'n derbyn gofal. Mae nifer o heriau amrywiol wedi effeithio ar amserlenni cyffredinol y datblygiad hwn, a oedd yn cynnwys llifogydd sylweddol tra bod yr eiddo'n cael ei adnewyddu ac oedi yn ein gallu i gomisiynu gwasanaeth gofal a chymorth. Mae'r fath oedi wedi effeithio ar ein gallu i leihau nifer y plant sydd gennym mewn gofal preswyl. Bydd y ddarpariaeth hon yn rhan o strategaeth tymor hwy i gyfyngu ar ein hangen i ddefnyddio cartrefi gofal allanol cost uchel a sicrhau bod gwasanaethau o'r ansawdd yr ydym eu hangen yn cael eu darparu. Bydd y ddarpariaeth fewnol hon yn weithredol yn 2024/25.

Mae'r agenda dileu sy'n canolbwyntio ar leihau elw mewn gofal hefyd wedi effeithio ar y cyflenwad o leoliadau sydd ar gael, a'r gost, ac mae'n hanfodol i ni ddatblygu ein darpariaeth fewnol yn gyflym. Mae'r diffyg llety addas i blant sy'n derbyn gofal yn sialens o ran prosesau comisiynu ac mae'n fater cenedlaethol erbyn hyn sydd wedi effeithio'n andwyol ar ddefnyddio lleoliadau heb eu rheoleiddio.

Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio ein gofalwyr maeth mewnol gan gydnabod, lle bo hynny'n bosibl, y dylid lletya plant sy'n derbyn gofal yn eu cymunedau. Er bod lefel o alw sy'n rhagori ar nifer y lleoliadau sydd ar gael yn fewnol, rydym wedi cynnal lefel uchel o leoliadau maeth mewnol, sef 82%.

### Ehangu ein darpariaeth gofal plant….

Rydym yn cydnabod bod dysgu cynnar yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y mae plant yn datblygu ac yn tyfu ac yn eu helpu i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn targedu teuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw mewn ardaloedd economaidd difreintiedig yng Nghymru. Mae ei ymagwedd gynhwysfawr yn rhychwantu o'r cyfnod cynenedigol i'r cyfnod y bydd plentyn yn dechrau yn yr ysgol, ac mae'n ymdrechu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Ym mis Mai 2023, gwelsom ein darpariaeth gofal plant yn ehangu'n sylweddol yn Nhorfaen. Y nod oedd ceisio bod o fudd i fwy o deuluoedd, wrth i ardaloedd Dechrau'n Deg newydd gael eu cyflwyno ledled y fwrdeistref.

Mae'r fenter, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu ar gyfer plant dwy oed, gan gynnig gwell cefnogaeth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad plentyndod cynnar.

Amcangyfrifir bod 251 o deuluoedd, ar hyn o bryd yn defnyddio gofal plant Dechrau'n Deg yn Nhorfaen, a disgwylir y bydd 173 pellach yn elwa ohono. Y gobaith yw y bydd gofal plant a ariennir ar gael i bob plentyn dwy a thair oed ledled y fwrdeistref o fewn y blynyddoedd nesaf.

### Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol….

Ar ddechrau 2023, lansiwyd cynllun allgymorth newydd i bobl ifanc, i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghwmbrân.




Aeth ein gweithwyr ieuenctid o Ganolfan Pobl Ifanc Cwmbrân (CCYP) ati i dargedu ardaloedd lleol y gwyddys eu bod yn broblem, er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc a'u hannog i fynychu'r ganolfan, yn lle ymgynnull mewn canolfannau siopa ac ardaloedd cyhoeddus eraill.

Yn y cyfleuster hwn cynigir bwyd am ddim iddynt a rhoi cyfle iddynt gymdeithasu gyda'u ffrindiau mewn amgylchedd diogel. Mae'r ganolfan yn derbyn mwy na 700 o ymweliadau gan bobl ifanc bob mis, ac mae busnesau lleol a'r heddlu yn adrodd gwelliannau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref sy'n talu am y gwaith ac rydym yn arwain y gwaith hwn mewn partneriaeth agos â Chanolfan Pobl Ifanc Cwmbrân, Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sy'n targedu ymyriadau ar gyfer unigolion sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Trwy gydol 2023/24, maen nhw wedi gweithio gyda 12 unigolyn ar gontractau ymddygiad derbyniol. Mae dau wedi derbyn gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae ymyriadau fel hyn wedi ein galluogi i gefnogi 96% o'r holl bobl ifanc sydd angen ymyrraeth o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol i adael y broses gyda chanlyniad cadarnhaol. Cafodd 51 o bobl ifanc eu hatal rhag mynd ymlaen i dderbyn gwaharddebau.

### Gweithio gyda'n cymunedau a'n hysgolion i ddarparu darpariaeth chwarae i'n plant a'n pobl ifanc….

Helpodd y nifer uchaf erioed o'n gwirfoddolwyr i ddarparu oriau o hwyl am ddim i filoedd o blant, yn ystod yr haf yn 2023.

Cynhaliwyd mwy nag 20 o sesiynau chwarae bob dydd, gyda chyfanswm o 163 o wirfoddolwyr. Mae pump y cant yn fwy na'r llynedd wedi gweithio gyda'n 176 o aelodau staff y Gwasanaeth Chwarae i drefnu rhaglen llawn gweithgareddau am fis cyfan i 2,831 o blant. Mae hynny'n 300 o blant yn fwy na'r llynedd!

Mae'r sesiynau'n cynnwys cynlluniau chwarae mynediad agored, sesiynau seibiant arbenigol a 13 o wersylloedd bwyd a hwyl, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'n Gwasanaeth Arlwyo a weinodd tua 28,000 o brydau bwyd dros gyfnod o bedair wythnos.

Cafodd y plant gyfle hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwarae, maeth, gweithgarwch corfforol, lles ac ymwybyddiaeth ofalgar a drefnwyd gan ein Gwasanaeth Chwarae.

Cafodd teuluoedd plant a fynychodd wersylloedd Bwyd a Hwyl Cyngor Torfaen yr haf hwn hefyd flychau bwyd am ddim, yn cynnwys amrywiaeth o eitemau hanfodol ar gyfer eu teuluoedd.

Cafodd cyfanswm o 1,400 o flychau eu dosbarthu gan y Gwasanaeth Chwarae fel rhan o'r cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n braf nodi hefyd, ym mis Hydref 2023, bod ein Gwasanaeth Chwarae wedi ennill gwobr 'Calon y Gymuned' Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, sy'n cydnabod grwpiau o wirfoddolwyr sy'n creu effaith bositif yn y gymuned leol.

Mae'r Rhaglen Gwirfoddolwyr Ieuenctid wedi bod yn mynd rhagddi er 22 mlynedd. Mae'n cynnig llwyfan gefnogol i bobl ifanc o bob gallu a chefndir cymdeithasol i roi o'u hamser rhydd i redeg lleoliadau chwarae cymunedol. Mae mwy na 3,000 o bobl ifanc wedi cael eu grymuso drwy'r prosiect, sy'n gyfystyr â chyfanswm o dros 338,000 o oriau'n gwirfoddoli i gefnogi hawl pob plentyn i chwarae.

Mae'n helpu ein pobl ifanc i ennill profiad gwerthfawr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt gael eu blas cyntaf ar fyd gwaith.

Mae seremoni flynyddol Gwobrau Gwirfoddolwyr Cymunedol CGT yn tynnu sylw at gyfraniadau gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol yn Nhorfaen sy'n dangos anhunanoldeb, ymroddiad a gwasanaeth rhyfeddol.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi bod ein gwirfoddolwyr yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi ein sesiynau chwarae a seibiant wythnosol, ein clybiau ar ôl ysgol, a'n darpariaeth yn ystod hanner tymor a gwyliau'r haf. Nhw yw'r sbardun i'r mentrau di-ri, ac maent yn ein hatgoffa o'r potensial diderfyn ym mhob un ohonom i greu effaith gadarnhaol a chreu dyfodol mwy disglair i'n cymuned.

### Cydnabod a chefnogi ein gofalwyr ifanc….

Ar ddechrau mis Tachwedd 2023, cynhaliwyd cynhadledd i ddathlu llwyddiannau ein pobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r system ofal yn Nhorfaen.

Cynhaliwyd y digwyddiad ar ddiwedd Wythnos Genedlaethol y Rhai Sy'n Gadael Gofal, sydd hefyd yn anelu i godi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn eu hwynebu, a sut y medrant gofleidio newid. Mae'r digwyddiad hwn yn dathlu'r bobl ifanc hyn a rhoi ymdeimlad o berthyn, ac yn bwysicaf oll, llais.
Yn Nhorfaen, mae'r rhai sydd rhwng 16 a 18 oed sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal, hyd at 25 oed, yn cael cymorth gan ein Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc yn Nhorfaen. (TYPSS).

Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, rydym yn helpu ein gofalwyr ifanc i fod yn annibynnol. Rydym yn gwneud hynny trwy ddod i'w hadnabod a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt sy'n unigol iddyn nhw.

Yn 2023, fe wnaeth y nifer uchaf erioed gymryd rhan yn y digwyddiad. Mae hyn o ganlyniad i'r berthynas gadarnhaol y maent wedi'i datblygu gyda'n staff, a'i gilydd. Mae hefyd yn bleser cynnal digwyddiad o'r fath, sy'n cydnabod llais pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, effaith ein tîm TYPSS a'r asiantaethau eraill sy'n bartneriaid i ni, i herio anghydraddoldebau a galluogi ein pobl ifanc i lwyddo a ffynnu. Mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn ein helpu i siapio gwasanaethau, ac rydym yn parhau i edrych ymlaen at

barhau i gyfranogi ac ymgysylltu.

(Mae TYPSS yn gweithio gyda tua 200 o bobl ifanc, rhwng 16 a 25 oed, yn cynnwys rhai sy'n gadael gofal, pobl ifanc digartref a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu'n gweithio).

### Darparu prydau ysgol am ddim i'n plant ....

Mewn ymateb i'r pwysau costau byw ar deuluoedd, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd yn yr ysgol. Un o'r prif flaenoriaethau yn ystod 2023/24, yw bod ein gwasanaeth Arlwyo Ysgolion yn cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob grŵp blwyddyn yn ein hysgolion cynradd. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r un plentyn yn llwglyd yn yr ysgol ac mae'n hyrwyddo bwyta'n iach, sydd yn ei dro yn annog mwy o fanteision fel gwella sgiliau cymdeithasol y plant yn ystod amser bwyd a gwella ymddygiad a chyrhaeddiad.

Rydym yn un o 13 o awdurdodau lleol eraill yn unig yng Nghymru sy'n cynnig prydau ysgol am ddim i bob grŵp blwyddyn. I wireddu hyn, rydym wedi adnewyddu 8 cegin a recriwtio 60 aelod o staff ychwanegol yn ein hysgolion er mwyn arlwyo ar gyfer y plant ychwanegol sy'n derbyn prydau bwyd.

### Annog a hyrwyddo ein plant a'n pobl ifanc….

Ym mis Ionawr 2024, lansiwyd prosiect newydd i dyfu bwyd gan ein Prosiect Ysbrydoli, sy'n anelu i gefnogi pobl ifanc i symud ymlaen mewn addysg neu i fyd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Cafodd y disgyblion a atgyfeiriwyd o'n hysgolion uwchradd gyfle i weithio gyda'n prosiect Ysbrydoli i helpu i lanhau darn o randir oedd yn segur yng Nghoed Efa, Cwmbrân.

Mae cam cychwynnol y prosiect yn mynd rhagddo hyd at y Pasg, gyda'r gobaith y gall y bobl ifanc ddechrau tyfu amrywiaeth o gnydau yn barod am y misoedd cynhesach.



Bydd y fenter hon yn helpu'r bobl ifanc hyn i gael y cyfle i ddysgu sgiliau bywyd gwerthfawr, fel garddio, gwaith tîm a datrys problemau, wrth weithio i wella eu hiechyd a'u lles, addysg a'u rhagolygon gyrfa yn y dyfodol.

Bydd peth o'r cynnyrch sy'n cael ei dyfu ar y safle newydd yn cael ei bacio a'i anfon at fanciau bwyd lleol i helpu pobl sy'n teimlo effaith yr argyfwng costau byw.

Mae'r prosiect hefyd yn rhan o fenter ehangach lle bydd bwyd sy'n cael ei dyfu ar y rhandir yn cael ei ddefnyddio i helpu i greu bwydlenni mewn caffi hyfforddi dan ofal Ysbrydoli yng Nghanolfan Ddinesig Pont-y-pŵl, ar gyfer ein staff, cynghorwyr ac ymwelwyr.

Mae'r Prosiect Ysbrydoli wedi gweithio gyda dros 500 o bobl ifanc 11-20 oed hyd yma, gan gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn 'NEET' sef nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, trwy roi cyfleoedd addysg a hyfforddiant eraill iddynt.

Cefnogwyd y prosiect hwn gan y Gymdeithas Randiroedd i gael y rhandir, ac rydym hefyd yn gobeithio cael cefnogaeth Cadwch Gymru'n Daclus i ailddatblygu'r rhandir er mwyn helpu i'w gynnal wrth symud ymlaen.

Mae'r caffi hyfforddi yn fenter gyffrous fydd yn dysgu sgiliau a chymwysterau newydd yn y maes coginio a lletygarwch i bobl ifanc sydd wedi'u targedu. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau y bydd y prosiectau hyn yn ysbrydoli mwy o bobl ifanc i gymryd rhan, tyfu eu bwyd eu hunain a helpu i gyfrannu at ddietau iach y bobl sy'n byw yn Nhorfaen

(Mae'r prosiect Ysbrydoli yn Nhorfaen yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ac mae'n rhan o Wasanaeth Addysg y Cyngor sy'n cefnogi gwaith ymgysylltu a datblygu pobl ifanc, a'u hatal rhag dod yn NEET.)

## Ein Prif Heriau…

### Addysg:

- **Datblygu Cynnig a Strategaeth newydd a chynyddu darpariaeth mynediad agored wedi'i thargedu i bobl ifanc.**
- **Parhau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a lleihau gwastraff bwyd mewn ceginau ysgol.**

### Gwasanaethau Plant:

- **Lleihau poblogaeth ein plant sy'n derbyn gofal a hynny'n ddiogel, ac yn gyflym.**
- **Datblygu ystod eang o lety i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal.**
- **Gwella ein model comisiynu cyffredinol, am ei fod yn ymwneud â llety a gwasanaethau eraill a gomisiynir, er mwyn cael mwy o reolaeth dros y farchnad.**
- **Sicrhau mwy o allu i reoli'r galw cyffredinol drwy wella'r cynnig cymunedol a datblygu mwy o wasanaethau effeithiol i ymyrryd yn gynnar ac atal gyda llwybrau clir.**

### Diogelwch Cymunedol:

- **Datblygu cyfres gryfach o fesurau effaith sy'n ein helpu i olrhain effeithiolrwydd ein hymyriadau.**

## AMCAN LLESIANT 3:

*Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar*

**Hyrwyddo annibyniaeth a llesiant i'r eithaf….**

**Strategaeth Llesiant Cymunedol:**

Mae gwneud y mwyaf o annibyniaeth, ymyrraeth gynnar ac atal, gweithio mewn partneriaeth a mynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno anghydraddoldeb, yn parhau i fod wrth wraidd yr holl wasanaethau yr ydym yn eu cynllunio a'u darparu.

Ar ddechrau 2023, aethom ati i greu Cyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau, newydd, fyddai'n helpu i ddatblygu "dull cymunedau" newydd wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau. Pwrpas y Gyfarwyddiaeth yw hyrwyddo a chryfhau'r rôl hanfodol y mae ein cymunedau yn ei chwarae wrth wella lles a bywiogrwydd eu lle lleol. Mae hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, y trydydd sector ac ar draws adrannau'r Cyngor.

I nodi ein huchelgais, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi arwain ar baratoi Strategaeth Llesiant Cymunedol. Mae hyn yn nodi ein cynllun tair blynedd cychwynnol, wedi'i gynllunio gyda ffocws ar gymunedau, lles ac atal, a'u gosod wrth wraidd y ffordd y gellir darparu ein gwasanaethau.

Ym mis Mawrth 2024, gwahoddwyd ein preswylwyr i gymryd rhan mewn arolwg a fydd yn helpu i sicrhau y bydd ein dull newydd o weithio gyda chymunedau yn cael ei gyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Roedd cyfle i gwblhau'r arolwg, yn ddienw ar wefan y cyngor **Dweud Eich Dweud Torfaen %**, gyda'r nod o:

- Ddeall anghenion ein cymunedau unigol.
- Canolbwyntio ar lesiant a nodi ac atal materion sy'n effeithio ar lesiant yn gynnar.
- Alinio gwasanaethau'r cyngor yn well â'r ddarpariaeth gymunedol bresennol.
- Cefnogi a datblygu sefydliadau a gwasanaethau yn y gymuned.

Canfu'r arolwg lawer o bethau yr oedd pobl yn eu hoffi am eu cymunedau a oedd yn eu gwneud yn fwy gwydn. Roedd y rhain yn cynnwys mannau gwyrdd agored, clybiau a grwpiau cyfagos, natur gyfeillgar y bobl leol. Canfu'r arolwg hefyd y materion hynny y teimlai preswylwyr fyddai'n gwella gwytnwch neu ganfyddiadau yn y gymuned gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, trafnidiaeth hygyrch, glendid a gweithgareddau i bobl ifanc.

Mae'r adborth yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymarfer ymgysylltu bellach wedi'i adlewyrchu yn fersiwn derfynol ein Strategaeth Llesiant Cymunedol a gymeradwywyd gan y Cyngor, ym mis Ebrill 2024.

Mae'r strategaeth yn nodi dull uchelgeisiol o ran blaenoriaethu'r cynnig cymorth cymunedol, targedu ein gweithgareddau ataliol yn fwy effeithiol, integreiddio gwasanaethau ail-alluogi a gwella monitro cyfunol ar draws y system les. Bydd y dull gweithredu yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni canlyniadau cryfach a rheoli'r galw fel y gallwn helpu preswylwyr i gael hyd i'r cymorth iawn, ar yr adeg iawn, am y cyfnod o amser iawn.

### Dull Ailalluogi Integredig:

Mae pwysau sylweddol ar y gorwel sy'n wynebu gofal cymdeithasol i oedolion. Mae newidiadau i ddemograffeg a chymhlethdod yn golygu y rhagwelir y bydd y galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2023 a 2032.

I gynnal canlyniadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r "hyn sy'n bwysig" i unigolion yn Nhorfaen, bydd angen i ni ailystyried y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ataliol, fel y gallwn gefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth a byw yn y ffordd y maen nhw'n ei ddymuno, cyhyd ag y bo modd.

Mae ail-alluogi yn ganolog i'r dull ataliol hwn. Ond bydd darparu rhaglenni ail-alluogi ar raddfa yn gofyn am newidiadau i'r ffordd y mae ein gwasanaethau ail-alluogi yn cael eu cynllunio, eu strwythuro a'u rheoli.

Tuag at ddiwedd 2023, aethom ati i ddatblygu model oedd yn cynnig dod â'n tri gwasanaeth ail-alluogi at ei gilydd i greu un gwasanaeth Ailalluogi Integredig. Mae'r 3 gwasanaeth fel a ganlyn:

**Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC)**: Gwasanaeth ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB). Mae'r TAC yn wasanaeth gofal canolradd amlddisgyblaethol sy'n cael ei arwain gan isadran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol BIPAB, sy'n cynnwys *RAPID medical*, *RAPID nursing*, Atal Cwympiadau, y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol integredig a Gofal Brys yn y Cartref. Y Tîm Gofal Brys yn y Cartref sy'n arwain ymyriadau ail-alluogi yn y TAC sy'n darparu 8 diwrnod o gymorth gofal cartref ar ôl ryddhau o'r ysbyty (neu wrth ddrws ffrynt yr ysbyty er mwyn osgoi mynd i mewn i'r ysbyty). Mae ar gael rhwng 8am ac 8pm 7 diwrnod yr wythnos.

**Derbyn**: Mae ein Tîm Derbyn yn cynnig gwasanaethau cymorth tymor byr yn y cartref. Maen nhw'n un hanner o ddarpariaeth gofal cartref ehangach y Cyngor, ochr yn ochr â'r gwasanaeth cymorth dementia tymor hwy.

**Tŷ Glas y Dorlan**: Cafodd y tîm hwn ei ffurfioli pan agorodd y safle yn 2021, gan dynnu adnoddau o bob rhan o'r timau gofal cymdeithasol rhanbarthol i greu hwb llesiant canolog. Yr Hwb yw'r sylfaen ar gyfer gwasanaeth 'Gofal Gwell' y Cyngor. Mae'r adeilad yn cynnig 6 fflat 'Gofal Ychwanegol' tymor hir, a 13 fflat ailalluogi neu seibiant byr. Mae gwasanaethau teleofal hefyd yn defnyddio fflat i ddangos technolegau cynorthwyol. Mae cymorth gofal cartref ar gael i breswylwyr Tŷ Glas y Dorlan rhwng 7am ac 11pm, 7 diwrnod yr wythnos ynghyd â chymorth yn ystod y nos a chymorth cysgu i mewn. Mae'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio i gefnogi rhyddhau o'r ysbyty ac osgoi mynd i mewn i'r ysbyty.

O dan ein model newydd, bydd system "Drws Ffrynt" yn brysbennu pob ymholiad newydd am gymorth. Bydd 'drws ffrynt' yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth fel y bo'n briodol, gan gynnig pecynnau cefnogaeth

cyffredinol a chymunedol. Pan fydd preswylwyr angen cymorth sydd y tu hwnt i wasanaethau cyffredinol, cymorth cymunedol neu wybodaeth, cyngor a chymorth, bydd ‘drws ffrynt’ yn nodi’r rheini fyddai’n elwa ar raglen gymorth ail-alluogi. Bydd y broses hon yn cael ei chynnal dan oruchwyliaeth ymarferwyr arweiniol a'u cwblhau cyn i dimau gofal cymdeithasol yr ardal ddod yn rhan o’r broses.

I gwsmeriaid sydd eisoes yn derbyn gofal cymdeithasol, bydd tîm gofal cymdeithasol yr ardal yn cwblhau unrhyw asesiad ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r ysbyty ond bydd unrhyw gynnydd arfaethedig mewn gofal a gomisiynir yn sbarduno cyfranogiad y Gwasanaeth Ailalluogi Integredig, cyn hynny.

Ers hynny, rydym wedi cwblhau ein model newydd. Mae’r model wedi bod yn destun ymgynghoriad ymysg ein staff a’n Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (BPGI) ac fe fydd yn weithredol o fis Ebrill 2024.

### Cefnogi ein gofalwyr…

Amcangyfrifir bod cannoedd o bobl yn gofalu am anwyliaid yn Nhorfaen. Bydd llawer ohonynt wedi bod yn bwrw ymlaen â’r rôl dros nifer o flynyddoedd, heb dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth, mewn meysydd fel: symud a thrin person, gweinyddu meddyginiaethau neu reoli straen.



I gydnabod y cymorth y mae gofalwyr di-dâl yn ei roi i'w hanwyliaid, rydym yn teimlo ei bod ond yn iawn eu bod hefyd yn cael yr help sydd ei angen arnynt.

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gynnig cyfle i ofalwyr di-dâl gofrestru ar ystod o gyrsiau, fel cyrsiau e-ddysgu i'w helpu yn eu rolau gofalu.

Gwnaethom hefyd sefydlu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Gofalwyr i helpu staff sy'n ofalwyr di-dâl gael cyngor a chefnogaeth yn ein sefydliad..

Amcangyfrifir bod mwy na 6.5 miliwn o ofalwyr yn y DU, gydag 1 o bob 7 o'r holl weithwyr yng Nghymru yn jyglo gwaith a gofalu am anwyliaid. Mae hyn yn gyfystyr â i 223,000 o weithwyr.




Y llynedd, ni oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i dderbyn Achrediad Cyflogwr sy'n Ystyriol o Ofalwyr gan y Care Collective, yr elusen fwyaf sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru.

Daeth hyn ar ôl i'r cyngor gyflwyno Polisi Gofalwyr newydd, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i staff sydd â chyfrifoldebau gofalu drwy gynllun cymorth personol a gwyliau ychwanegol i ofalwyr, yn ogystal â hyfforddiant i reolwyr.

Mae'r broses o gyflwyno polisi newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl wedi helpu'r sefydliad i ddeall a gwerthfawrogi'r gwaith y mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud a sut y gallwn ni i gyd gynnig mwy o gymorth.

Gwnaethom hefyd lansio cynllun newydd i roi seibiant i'n gofalwyr di-dâl, tra bod rhywun arall yn gofalu am eu hanwyliaid.

Mae Cynllun Pontio’r Bwlch Gwent yn cynnig cyfle i bobl sy’n gofalu am berthnasau neu ffrindiau gymryd seibiant byr o’u rôl gofalu. Gall hyn gynnwys mynd i apwyntiad personol, digwyddiad neu gymdeithasu gyda ffrindiau, tra bod yr unigolyn y maent yn gofalu amdano yn derbyn gofal gan rywun arall.

I ddefnyddio’r cynllun, mae angen i ofalwyr siarad â’u gweithiwr cymdeithasol neu berson proffesiynol i drafod eu hanghenion a gwirio cymhwyster, mewn sgwrs Beth sy’n Bwysig neu Asesiad Anghenion Gofalwyr. Unwaith y bydd meini prawf cymhwyster wedi eu bodloni, gall gofalwyr ddewis darparwr gofal.

Gall gofalwyr hefyd ofyn am wasanaethau a chefnogaeth ar gyfer pethau na allan nhw efallai eu gwneud eu hunain, y tu fewn neu du allan i’r cartref.

Mae PBG yn cael ei redeg gan NEWCIS, elusen sy’n cefnogi gofalwyr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae’r cynllun ar gael i ofalwyr di-dâl sy’n oedolion, a gofalwyr ifanc (o dan 16 oed) sy’n byw ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy neu Dorfaen.

Mae gofalu am un annwyl yn gallu bod yn llethol yn emosiynol ac yn gorfforol, ac mae'n beth cyffredin bod gofalwyr yn esgeuluso eu lles eu hunain dros amser. Dyma pam y mae gofal seibiant yn hanfodol i helpu i gynnal lles gofalwyr wrth iddyn nhw wneud eu gwaith anhygoel. Mae gofal seibiant yn rhoi cyfle am seibiant mawr ei angen i ofalwyr ofalu amdanyn nhw eu hunain, a'u helpu i deimlo eu bod yn gallu ymdopi â'u cyfrifoldebau wedyn.

Rydyn ni'n hynod o falch ein bod ni'n gallu cynnig y cynllun yma yn Nhorfaen, ac rydym yn gobeithio y bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r rheiny y mae ei angen arnyn nhw.

### Cydnabod a chefnogi ein Gofalwyr Maeth….

Aethom ati i ddathlu mwy na 170 o'n gofalwyr maeth o bob rhan o Dorfaen ym mis Mai 2023, am eu gwaith rhagorol i drawsnewid bywydau plant yn eu gofal.



Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn ystod Pythefnos Gofal Maethu, sy'n ymgyrch genedlaethol dan arweiniad y Rhwydwaith Maethu. Y nod yw codi ymwybyddiaeth am faethu a thynnu sylw at yr effaith ryfeddol y mae teuluoedd maeth yn ei chael ar fywydau plant a phobl ifanc agored i niwed.

Trwy gydol 2023/24, rydym wedi parhau i ragori ar ein targed ar gyfer nifer y plant sydd wedi'u lleoli gyda'n gofalwyr maeth 'mewnol'

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, cafodd 82.2% o blant mewn lleoliadau maeth prif ffrwd, eu lleoli gyda gofalwyr maeth 'mewnol'.

### Meithrin gwytnwch yn ein cymunedau….

Ym mis Awst 2023, gan ragweld ein Strategaeth Llesiant Cymunedol newydd, lansiwyd cronfa newydd i helpu grwpiau a sefydliadau, sy'n cefnogi cymunedau i fod yn fwy hunangynhaliol. Nod y gronfa hon yw cefnogi partneriaid trydydd sector a chymunedol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall yr heriau sy'n wynebu cymunedau unigol.

Mae'r cynllun Grantiau Cadernid Cymunedol yn cynnig grantiau rhwng £500 a £15,000 i brosiectau hen a newydd. Gall y rhain gynnwys mentrau sy'n helpu cymunedau gyda chostau byw, fel hybiau cynnes a banciau bwyd, prosiectau sy'n ceisio gwella lles a'r rhai sy'n galluogi cymunedau i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain.

(Derbyniodd y Gronfa Cadernid Cymunedol £260,000 yn 2024/25 gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU).

Cynhaliwyd digwyddiad gyda'r nod o hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol ym Mlaenafon hefyd, ym mis Chwefror 2024.

Ein Huwchgynhadledd Bwyd, a drefnwyd gan ein Tîm Gwytnwch Bwyd oedd y cyntaf o'i bath yn y fwrdeistref. Daeth cynhyrchwyr, cyflenwyr a sefydliadau ynghyd i helpu i ddatblygu rhwydweithiau lleol a rhannu arferion cynaliadwy.



Cafodd preswylwyr gyfle hefyd i gwrdd â rhai o'r cynhyrchwyr, cael awgrymiadau ar sut i leihau gwastraff bwyd a chael blas ar fwyd am ddim.

Cafodd cynhyrchwyr, cyflenwyr a sefydliadau bwyd lleol sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi bwyd gyfle hefyd i gymryd rhan mewn digwyddiad busnes gyda'r nod o hyrwyddo a rhannu arfer da o ran cynaliadwyedd.

(Mae'r Rhaglen Gwydnwch Bwyd wedi derbyn £991,426 gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Nod y rhaglen yw cynyddu'r maint o fwyd fforddiadwy a gynhyrchir yn lleol a dod o hyd i ffyrdd cynaliadwy o fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy'r Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy).

### Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb….

Cafodd Prydau Ysgol Am Ddim i bawb eu darparu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022, ar gyfer ein dysgwyr iau, yn y dosbarth derbyn, blynyddoedd 1 a 2 yn Nhorfaen.

O fis Medi 2023, mae mwy na 4,000 o ddisgyblion ysgol gynradd bellach yn gymwys i dderbyn Pryd Ysgol Am Ddim. Mae Torfaen yn un o 14 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnig prydau ysgol am ddim i bob grŵp blwyddyn yn ein lleoliadau ysgolion cynradd.

Mae cyfleusterau arlwyo mewn sawl un o'n hysgolion cynradd wedi cael eu huwchraddio drwy gydol yr haf, er mwyn gwireddu hyn. Mae ceginau mewn deg ysgol wedi cael eu trawsnewid, gyda llawer yn derbyn poptai cyfunol mwy o faint, ardaloedd gweini newydd, peiriannau golchi llestri, oergelloedd a rhewgelloedd.

Wrth gwblhau'r gwaith hwn rydym wedi sicrhau bod pob un o'n disgyblion ysgolion cynradd yn gallu derbyn pryd ysgol am ddim o ddechrau'r flwyddyn academaidd - blwyddyn cyn targed Llywodraeth Cymru.

Mae ymchwil helaeth yn cadarnhau bod pryd bwyd maethlon yn gwella dawn plentyn yn sylweddol i ddysgu ac er bod clybiau brecwast eisoes wedi cael effaith gadarnhaol, mae'r cynllun newydd hwn yn gam trawsnewidiol.



Ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd ein gwasanaeth arlwyo mewn ysgolion ddwy wobr diwydiant cenedlaethol. Enillwyd Gwobr Llywodraeth Cymru am Ragoriaeth wrth gyflwyno'r rhaglen Prydau Ysgol am Ddim i Bawb, a gwobr i gydnabod eu Map Ffordd Cynaliadwyedd a'u gwaith gyda'n disgyblion cynradd sydd wedi cael eu cydnabod fel rhai sy'n arwain y ffordd, o ran lleihau gwastraff ar blatiau mewn neuaddau bwyta. Mae'r map ffordd arloesol wedi helpu'r tîm i ennill teitl enillwyr Gwobr Arloesi LACA Cymru ar y cyd mewn seremoni wobrwyo ddiweddar. LACA yw'r corff proffesiynol blaenllaw sy'n cynrychioli'r sector bwyd ysgol.

### Cefnogi ein preswylwyr gyda chostau ynni….

Ledled Torfaen, mae cannoedd o bobl wedi cael cymorth ynni am ddim, gan gynnwys cyngor a chynhyrchion arbed ynni fel bylbiau golau LED a theclynnau adlewyrchu gwres ar gyfer rheiddiaduron.

Trefnodd Tîm Cynhwysiant Ariannol ein Gwasanaeth Adeiladu Cymunedau Cryf, sesiynau galw heibio i roi cyngor ar ddefnyddio yn y cartref i bobl sy'n cael anawsterau gyda chostau byw.

Cynhaliwyd cyfanswm o wyth digwyddiad yn ystod mis Medi a mis Hydref 2023 mewn amryw o leoliadau cymunedol ledled y fwrdeistref.

Mae ein Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol yn rhan o'r rhaglen ehangach 'Adeiladu Cymunedau Cryf' sy'n ceisio hwyluso ymyrraeth gynnar, rhoi cefnogaeth a meithrin teuluoedd, plant ac oedolion gwydn yn Nhorfaen.

Yn ystod y chwe mis diwethaf mae wedi helpu mwy na 300 o bobl i wella eu lles ariannol ac ansawdd bywyd. Yn ogystal â helpu'r bobl hynny sydd angen cymorth mewn argyfwng, mae'r gwasanaeth yn cynnig:

- Cyngor cyllidebu,
- Nwyddau gwyn ar frys fel oergelloedd a pheiriannau golchi,
- Mynediad at gredyd fforddiadwy a chynlluniau cynilo, ac
- Addysg ariannol a hyfforddiant sgiliau digidol.

Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth, undebau credyd, banciau bwyd a chymdeithasau tai lleol i gynnig ehangach wedi'i deilwra i breswylwyr.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi creu effaith gadarnhaol wirioneddol ar fywydau ein preswylwyr sydd mewn angen. Mae cynhwysiant ariannol nid yn unig yn golygu cael mynediad at gynhyrchion a gwasanaethau, ond hefyd, y sgiliau a'r hyder i'w defnyddio'n effeithiol.

Nod y prosiect hwn yw grymuso pobl i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus a chyflawni eu nodau. Rydym yn ddiolchgar i'n cyllidwyr a'n partneriaid am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad.

(Ariannwyd y digwyddiadau ynni gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU - un o bileri canolog agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ac mae'n rhoi £2.6 biliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol erbyn mis Mawrth 2025).

### Lleihau digartrefedd….

Fe wnaeth y cynlluniau ar gyfer canolfan newydd i gefnogi pobl ddigartref yn Nhorfaen symud cam ymlaen ym mis Tachwedd 2023.

Mae elusen Wallich wedi derbyn contract i roi cymorth 24 awr i bobl sy'n byw mewn fflatiau yn Pearl House, sy'n cael ei drosi, yng nghanol tref Pont-y-pŵl.

Ym mis Hydref 2023, cymeradwyodd ein haelodau Cabinet gynllun i wario £449,514 o'r grant cymorth tai gwerth £4.6 miliwn gan Gyngor Torfaen ar ganolfan llety ac asesu newydd.

Mae gweithio mewn partneriaeth â Chartrefi Melin, sy'n gwneud y gwaith yn yr eiddo Gradd II, yn ddatblygiad pwysig tuag at ein nod o roi cymorth mwy cynaliadwy ac effeithiol i unigolion digartref yn Nhorfaen.



Trwy'r fath ddull amlasiantaethol a chefnogaeth 24 awr wrth law, gobeithiwn y gallwn gefnogi pobl i ailgydio ar bethau yn gyflymach, a'u galluogi i symud i lety cynaliadwy hirdymor. Gan ddefnyddio'r dull hwn sydd yn fwy pwrpasol, rydym yn gobeithio atal mwy o unigolion rhag suddo i ddigartrefedd, a gwella'u lles yn gyffredinol.

Mae'r Wallich eisoes yn gynnig gwasanaethau o'i swyddfeydd yn Pearl House, a hynny i gefnogi pobl sydd â phroblemau'n ymwneud â thai, i gael hyd i gymorth. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod yn cysgu ar y stryd, felly bydd y cymorth y mae pobl yn ei dderbyn ar hyn o bryd yn parhau.

Disgwylir y bydd y gwaith o drosi Pearl House yn 15 fflat un ystafell wely, yn cael ei gwblhau ym mis Hydref 2024, a bydd y gwasanaeth hwb hefyd yn agor ar yr un pryd.

Disgwylir y bydd tenantiaid yn aros yn y llety am hyd at chwe mis tra byddant yn chwilio am lety arall.

Ym mis Ionawr 2024, aeth ein Cabinet ati hefyd i gymeradwyo ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym.

Mae'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn uchelgais gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio atal a lliniaru digartrefedd er mwyn sicrhau bod digartrefedd yn anghyffredin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ail-adrodd.

Mae ein cynllun yn amlinellu rhai o'r heriau presennol sy'n ein hwynebu yn Nhorfaen, ynghyd â'n hymdrechion i ymgysylltu a chyflawni uchelgais LlC, sy'n cynnwys egwyddorion yr ydym wedi bod yn cadw atynt ac yn gweithio tuag atynt, ers blynyddoedd lawer.

Trwy gydol 2023/24, rydym wedi bod yn gweithio ar sawl prosiect, sy'n cynnwys:

- 8 uned llety â chymorth ychwanegol,
- 12 uned llety dros dro, ychwanegol,
- Trefniadau partneriaeth ar gyfer yr Hwb Llety a Chymorth, ac
- Adolygu arferion gwaith, prosesau a gwybodaeth, yn unol â newid y model darparu gwasanaethau.

Mae'r galw am wasanaethau tai a chefnogaeth yn parhau i fod yn uchel gyda'r nifer sydd yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal, mae'r rhestr aros ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai wedi gweld cynnydd o dros 100% gyda'r rhestr aros yn fwy na 200 o aelwydydd. Mae'r galw am dai â chymorth hefyd yn uchel ond mae'r rhestr aros am dai â chymorth yn parhau'n gymharol sefydlog o'i gymharu. Mae'r galw hwn yn dangos yn glir bod pwysau cynyddol ar y system dai a chymorth yn gyffredinol ac mae hyn yn galw am ddull clir a phenodol.

Yn rhannol, mae'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn ceisio cyflawni hyn. Dylid ystyried hyn fel newid system ehangach ac esblygiad i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cysylltu ar draws yr holl bartneriaid i leihau gwastraff o fewn y system, dyblygu gwasanaethau a sicrhau canlyniadau gwell i breswylwyr. Felly, bydd cyflawni ein cynllun yn hollbwysig, wrth benderfynu sut yr ydym yn rheoli ein gwasanaethau tai a lleihau digartrefedd, wrth symud ymlaen.

Yn 2023/24, ef wnaethom hefyd lansio'r Bartneriaeth Tai Strategol. Mae'r bartneriaeth hon yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o blith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Darparwyr Cymorth Tai, y bwrdd Iechyd a'n Cyngor i gynllunio cymorth sy'n gysylltiedig â thai a mynd i'r afael â materion cyflenwi tai, mewn ffordd glir a chydlynol.

Bydd y Bartneriaeth Tai Strategol yn monitro cyfres allweddol o ddangosyddion perfformiad a bydd yn cefnogi gydag unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflenwi tai addas a'r galw am dai addas.

**Ein Prif Heriau….**

**Addysg:**

**Parhau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.**

**Tai:**

- **Datblygu cyfres ddiwygiedig o fesurau perfformiad sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r dull Ailgartrefu Cyflym mewn modd mwy priodol.**
- **Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy ddatblygiadau a rhaglenni newydd i ailddefnyddio eiddo gwag unwaith eto, a hynny'n gyflym.**
- **Ystyried goblygiadau'r dull Ailgartrefu Cyflym ar wasanaethau a gomisiynir.**

## AMCAN LELSIANT 4:

***Gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol***

### Darparu llwybrau diogel i ysgolion/cynlluniau teithio llesol, yn ein cymunedau….

Yn 2023, gwariwyd bron i hanner miliwn o bunnoedd ar ddau brosiect allweddol i wella teithio llesol yn y fwrdeistref.

Fe wnaethom dderbyn £420,000 o gyllid teithio llesol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun rhwydwaith Teithio Llesol Cae Derw sy'n cynnwys 400 metr o lwybrau cerdded a beicio newydd. Mae hyn hefyd yn ategu at lwybr 180 metr newydd o Court Farm Road, Cae Derw i Ysgol Gymunedol Llantarnam.

Mae'r llwybr yn rhan o rwydwaith teithio llesol mwy yng Nghae Derw, Cwmbrân, gyda chynlluniau i ddatblygu sawl adran arall yn ystod y blynyddoedd nesaf.



Mae adborth gan ddisgyblion a rhieni yn dweud bod llwybr troed newydd i Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam wedi trawsnewid eu teithiau i'r ysgol. Roedd tua hanner y disgyblion eisoes yn teithio'n rheolaidd i'r ysgol ar droed neu ar feic, ond mae'r llwybr troed wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a'r staff sy'n ei ddefnyddio.

Rydym hefyd wedi derbyn £50,000 o gyllid Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau i gynnal asesiad o ffyrdd a strydoedd y tu allan i bob un ysgol. Ei nod fydd ceisio dod o hyd i gyfleoedd i wella diogelwch ar y ffyrdd, fel cyfyngu ar fynediad i gerbydau yn ystod amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol.

Mae cyllid ychwanegol hefyd wedi'i ddyfarnu ar gyfer prosiectau llai fel gostwng cyrbau, raciau a meinciau beiciau newydd, a nodi a chynllunio prosiectau ar gyfer y dyfodol.

Daw hyn wrth i waith y llynedd i ledaenu’r llwybr 600m ar hyd Ffordd Edlogan yng Nghwmbrân gael ei gwblhau i'w gwneud hi'n haws i gerddwyr a beicwyr ddefnyddio'r llwybr.

Cynhaliwyd gwaith ar hyd llwybr teithio llesol Cwmbrân Drive y llynedd, a oedd yn cynnwys gwella'r llwybr o gylchfan Grove Park i Glwb Gweithwyr Pontnewydd (ger cylchfan Aldi). Roedd hyn yn golygu lledu'r llwybr troed cul wrth ymyl y brif ffordd i ddod yn llwybr cerdded a beicio a rennir, 3m o led, am bellter o 1.2km. Bydd Cam 2 y prosiect hwn yn cynnwys Grove Park i Bevans Lane.

Rydym yn deall na all pawb deithio'n llesol drwy'r amser, ond trwy ostwng nifer y teithiau mewn car neu ar fws bob hyn a hyn, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i'r amgylchedd.

### Cefnogi grwpiau cymunedol i annog llesiant….



Fel rhan o Wythnos y Lluoedd Arfog yn 2023, lansiwyd ein hwb cymorth newydd i gyn-filwyr yng Nghwmbrân.

Mae Hwb Cymorth Cyn-filwyr Torfaen wedi'i leoli yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Woodland Road. Ei nod yw creu man diogel a chroesawgar lle gall cyn-filwyr ddod i gyswllt ag unigolion sydd wedi rhannu profiadau tebyg.

Mae'r hwb yn cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys cymorth gyda budd-daliadau a thai, mynediad at adnoddau iechyd meddwl, a chyfleoedd i ennill sgiliau newydd.

Mae lansio'r hwb cymorth hwn yn arwydd o'n hymrwymiad diwyro i gefnogi ac anrhydeddu'r aberth a wnaed gan Gymuned y Lluoedd Arfog.

### Cyflawni prosiect 20mya Llywodraeth Cymru….

Dechreuodd y gwaith o godi arwyddion ffyrdd newydd ym mis Gorffennaf 2023, yn barod i gyflwyno terfyn cyflymder newydd 20mya.




O 17 Medi 2023, gostyngodd y terfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd adeiledig yng Nghymru o 30mya i 20mya. Mae'r rhain yn cynnwys ffyrdd lle nad yw goleuadau stryd mwy na 200 llath ar wahân.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r ddeddfwriaeth i wneud ffyrdd yn fwy diogel, lleihau gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, annog mwy o bobl i gerdded a seiclo, gwella iechyd a lles a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fel cyngor, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gyrwyr yn ymwybodol o'r terfyn cyflymder newydd a'r seilwaith ffyrdd i adlewyrchu'r terfyn cyflymder newydd.

### Annog Cydlyniant Cymunedol….

Yn 2023, llwyddodd wyth prosiect cymunedol ar draws Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent i gael cyllid i helpu i leihau anghydraddoldeb a dod â chymunedau at ei gilydd.

Nod y Grantiau Cydlyniant Cymunedol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yw cefnogi mentrau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a pharch rhwng gwahanol grwpiau o bobl a chreu cyfleoedd i bobl o bob cefndir uno.

Roedd ein prosiect yn cynnwys derbyn £2000 ar gyfer Amgueddfa Torfaen, sy'n bwriadu gweithio gyda disgyblion Sipsiwn Teithwyr yn Ysgol Gorllewin Mynwy i greu arddangosfa Tu Mewn / Tu Allan.

Bydd yr arian yn cael ei wario ar helpu ein pobl ifanc i greu arddangosfa ffotograffau a sain sy'n dathlu hanes a thraddodiadau'r cymunedau Sipsiwn, Teithwyr Roma.



Rhoddodd hyn gyfle i'n disgyblion ddathlu eu diwylliant a hefyd ennill achrediad a chymhwyster mewn ffotograffiaeth, yn ogystal â chaniatáu i'r gymuned nad yw'n deithwyr i gael cipolwg ar fywydau'r teithwyr sy'n byw yn ein cymunedau.

Dechreuodd y gwaith ar yr arddangosfa ym mis Hydref 2023, gyda chynlluniau i ddangos y gwaith yn Amgueddfa Pont-y-pŵl ym mis Mehefin 2024,fel rhan o Fis Ymwybyddiaeth Sipsiwn, Roma, Teithwyr.

### Creu cyfleoedd i'n sefydliadau trydydd sector….

Ym mis Mawrth 2024, lansiwyd rhaglen bartneriaeth newydd, "Cysylltu Torfaen," i gynyddu cyfleoedd ariannu ar gyfer ein sefydliadau Trydydd Sector.

Nod y bartneriaeth hon yw dod â ni a sefydliadau eraill fel Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Bron Afon, Pobl, a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ynghyd i greu dull unedig o weinyddu cynlluniau grantiau bach i grwpiau cymunedol. Y nod hefyd yw cynyddu'r cyllid sydd ar gael i helpu i ddatblygu gweithgareddau yn ein cymunedau sy'n annog perchnogaeth gymunedol, datblygu annibyniaeth, a gwneud gwahaniaeth parhaol i fywydau pobl.

Mae'r partneriaid yn cynnig amrywiaeth o grantiau, gan gynnwys grantiau Gwydnwch Cymunedol, grantiau Busnes Bwyd, grantiau Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, cynllun "Pitch4Pounds" Bron Afon, a grantiau Ymddiriedolaeth Pobl. Mae'r grantiau hyn wedi'u cynllunio i feithrin cryfder yn y gymuned, ymgysylltu â'r gymuned ehangach, a chynyddu ymgysylltiad.

Mae "Cysylltu Torfaen" yn rhan o ddull cymunedol newydd, sy'n canolbwyntio ar gymuned, lles ac atal, gan eu rhoi wrth wraidd y ffordd y gellir darparu gwasanaethau. Mae cefnogi a datblygu sefydliadau a gwasanaethau cymunedol yn allweddol ac mae cymorth grant yn rhan o'r pecyn ehangach y gallwn ei gynnig i rymuso ein cymunedau.

## Ein Prif Heriau…

### Digidol:

**Mae angen i ni gynyddu cyfleoedd i'n preswylwyr ymgysylltu'n ddigidol â ni a rhoi cefnogaeth i' r rhai nad ydynt yn ymgysylltu'n ddigidol.**

### Gallu Cymunedol:

**Mae angen i ni weithio'n agosach gyda'n cynghorau cymuned i flaenoriaethu gweithgarwch ar lefel Cyngor Cymuned o ran yr hyn a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i les cymunedol.**

**Mae angen i ni ymchwilio a deall pa effaith y bydd ein gweithgareddau / penderfyniadau gwahanol yn ei chael ar lesiant, ar lefel leol.**

## AMCAN LLESIANT 5:

***Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol***

### Lleihau ein gwastraff a chynyddu ailgylchu….

Rydym yn hyderus, os byddwn yn gweithio gyda'n preswylwyr, y gallwn gynyddu ein cyfraddau ailgylchu o 62% i 70%, a fydd yn well i'n hamgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol.




Ym mis Ebrill 2023, gwnaethom y penderfyniad i gau ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar ar gynlluniau i leihau ein casgliadau gwastraff gweddilliol, mewn ymateb i awgrymiadau a phryderon a godwyd gan ein preswylwyr. O ganlyniad, roeddem yn barod i gymryd camau eraill i gynyddu cyfraddau ailgylchu, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru, sef ailgylchu 70 y cant erbyn 2025.

Er mwyn ein helpu i ddeall mwy am yr heriau y mae ein preswylwyr yn eu hwynebu o ran lleihau eu gwastraff fe wnaethom anfon arolwg newydd. Fe wnaeth yr adborth yn dilyn yr ymgynghoriad a'r arolwg gwastraff ein helpu i lywio ein hymgyrch newydd "Codi'r Gyfradd". Mae Codi'r Gyfradd yn anelu at ailgylchu 70 o wastraff y cartref, heb newid ein casgliadau gwastraff gweddilliol.

Roedd yr ymgyrch newydd, Codi'r Gyfradd yn cynnwys ymgyrch ymgysylltu ac addysg gyhoeddus helaeth, yn ogystal â:

- Chynlluniau ar gyfer mannau casglu plastig mwy ymestynnol.
- Ymrwymiad i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol i gynyddu cyfleusterau ailgylchu mewn fflatiau.
- Gwella ansawdd y gwasanaeth ailgylchu.
- Buddsoddi mewn cyfleusterau ailgylchu yn Nhŷ Coch.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyfrannodd miloedd o breswylwyr at y drafodaeth hon. Yn ein sioeau teithiol clywsom gan bobl sy'n cael eu hysgogi'n fawr gan yr her i leihau gwastraff a'r effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Ond clywsom hefyd gan bobl a oedd yn wirioneddol bryderus am effaith symud i gasgliadau sbwriel bob 3 neu 4 wythnos. Nid oedd llawer o'r preswylwyr chwaith yn ymwybodol o'r holl eitemau y gellir eu hailgylchu'n wythnosol.

Yng ngoleuni ein dull Codi'r Gyfradd i greu gwelliannau, a'r uchelgais i sicrhau bod gennym wasanaeth ailgylchu a gwastraff cynaliadwy ac uchel ei ansawdd, rydym wedi creu trefn rheoli newydd, i helpu i yrru'r newid sydd ei angen.

Mae ein trefn lywodraethu newydd yn cynnwys:

- Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS) sy'n cynnwys Aelodau trawsbleidiol a chynrychiolaeth allanol, gan: Sophie Howe, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gynt, Roger Phillips, Prif Weithredwr, Capital Valleys Plastic, Lauren Morse a Rhiannon Munro o Lysgenhadon Newid Hinsawdd Torfaen a Dr Peter Jones, Arbenigwr ailgylchu o Eunomia Consulting
- Cefnogi'r BPS a gyrru'r gwaith hwn ymlaen a ffurfio Grŵp Gwella Cyflymu (GGC). Y Cadeirydd yw ein Cyfarwyddwr Strategol, Economi ac Amgylchedd, Arweinydd y Cyngor, Aelod Gweithredol yr Economi ac Amgylchedd, Prif Weithredwr, Pennaeth Ailgylchu a'r Amgylchedd, Emma Hallett, WRAP Cymru, Kristy Spindler, Partneriaethau Lleol, Arbenigwr gwastraff a'n Pennaeth Cyfathrebu.

Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu'n rheolaidd ar allbynnau/effeithiau'r grwpiau uchod a darparu gwasanaethau yn hanfodol o ran llwyddiant strategaeth Codi'r Gyfradd.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bod yn ehangu ein gwasanaeth ailgylchu wrth ymyl y ffordd, drwy gasglu batris yn y blychau ailgylchu du. O fis Awst 2023, symudon ni i gasgliadau cardbord wythnosol a chasglu eitemau trydanol bach wrth ymyl y ffordd.

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein cerbydau ailgylchu, gan gynnwys technoleg newydd yn ein lorïau a hyfforddiant staff, i wella ansawdd y gwasanaeth.

Un o'r materion a godwyd gan ein preswylwyr yn ystod ein hymgyrch "Codi'r Gyfradd" oedd ffyrdd o ailgylchu plastigau meddal a lleihau nifer yr eitemau hyn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom felly gyflwyno mannau ailgylchu newydd i'n preswylwyr, ar gyfer bagiau plastig a deunydd lapio, a elwir yn "blastigau estynedig". Agorwyd y man casglu cyntaf yn y Ganolfan Ddinesig ym Mhont-y-pŵl ac mae cynlluniau ar y gweill i agor mwy o fannau casglu yn y dyfodol agos.

Yn y mannau casglu hyn, gall preswylwyr ailgylchu plastigau meddal gan gynnwys bagiau bara, bagiau siopa, deunydd lapio â swigod, pecynnau chwech chylch, a phecynnu sy'n gorchuddio caniau diod neu gartonau, trwy roi eitemau mewn cywasgydd cyn rhoi'r deunydd wedi'i wasgu mewn bin ailgylchu glas mawr. Yna bydd Capital Valley Plastics ym Mlaenafon yn mynd ati i ailgylchu'r plastig a'i droi'n orchudd ar gyfer y diwydiant adeiladu - felly'n ychwanegu at ein economi cylchol.

Ym mis Medi 2023, cynigiwyd cyfle i'n preswylwyr gael compost, fel rhan o arbrawf i ailddefnyddio gwastraff gwyrdd sy'n cael ei gasglu o gartrefi lleol, yn rhad ac am ddim. Roedd hwn yn syniad a gyflwynwyd yn ein Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd, sef fforwm i'n preswylwyr sydd â diddordeb mewn cefnogi eu cymunedau i fod yn garbon sero net erbyn 2050.

Mae troi gwastraff gwyrdd yn gompost heb fawn yn helpu i wrthbwyso allyriadau carbon trwy gloi carbon sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer gan blanhigion yn y ddaear. Mae dewis compost di-fawn yn helpu i gynnal mawndiroedd gwerthfawr, sy'n bwysig i natur a'r amgylchedd.

Amcangyfrifir bod 3,500 tunnell o'n gwastraff gwyrdd yn cael ei gasglu wrth ymyl y ffordd bob blwyddyn a'i gludo i Gasnewydd, i'w droi'n gompost di-fawn. Mae hon yn fenter wych i'n preswylwyr, gan nad yw pawb yn gallu compostio yn eu gerddi.

Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn annog mwy o bobl i ailgylchu planhigion a gwastraff o'r ardd yn hytrach na'u rhoi yn eu biniau â chlawr porffor. Mae hyn nid yn unig yn helpu i gloi allyriadau i ffwrdd, ond gwrthbwyso carbon a lleihau llifogydd.

Bydd cynyddu'r gwastraff gwyrdd sy'n cael ei ailgylchu hefyd yn helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu yn y fwrdeistref, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i ailgylchu 70 y cant erbyn 2050.

Rydym hefyd wedi ceisio cynnwys ein hysgolion yn ein hymrwymiad i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

Ym mis Hydref 2023, trefnodd ein Gwasanaeth Arlwyo, gystadleuaeth i fonitro a lleihau gwastraff bwyd amser cinio mewn ysgolion. Cymerodd tair ar ddeg o'n hysgolion cynradd ran yn y gystadleuaeth, gan arwain at ostyngiad o tua 20% yng nghyfradd y bwyd sy'n cael ei wastraffu.

Enillwyr y gystadleuaeth oedd disgyblion ysgol gynradd Woodlands, yng Nghwmbrân, a lwyddodd i leihau eu gwastraff bwyd 29% (27.71 Kg). Cawsant eu canmol am eu sgiliau pwyso, mesur a chofnodi manwl ac am gynnal ymgyrch arloesol, yn cynnwys ysgrifennu at y gwasanaeth arlwyo i awgrymu newidiadau i'r fwydlen.

Dewiswyd Ysgolion Cynradd Blenheim a Choed Efa yn ail hefyd oherwydd eu sgiliau monitro a chofnodi manwl, yn ogystal â'u ffordd greadigol o ddathlu disgyblion sy'n gorffen eu cinio ysgol heb unrhyw wastraff.

Mae dysgu am leihau gwastraff bwyd yn ifanc yn hynod bwysig ac yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'n hymrwymiad.

Ar ddechrau mis Hydref 2023, dathlodd ein gwirfoddolwyr sy'n trwsio eitemau trydanol bach am ddim, eu blwyddyn gyntaf yn y maes. Mae Caffi Atgyweirio Torfaen yn trwsio eitemau trydanol, er mwyn osgoi eu taflu i safleoedd tirlenwi. Maent yn argymell ailosod darnau. Gellir mynd ag eitemau bach, fel tegellau, tostwyr, a pheiriannau sugno llwch, i'r siop am ddiagnosis a gellir eu hatgyweirio am ddim, os yw'n bosib gwneud hynny ar y safle.




Cyngor Torfaen ac Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers sy'n rhedeg y caffi, ym Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl, a gwirfoddolwyr sy'n ei rheoli.

Mae trwsio ac ailddefnyddio yn ffactor sy'n tyfu yn un o nodau Cymru i fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Bydd y Caffis Atgyweirio hyn yn rhan annatod o'r camau hyn i'n helpu i daro'r targed hwn yn y blynyddoedd nesaf.

Drwy gydol 2023, rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Thai Cymunedol Bron Afon i gynyddu nifer y fflatiau sydd â chyfleusterau ailgylchu.

Ym mis Hydref 2023, cafodd 18 o fflatiau Albion Road eu hychwanegu at gynllun y cyngor i ailgylchu wrth ymyl y ffordd bob wythnos. Rydym yn cydnabod bod gan bob set o fflatiau eu heriau hailgylchu eu hunain, felly rydym wrth ein bodd bod Bron Afon wedi llwyddo i sicrhau bod 18 yn fwy o'u fflatiau yn defnyddio'n cynllun casgliadau ailgylchu gwastraff bwyd. Bydd ein tîm gwastraff yn parhau i weithio gyda Bron Afon yn ystod y blynyddoedd nesaf i helpu mwy o fflatiau i ailgylchu.

Ym mis Ionawr 2024, cymeradwyodd ein haelodau Cabinet gynllun i wella'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu a chynyddu ailgylchu.

Mae ein Cynllun Gwella Ailgylchu yn ategu at ein gwelliannau diweddar i'n gwasanaethau, fel casgliadau cardbord wythnosol ac ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus 'Codi'r Gyfradd' a gafodd ei lansio ym mis Ebrill 2023. Rydym yn canolbwyntio ar bum maes gwella allweddol: ansawdd y gwasanaeth; y cynnig ailgylchu; seilwaith gwydn a chynaliadwy; ailgylchu ar gyfer busnesau ac addysg, cyfathrebu a newid ymddygiad.

Mae hefyd yn cynnwys cynlluniau i weithio ymhellach gyda chymdeithasau tai i gynyddu cyfleusterau ailgylchu mewn fflatiau a chynnal ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd, i gynyddu ailgylchu gwastraff bwyd yn y fwrdeistref.

Mae ein gwasanaeth Gwastraff hefyd yn paratoi i gyflwyno rheoliadau gwastraff masnach newydd o 6 Ebrill 2024, a fydd yn golygu y bydd angen i bob busnes gan gynnwys ysgolion ailgylchu mewn ffordd debyg i gartrefi..

## Mynd i'r afael â sbwriel….

Drwy gydol 2023/24, rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau Gwanwyn Glân, gyda'n gwirfoddolwyr a'n plant ysgol i fynd i'r afael â mannau sy'n dueddol o ddenu sbwriel o amgylch y fwrdeistref.

Mae ein digwyddiad Gwanwyn Glân Torfaen yn achlysur blynyddol ac mae'n gyfle i breswylwyr, busnesau, ysgolion ac asiantaethau eraill i gasglu sbwriel i helpu i lanhau'r fwrdeistref a chreu parthau di-sbwriel.

Mae cydweithio yn helpu i greu balchder cyffredin yn yr ardal leol, ac yn ein galluogi i wneud gwahaniaeth go iawn i lendid yn Nhorfaen. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl unigolion a grwpiau sy'n ein helpu i gasglu sbwriel drwy gydol y flwyddyn.

Mewn ymdrech i fynd i'r afael â sbwriel ymhellach a hyrwyddo amgylchedd glanach, mwy cynaliadwy, agorwyd Hwb Codi Sbwriel newydd yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon, ym mis Medi 2023. Mae gennym 10 Hwb Casglu Sbwriel ledled Torfaen sy'n cynnig yr holl offer sydd ei angen i gasglu sbwriel yn ddiogel mewn ardaloedd lleol. Dyma eu lleoliadau:

- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon, Blaenafon
- Cwmni Ailgylchu Dodrefn Circulate, Blaenafon
- Partneriaeth Costar, Greenmeadow
- Cyngor Cymuned Cwmbrân, Ventnor Road, Cwmbrân
- Partneriaeth Garnsychan, Abersychan
- Canolfan Ymwelwyr a Gweithgareddau Llyn Llandegfedd
- Marchnad Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl
- Caffi’r Boat House, Llyn Cychod Cwmbrân
- Canolfan Gymunedol Bryn Eithin, Cwmbrân
- Sero Wastraff Torfaen, Pentre’ Isaf



## Gwella ein hardaloedd lleol….

Dyfarnwyd statws y Faner Werdd i wyth man gwyrdd yn Nhorfaen yn 2023/24, a hynny am flwyddyn arall. Mae arbenigwyr mannau gwyrdd annibynnol yn rhoi o’u hamser yn wirfoddol i farnu safleoedd ymgeiswyr yn erbyn wyth maen prawf llym, gan gynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheoli amgylcheddol a chynnwys y gymuned.

Cafodd Llyn Cychod Cwmbrân, Parc Pont-y-pŵl a Llynnoedd y Garn eu cydnabod hefyd gan Cadwch Gymru'n Daclus am eu cyfleusterau ardderchog i ymwelwyr, eu safonau uchel o ran yr amgylchedd a’u hymrwymiad i greu mannau gwyrdd o ansawdd uchel.



Dyfarnwyd statws y Faner Werdd hefyd i bum safle cymunedol yn y fwrdeistref, Coetir Cymunedol Blaen Bran, Parc Pwll Pysgod Panteg, Gardd Gymunedol Clwb Rygbi Ger yr Efail, Gwarchodfa Natur Leol Henllys a Gardd Furiog Llanfrechfa Grange.

Mae gwobrau'r Faner Werdd yn gynllun ledled y DU sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo parciau a mannau gwyrdd a reolir yn dda. Fe'i cyflwynir yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Ni fu mynediad am ddim i fannau gwyrdd diogel o ansawdd uchel erioed yn bwysicach. Mae ein safleoedd arobryn yn chwarae rhan hanfodol o ran lles meddyliol a chorfforol. Maent yn cynnig hafan i gymunedau ddod ynghyd, ymlacio a mwynhau natur ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n gwirfoddolwyr diwyd am eu hymdrechion anhunanol i gynnal ein parciau i’r fath safonau uchel.

Drwy gydol 2023, fe wnaethom hefyd ddatblygu cynlluniau ar gyfer hen safle pwll glo yn Abersychan i ddod yn wythfed Warchodfa Natur Leol yn Nhorfaen. Caeodd Glofa Blaenserchan ym 1985 ac ers hynny, mae gweddillion tomenni gwastraff glo wedi cael eu trawsnewid yn ardaloedd o laswelltir a rhostiroedd.

Cofnodwyd sawl rhywogaeth o blanhigion nodedig ar y safle, yn cynnwys y tegeirian gwenynog, tegeirian pigfain, tegeirian y waun, corwlyddyn clymog, y feillionen arw, yr edafeddog lleiaf a’r lloer-redyn.

Mae cynlluniau ar waith erbyn hyn i ddynodi'r ardal hon yn Warchodfa Natur Leol, a fydd yn golygu ei fod yn fan gwyrdd gwarchodedig. Mae'n cynnig cyfleoedd o ran addysg leol, ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddoli.



Ar hyn o bryd mae saith Gwarchodfa Natur Leol yn Nhorfaen sef Llynnoedd y Garn, Coridor Cwmafon (y llwybr beicio sy'n cysylltu Garndiffaith a Blaenafon), Tirpentwys, Chwarel Cwm-ynys-cou, Pyllau Springvale, Henllys a Llwyncelyn.

### Annog bioamrywiaeth ….



Ym mis Mawrth 2024, cafodd ynys arnofio ei hadfer ar Lyn Cychod Cwmbrân i ddenu adar sy'n nythu.

Gan weithio mewn partneriaeth, aeth ein Tîm yr Amgylchedd ynghyd a gwirfoddolwyr Clwb Pysgota Crow Valley ati i lusgo'r ynys, a oedd wedi torri'n ddarnau, i ymyl y llithrfa, er mwyn ei thrwsio ac ail-blannu planhigion brodorol arni, yn cynnwys yr hesgen hopysaidd, perwellt, yr ellesgen felen, helyglys a mintys y dŵr, mewn pryd ar gyfer y tymor nythu.

Mae'r prosiect hwn yn un o'r ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda'n cymunedau lleol i gefnogi bywyd gwyllt lleol a chynyddu bioamrywiaeth, sy'n helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Er 2020, mae'r cyngor wedi lleihau ei raglen torri gwair yn y gwanwyn a'r haf mewn bron i 200 o ardaloedd er mwyn caniatáu i laswellt a blodau ail-hadu a chreu cynefinoedd ar gyfer pryfed, adar a mamaliaid bach.

### Annog cynaliadwyedd….

Mewn ymgais bellach i fynd i'r afael â'n hargyfwng hinsawdd a natur a chyfoethogi'r dirwedd yn Nhorfaen rydym wedi rhoi cyfle i'n preswylwyr weithio gyda ni i nodi lleoliad cannoedd o goed newydd i'w plannu, fel rhan o bartneriaeth gyffrous newydd o'r enw prosiect "Bwrw Gwreiddiau," gyda chefnogaeth ein sefydliad a Thai Cymunedol Bron Afon.

Nod y fenter hon yw gwella mannau gwyrdd a bioamrywiaeth trwy blannu amrywiaeth amrywiol o goed llydanddail a choed perllan brodorol mewn safleoedd addas yn y fwrdeistref. Nodwyd 30 o safleoedd o amgylch y fwrdeistref a chynhaliwyd asesiad i benderfynu ar y nifer a'r rhywogaethau gorau posibl o goed sy'n addas. Mae'r prosiect yn parhau i fynd rhagddo.

Drwy gydweithio, mae'r prosiect yn gobeithio bod y fenter plannu coed yn cyseinio â dyheadau'r gymuned, a diogelu'r coed hyn er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein dull o reoli glaswelltir yn gynaliadwy hefyd wedi caniatáu i rywogaethau symud mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae tua 120 o ardaloedd glaswelltir yn rhan o'n rhaglen rheoli cynaliadwy, lle mae torri gwair wedi'i leihau yn ystod 2023 er mwyn caniatáu i blanhigion barhau i flodeuo yn y gwanwyn a'r haf.



Mae hyn wedi sicrhau bod gan bryfed a phryfed sy'n peillio gynefin, a chaniatáu i blanhigion ddatblygu gwreiddiau hirach sy'n golygu y gallant storio mwy o garbon yn y pridd. Mae hyn yn cyfrannu'n allweddol at fynd i'r afael â chynhesu byd-eang. O ganlyniad, ail ddarganfuwyd y copyn cacwn mewn dwy ardal yn Nhorfaen, lle caniatawyd i laswelltir flodeuo yn yr haf.

Mae'r rhywogaethau hyn, sydd yn fwy cyffredin yn ne Lloegr, wedi cael eu gweld ar ymyl ym Mhontnewynydd ac yng Ngwarchodfa Natur Leol Henllys – sef y pellaf i'r gogledd iddynt gael eu gweld erioed.

Mae'r newidiadau i arferion torri gwair ar draws y fwrdeistref sirol wedi dangos, hyd yn oed mewn mannau bach, ein bod yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywyd gwyllt a lles. Wrth weld cynnydd

mewn blodau gwyllt, pryfed a rhywogaethau eraill yn ein bwrdeistref rydym yn bwriadu ehangu ein rhaglen “Mai Di Dor” bob blwyddyn, i wneud y mwyaf o'r buddion a welwyd eisoes a helpu i addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae ein Tîm Glanhau Ysgolion hefyd wedi ennill gwobr genedlaethol, mewn seremoni ym mis Medi 2023.

Cydnabuwyd y tîm am eu hymroddiad eithriadol i greu effaith gadarnhaol o fewn eu sefydliad a'r gymuned leol – yn enwedig eu hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol.

Wedi'i ysbrydoli gan y gynhadledd newid hinsawdd ryngwladol yn Glasgow yn 2021, penderfynodd y tîm edrych ar gynhyrchion glanhau ecogyfeillgar.

Buont yn ymweld ag entrepreneuriaid amgylcheddol lleol ac yn cydweithio â chyflenwyr i ddod o hyd i ddewisiadau eraill sy’n gynaliadwy ac yn fwy ecogyfeillgar. Mae'r cynhyrchion hyn wedi'u treialu'n llwyddiannus yn ein hysgolion cynradd lleol, gyda'r bwriad o'u cyflwyno ymhellach ar draws ysgolion.

### Lleihau ein hallyriadau carbon….

Ym mis Gorffennaf 2023, gwnaethom benodi dau swyddog newydd i roi cymorth a chyngor i'n preswylwyr, ein cymunedau a'n busnesau, er mwyn ein helpu i gyrraedd targed sero net LlC yn 2050. Derbyniwyd cyllid ar gyfer y swyddi hyn gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, am y ddwy flynedd nesaf.




Rydym yn gwneud cynnydd da o ran lleihau a gwrthbwyso ein hallyriadau carbon trwy gyflwyno cerbydau trydan newydd, gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy a sicrhau bod adeiladau, yn cynnwys ysgolion, yn defnyddio ynni’n fwy effeithlon. Ond deallwn na allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i gyflawni sero net erbyn 2050, ym mis Chwefror 2024 fe wnaethom apelio i’n holl staff i *Ddiffodd ac Arbed* i helpu i wneud Torfaen yn lle glanach, gwyrddach ac arbed arian i'r cyngor ar yr un pryd!.

Gofynnom i bawb yn ein sefydliad drin ynni'r cyngor fel eu hynni eu hunain a *Diffodd ac Arbed* pan nad ydynt yn defnyddio offer neu oleuadau.

Roedd lleihau costau ynni ar draws ein sefydliad hefyd yn un o'n prosiectau Apollo a nodwyd i wneud arbedion mewnol a lleihau'r bwlch ariannol yng nghyllideb 2024/25. Mae'r arbedion ynni hefyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'n hargyfwng hinsawdd yr ydym wedi ei ddatgan.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae ein Tîm Rheoli Ynni wedi bod yn brysur yn helpu rheolwyr safleoedd mewn ysgolion a rheolwyr cyfleusterau yn adeiladau'r cyngor i leihau ein hôl troed carbon a lleihau biliau. Y targed ar draws yr ystâd yw gostwng trydan 10% a gostwng nwy 15%.

Mae ein Tîm Ynni bob amser wrth law i helpu i leihau ein biliau cyfleustodau. Mae hyn wedi amrywio o sicrhau bod adeiladau presennol yn fwy effeithlon trwy roi ychwanegion yn y system i wneud rheiddiaduron yn fwy effeithiol neu roi cyngor ar wahanol dechnegau arbed carbon. Hyd yn hyn eleni, rydym wedi:

- arbed dros £240,000 ar y cyd ar drydan a nwy.
- gwario £49,000 yn llai ar ynni ym mis Tachwedd 2023, o gymharu â mis Tachwedd 2022. Mae biliau trydan hefyd wedi bod cymaint â £17,000 yn is ym mis Medi a Thachwedd 2023 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw wedi gwario £29,000 yn llai y flwyddyn ariannol hon o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

### Lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr….

Mae tua thraean o'r holl fwyd sy’n cael ei gynhyrchu i'w fwyta yn cyfrannu at tua 8% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd.

Mae ein tîm Arlwyo mewn Ysgolion yn anelu at leihau o leiaf rhai o'r allyriadau hyn drwy drawsnewid y ffordd yr eir ati i gynllunio, i gyrchu a pharatoi ciniawau ysgol. Gwnaed hyn drwy ddatblygu Map Ffordd Cynaliadwyedd rhyngweithiol newydd sy'n nodi eu cynlluniau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Bydd y cynnydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd fel y gall ysgolion a disgyblion ei olrhain.

Un fenter a gyflwynwyd oedd ein cystadleuaeth Gwroniaid Gwastraff i ysgolion cynradd annog disgyblion i fonitro a lleihau gwastraff bwyd amser cinio.

Cafodd y gwaith hwn a wnaed gan ein tîm i ddatblygu'r map, ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr genedlaethol gan LACA, y corff proffesiynol blaenllaw sy'n cynrychioli'r sector bwyd ysgol.

Mae'r enwebiad ar gyfer unigolion neu dimau sy'n sefyll allan trwy gyflawni rhywbeth gwahanol, gan ddangos syniadau, cydweithredu a phartneriaethau arloesol sydd nid yn unig wedi cyflawni amcanion busnes ond sydd hefyd yn sicrhau bod y gwasanaeth arlwyo mewn ysgolion yn cael ei weld.

### Mynd i'r afael â newid hinsawdd….

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae paneli solar wedi'u gosod ar 14 o'n hysgolion ledled y fwrdeistref, gan arbed cannoedd o filoedd o bunnoedd ar gostau trydan.

Mae'r paneli solar wedi'u gosod ar Ysgol Gynradd Coed Efa; Ysgol Uwchradd Cwmbrân; Ysgol Gynradd Garnteg; Ysgol Gynradd George Street; Ysgol Gynradd Greenmeadow; Ysgol Gynradd New Inn; Ysgol Gynradd Nant Celyn; Ysgol Gynradd Padre Pio; Ysgol Gynradd Pen-y-garn; Ysgol Gynradd Pontnewydd; Ysgol Gorllewin Mynwy, Ysgol Gynradd Woodlands, Ysgol Abersychan ac Ysgol Gyfun Gwynllyw.

Mae ein hysgolion eisoes yn gweld gostyngiad yn eu biliau ynni diolch i'r systemau a osodwyd. Rhagwelir y byddant yn arbed £150,000 - £200,000 ar gostau trydan yn flynyddol, 500,000 kWh o ynni ac osgoi rhyddhau 117 tunnell o garbon deuocsid sy'n cyfrannu'n helaeth at gynhesu byd-eang.

Mae lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn uchel ar agenda ein sefydliad, ac yn ystod y blynyddoedd nesaf rydym yn gobeithio cyflwyno'r gwaith hwn i 19 o ysgolion eraill, y gallai paneli solar fod yn addas ar eu cyfer.

Ym mis Chwefror 2024, cymeradwyodd ein Haelodau Cabinet ein Strategaeth ar gyfer Rheoli'r Perygl o Lifogydd a chytunwyd y dylid ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo. Fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, bydd y strategaeth hon yn nodi ein cyfeiriad strategol o ran sut y byddwn yn rheoli'r perygl o lifogydd ledled Torfaen, yn ystod y chwe blynedd nesaf.

Yn ystod y 40 mlynedd diwethaf, mae sawl achos o lifogydd wedi bod yn Nhorfaen. Digwyddodd y llifogydd mawr diwethaf ym mis Mai 2014, yn ardal Cwmbrân yn dilyn glaw eithafol yn lleol. Cafodd y digwyddiad hwn ei asesu fel un sy'n digwydd mewn mwy na 1000 o flynyddoedd. Achosodd effaith y digwyddiad lifogydd mewnol i 198 eiddo, yn ogystal â dwy archfarchnad.

Mae ein strategaeth yn ystyried pa mor agored i lifogydd yw pob rhan o Dorfaen a sut y bydd y newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu ymhellach ar hyn. Mae'r strategaeth yn cynnwys Cynllun sy'n manylu ar gyfeiriad y strategaeth yn ogystal â nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd ac yn gweithio tuag atynt.

## Ein Prif Heriau…

### Addysg:

**Parhau i leihau gwastraff bwyd yng ngheginau ein hysgolion.**

### Gwastraff ac Ailgylchu:

**Ein nod o hyd yw cyflawni cyfradd ailgylchu o 70%. Os na fyddwn yn cyrraedd 70% erbyn 2025, rydym yn wynebu dirwyon o £100,000 am bob 1% yr ydym yn ei fethu a gallai hynny**

**gael effaith ariannol ar holl wasanaethau'r cyngor. Os na allwn godi'r gyfradd drwy newid ymddygiadau, ni fydd gennym lawer o ddewis ond ailystyried newidiadau i'r system.**

## AMCAN LLESIANT 6:

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd***

### Annog busnesau newydd….

Ar ddechrau 2023, lansiwyd gwasanaeth newydd i gefnogi busnesau newydd a darpar fusnesau a oedd yn bwriadu sefydlu eu busnes yng nghanol trefi Blaenafon neu Bont-y-pŵl.

Mae newidiadau i arferion siopa wedi effeithio ar ganol trefi Blaenafon a Phont-y-pŵl yn y blynyddoedd diweddar. Rydym yn gobeithio y bydd cefnogi busnesau i ddychwelyd i'r stryd fawr yn helpu i leihau nifer yr eiddo gwag a denu cwsmeriaid yn ôl.

Mae Tîm Prosiect Economi Sylfaenol y cyngor yn canolbwyntio ar helpu busnesau sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl yn ddyddiol, fel manwerthu, siopau bwyd a thriniaethau iechyd a harddwch. Eu nod yw gweithio gyda thua 40 o entrepreneuriaid a phump o fusnesau newydd ym Mlaenafon a Phont-y-pŵl yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae ganddynt gynlluniau i ehangu i Gwmbrân, yn ddiweddarach.

Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys:

- Mentora 1-2-1 i ddatblygu syniadau busnes
- Cyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau.
- Cyllid grant




Mae ein gwasanaeth newydd yn adeiladu ar Economi Sylfaenol a dreialwyd gennym yn 2020 a Phrosiect Cymorth Busnesau Bach Pont-y-pŵl a Blaenafon y llynedd, a roddodd gyngor ariannol ac ymarferol.

Ym mis Chwefror 2024, dechreuodd rhaglen newydd hefyd i unrhyw un sy'n ystyried sefydlu eu busnes eu hunain. Mae'r Clwb Dechrau Busnes a ariennir yn llawn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar entrepreneuriaid i sefydlu a rhedeg eu busnesau eu hunain, yn cynnwys gweithdai a chefnogaeth wythnosol dan arweiniad arbenigwyr.

Cynhaliwyd y rhaglen chwe wythnos yn yr Hwb, ym Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl a hynny dan ofal arbenigwyr busnesau bach - Town Square Spaces Ltd (TownSq) ar ran ein Cyngor.

(Wedi'i hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, roedd y rhaglen yn cwmpasu ystod o bynciau craidd gwahanol bob wythnos gan gynnwys gwerthu a marchnata, cynllunio busnes, materion gweinyddol, cyfreithiol ac AD, cyllid, rhwydweithio a chyflwyno syniadau).

Rydym yn gobeithio mai'r Clwb Dechrau Busnes hwn yw'r math o raglen a all gael effaith enfawr ar bobl leol sy'n ystyried y posibilrwydd o redeg eu busnesau eu hunain. Gall dechrau busnes fod yn gam mawr, ond mae'r tîm profiadol yn TownSq wedi gallu tywys pobl drwy'r broses, un cam bach ar y tro, gan gynnig popeth sydd angen iddynt ei wybod.

Bydd y fenter hon hefyd yn helpu i ehangu cymuned fusnes gefnogol ym Mhont-y-pŵl a fydd yn galluogi busnesau newydd i oroesi a ffynnu.

### Annog menywod mewn busnes….

Rydym yn cydnabod nad oes llawer o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ddod â menywod busnes at ei

gilydd i ddatblygu cysylltiadau a chwrdd â phobl na fyddent fel arfer yn dod i gysylltiad â nhw. Felly, ym mis Tachwedd 2023, cynhaliwyd digwyddiad gyda'r nod o ddathlu menywod sy'n entrepreneuriaid ac yn arwain mewn byd busnes, gan roi cyfle gwych iddynt rwydweithio.

Fe wnaethon ni ariannu'r digwyddiad hwn drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU sydd wedi wynebu bwlch o bedair blynedd ers cynnal digwyddiad diwethaf Menywod mewn Busnes yn Nhorfaen, oherwydd Covid.

Bu awydd gwirioneddol ymhlith menywod busnes i weld y digwyddiad hwn yn dychwelyd. Dangosodd y menywod a ddaeth i'r digwyddiad, frwdfrydedd ac egni anhygoel i'w busnesau, yn ogystal â busnesau pobl eraill.

### Annog ein hentrepreneuriaid ifanc….

Ym mis Rhagfyr 2023, trefnodd ein Tîm Ymgysylltu â Busnes ddigwyddiad a ddaeth â grŵp o entrepreneuriaid ynghyd i gymryd rhan mewn menter newydd, sy'n ymroddedig i gefnogi pobl fusnes ifainc, yn Nhorfaen.

Fe wnaeth ein hentrepreneuriaid ifainc oedd rhwng 18 a 30 oed, gymryd rhan mewn rhaglen wyth wythnos gan fynd i'r afael â phynciau fel gwerthu a marchnata, cyllid a chyflwyno/cyfleu syniadau.

Yn rhan o'r digwyddiad hwn, cafodd ein hentrepreneuriaid gyfle i ddangos eu syniadau i gynrychiolwyr busnes, yn ystod digwyddiad arbennig a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Parkway yng Nghwmbrân.

Y bobl ifanc hyn fydd perchnogion busnesau a chyflogwyr y dyfodol, ac fel Cyngor rydym yn edrych ymlaen at eu cefnogi wrth i'w busnesau ennill eu plwyf.

Ym mis Mawrth 2024, agorwyd caffi newydd yn swyddogol ar lawr 4 y Ganolfan Ddinesig.
Gwireddwyd Caffi Ysbrydoli diolch i gyllid gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, (sydd hefyd yn rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin), lle mae ardal cegin y staff wedi ei drawsnewid yn gaffi a ffreutur bywiog.

Mae'r prosiect hwn wedi galluogi ein Tîm Ysbrydoli, sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 20 oed, sydd mewn perygl o ddod yn NEET (Nid mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant), i greu gofod sy'n ateb sawl diben.



Yn bennaf, mae'r caffi'n darparu gwasanaeth bwyd a diod i swyddogion, aelodau ac ymwelwyr, gan gynnig lle iddynt ymlacio, ail-lenwi a chreu cysylltiadau.

Mae hefyd yn gyfle i hyfforddi pobl ifanc sydd wedi'u targedu, sef rhai yn yr ysgol uwchradd a'r rhai sydd heb waith. Bydd y bobl ifanc hyn yn cael cyfle i ennill profiad gwaith gwerthfawr a chael mynediad at gymwysterau mewn amrywiaeth o feysydd, yn cynnwys Diogelwch Bwyd, Hyfforddiant Barista, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cymorth Cyntaf a rheoli arian.

Er mwyn cefnogi ein busnesau lleol a darparu bwyd ffres o safon, bydd ein Tîm Ysbrydoli yn ceisio dod o hyd i'w holl gyflenwadau bwyd yn lleol, gan gefnogi economi sylfaenol Torfaen ymhellach.

Bydd ffrwythau a llysiau hefyd yn dod o brosiectau rhandiroedd llwyddiannus Ysbrydoli, a bydd unrhyw gynnyrch sydd dros ben yn cael ei roi i fanciau bwyd lleol.

### Gweithio gyda phartneriaid….

Gyda chefnogaeth Cyllid Ffyniant Gyffredin, mae ein Fforwm Economaidd Strategol Torfaen (FfEST) wedi gweithio gyda'r 60 busnes gorau (yn seiliedig ar elw, trosiant a rhifau cyflogaeth) yn ystod y 12 mis diwethaf i ddarganfod y materion strategol cyffredin a allai effeithio ar eu cynlluniau busnes a buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r mater strategol cyffredin sydd wedi dod i'r amlwg yn ymwneud â sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith, yn cynnwys hyfforddi a recriwtio prentisiaid. Er mwyn archwilio'r materion ymhellach a dod o hyd i atebion posibl, mae FfEST yn trefnu Expo Sgiliau / Fforwm pwrpasol, y bydd rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid

diwydiant/hyfforddiant yn ei fynychu yn ddiweddarach yn 2024. Bydd y gwaith hwn o bwysigrwydd allweddol wrth lywio' gwaith o gynllunio rhaglenni cymorth busnes yn y dyfodol.

Ym mis Rhagfyr 2023, crëwyd model busnes newydd a'i rhoi ar waith gyda Llais Busnes Torfaen (LIBT), clwb busnes ffyniannus Torfaen sydd wedi bodoli ers dros 22 o flynyddoedd. Bydd y model newydd yn grymuso'r pwyllgor annibynnol i wneud cyfraniad cynaliadwy i economi Torfaen. Hyd yma, mae gan y clwb 59 o aelodau (aelodau blynyddol a chysylltiol), ac eleni mae wedi cynnal 4 digwyddiad sef rhwydweithio a gwahodd siaradwyr ysbrydoledig, gan ddenu dros 200 o bobl.

### Annog Arloesi a Thwf….

Ers mis Rhagfyr 2023, mae ein Tîm Datblygu Economaidd Strategol wedi darparu 17 o Grantiau Technoleg gwerth cyfanswm o £44,833, gyda'r nod o gefnogi buddsoddiad mewn technolegau 'cwmnïau newydd'. Mae'r Grantiau Technoleg wedi cynhyrchu dros £180,000 o gyd-fuddsoddiad mewn busnesau lleol. Crëwyd saith swydd newydd hyd yn hyn, tair rhaglen ymchwil a datblygu newydd, ac mae pedwar o fusnesau sy'n derbyn cymorth yn Nhorfaen wedi creu systemau newydd/ gwell.

Mae ein Tîm Gwydnwch Bwyd hefyd wedi bod yn brysur drwy gydol y flwyddyn yn datblygu a gweithredu cynlluniau i greu cadwyn gyflenwi bwyd lleol a chadarn, a all gefnogi'r galw am gynnyrch lleol iach. Un o brif amcanion y Rhaglen Gwydnwch Bwyd yw creu a helpu cynhyrchwyr bwyd lleol, sef pobl sy'n tyfu a gweithgynhyrchu i arallgyfeirio, i fodloni'r galw hwn yn lleol. Gwelwyd cynnydd sylweddol iawn ers mis Rhagfyr 2023 pan ddyfarnwyd tri ar ddeg o grantiau gwerth cyfanswm o £238,991. Crëwyd un ar ddeg o swyddi, tair rhaglen ymchwil a datblygu ac mae deuddeg busnes wedi rhoi rhaglenni uwchsgilio ar waith ar gyfer eu staff.

### Creu Amgylchedd Arloesol….

Ers mis Ionawr 2024, mae Springboard, ein Canolfan Arloesi Busnes, wedi dechrau cyflwyno ei chynllun busnes newydd, a gafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023. Ein nod yw rhoi bywyd newydd i'r Ganolfan drwy ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau newydd a gweithio'n agos gydag Oxford Innovation, arbenigwr deori busnes. Cafodd y ganolfan ei hadfywio a'i moderneiddio i greu 'hwb arloesi' blaenllaw yn y fwrdeistref, er mwyn cefnogi rhwydwaith ehangach o fannau arloesi ar draws y Brifddinas-Ranbarth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ochr yn ochr â phartneriaid yn y sector preifat mewn mannau eraill yn y Fwrdeistref Sirol i greu gofod i alluogi busnesau sy'n graddio o Springboard i 'barhau i dyfu'. Rydym hefyd wrthi'n creu rhaglen cyn-fyfyrwyr i sicrhau bod cefnogaeth barhaus yn cael ei rhoi i'r graddedigion hyn.

Fe wnaeth y newidiadau mewn arferion gwaith a ddeilliodd o bandemig Covid effeithio'n niweidiol iawn ar Springboard, ein Canolfan Arloesi Busnes. 62% yn unig o'r lle y gellir ei osod sydd wedi ei feddiannu ar hyn o bryd. Mae hyn yn is na'r disgwyl, ond yn well na'r hyn a welwyd ym mis Ionawr 2024 pan oedd y ffigwr hwnnw yn 49%. Mae'r targedau yn ein cynllun busnes yn uwch o lawer na hyn, ond disgwylir cyflawni'r niferodd hyn yn gynyddol yn ystod y tair blynedd nesaf, ar ôl cwblhau'r gwaith moderneiddio.

Ym mis Hydref 2024 bydd 'Spring Ar-lein' yn cael ei lansio, sef rhaglen cefnogi datblygu busnes sy'n anelu i gefnogi entrepreneuriaid sydd yn gweithio o gartref, ac annog rhai ohonynt i ymuno â'r gymuned o fusnesau sy'n tyfu yng Nghanolfan Arloesi Springboard. Bydd rhaglen Spring ar-lein yn galluogi entrepreneuriaid i ddod o hyd i fentoriaid y gellir uniaethu â nhw, fydd yn cyd-fynd â'u hamcanion busnes/twf. Mae ymchwil yn dangos nad yw unrhyw Gyngor arall yng Nghymru yn cynnig gwasanaethau arloesi yn yr un ffordd.

Mae ein gwaith partneriaeth gyda Fforwm Economaidd Strategol Torfaen wedi nodi y gallai busnesau o bosibl ei chael hi'n anodd ymgysylltu â ni, oherwydd eu maint a'r amrywiaeth eang o wasanaethau yr ydym yn eu darparu. Mae cysondeb o ran safon y ddarpariaeth hefyd yn broblem, yn enwedig os yw'r ymholiad yn galw am fwy nag un tîm i roi ateb cyflawn. Crëwyd ein Gwasanaeth Cyswllt Busnes Torfaen yn 2022 i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac ers mis Ionawr 2024 maent wedi delio ag 850 o ymholiadau i fynd i'r afael a gwahanol fathau o ymholiadau. Hyd yn hyn, yn gyffredinol mae hwn wedi bod yn wasanaeth 'ymatebol', ond yn ystod 2024 mae gwaith wedi'i ddatblygu i ddarparu gwasanaeth mwy rhagweithiol trwy 'Fframwaith Ymholiadau'n Ymwneud â Busnes'. Disgwylir i'r fframwaith hwn gael ei gyflawni'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

## **Ein Prif Heriau…**

**Economi:**

**Ar hyn o bryd mae cyfradd chwyddiant y DU yn 2.2%. Cyfradd sylfaenol y Banc yw 5% ac, oherwydd yr amrywiol ddigwyddiadau annisgwyl, mae'r economi byd-eang wedi bod yn annarogan drwy gydol 2023-2024. Bydd perfformiad y DU yn ystod y 12 mis nesaf i raddau yn dylanwadu ar berfformiad economaidd Torfaen a'r rhanbarth ehangach yn y dyfodol. Mae'n anochel y bydd cyfnod pellach o gyfnewidioldeb yn cyflwyno heriau parhaus o ran gallu busnesau i dyfu / ehangu er mae yna gynnydd i'w weld drwy'r mesurau a nodwyd isod i gynnig elfen o gefnogaeth a gwydnwch i'n heconomi lleol.**

**Yn ystod dadansoddiad diweddar o Fynegai Cystadleurwydd y DU (UKCI) gwelwyd bod safle pob Awdurdod Lleol yn ardal Cymoedd y Gogledd wedi gwella ac eithrio Torfaen a syrthiodd o'r 336ain safle i 346fed rhwng 2019 a 2023. Y meysydd gwella allweddol a nodwyd ar gyfer Torfaen, ac felly'r heriau sydd o flaenoriaeth i raglenni datblygu economaidd a sgiliau'r Cyngor yn y dyfodol yw gwella ein lefelau cymharol is o fusnesau newydd sy'n seiliedig ar dechnoleg a darparu lefelau uwch o gyfleoedd datblygu sgiliau ar Lefel 4 NVQ ac uwch.**

**Disgwylir i Raglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, sy'n cynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), ddod i ben ym mis Mawrth 2025. Mae llawer o brosiectau a rhaglenni twf economaidd/cymorth busnes ar draws y Rhanbarth yn cael eu hariannu o'r ffynonellau hyn ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwydd y bydd rhaglen newydd o gyllid Cenedlaethol/Rhanbarthol ar waith erbyn mis Ebrill 2025. Mae hefyd yn ansicr i ba raddau y bydd unrhyw raglen/rhaglenni ariannu newydd yn cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol.**

## AMCAN LLESIANT 7:

***Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol***

### Annog ffyrdd iach o fyw …

Ym mis Mai 2023, cymeradwywyd cynllun i adeiladu cae chwaraeon cymunedol newydd yng ngogledd y fwrdeistref. Bydd y cae, fydd dan lifoleuadau, yn addas ar gyfer pob tywydd, mewn ymdrech i annog mwy o bobl i fod yn actif a helpu i wella'u hiechyd yn Nhorfaen.

Mae'r cynllun yn cynnwys cae chwaraeon cymunedol newydd, ar gyfer pob tywydd, dan lifoleuadau a gwaith i uwchraddio wyneb y cyrtiau tenis a phêl-rwyd yn Ysgol Uwchradd Abersychan.

Bydd y cae newydd yn addas ar gyfer cystadlaethau pêl-droed a rygbi a bydd yn cynnwys lloches, llifoleuadau a gwelliannau i'r cyfleusterau newid.

Mae'r cyngor bellach wedi dyrannu £2.3 miliwn o gyllid Ffyniant Gyffredin (SPF) i'r prosiect hwn a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod gwyliau'r haf – am gyfnod o 26 o wythnosau.



Fel rhan o'n rhaglen i fuddsoddi'n ehangach mewn cyfleusterau chwaraeon yn y fwrdeistref, mae caeau 3G eraill hefyd yn cael eu creu yn ein hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Gwynllyw ac ar gaeau ysgol Llantarnam gynt. Bydd rhaglen waith ar wahân hefyd yn dechrau cyn bo hir, ar ddisodli llawer o gyfleusterau chwaraeon presennol yn ein hysgolion eraill.

Ar ddiwedd mis Medi 2023, fe wnaethom hefyd agor cyfleuster amlswyddogaethol gwerth £30 miliwn yn Ysgol Gyfun Croesyceiliog, fel rhan o'n Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys neuadd chwaraeon newydd a chyfleusterau newid, stiwdio ddawns, ystafelloedd cynadledda a theatr gyda lle i 200 o bobl, y gall grwpiau a chlybiau lleol eu hurio. Mae'r ganolfan les newydd hefyd yn cwblhau datblygiad yr ysgol a bydd yn hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y gorau o'u dysgu a'u profiadau yn yr ysgol.

### Sicrhau bod ein sefydliadau bwyd yn ddiogel….

Rydym yn parhau i arolygu ein busnesau yn Nhorfaen gan roi cymorth a chyngor i sicrhau bod y lefelau uchaf o hylendid yn cael eu cynnal. Mae mwy na hanner ein busnesau bwyd yn Nhorfaen wedi cyflawni'r lefel uchaf o hylendid, yn ôl y Cynllun Sgoriau Hylendid Bwyd.

Mae gan 59% o'n busnesau sgôr hylendid o 5, ac mae gan 95% sgôr o dri neu uwch.

Daw hyn wrth i ni nodi 10 mlynedd ers iddo ddod yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru i arddangos Sgoriau Hylendid Bwyd.

(Arweiniodd Cymru'r ffordd fel y wlad gyntaf yn y DU i fynnu bod sgoriau hylendid bwyd yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg fel drysau ffrynt, mynedfeydd neu ffenestri. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid i ddewis yn ddoeth, ac mae'n annog busnesau bwyd i roi blaenoriaeth i safonau hylendid rhagorol).

### Annog ffitrwydd a lles….

Dangosodd adroddiad a gomisiynwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent bod y disgwyliad oes iach i fenywod a dynion yn Nhorfaen yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Ar ben hynny, mae menywod yn Nhorfaen fel arfer yn mwynhau 55 mlynedd o iechyd da, tra bod dynion yn mwynhau 61 o flynyddoedd ar gyfartaledd.

Yn ystod 2023/24, rydym wedi datblygu prosiectau pellach sy'n adeiladu ar lwyddiant rhaglen #oseidiafi i fenywod. Sefydlwyd y rhaglen yn 2017, a chefnogwyd mwy na 200 o fenywod i gynnal ffordd iach o fyw.

Rydym hefyd yn parhau i ddarparu'r rhaglen gymorth a lansiwyd gennym ym mis Ionawr 2020 i dadau. Ei nod yw cynorthwyo a chefnogi darpar dadau a thadau sydd â phlant hyd at 18 mis oed.

Mae math newydd o ddosbarth ffitrwydd wedi'i anelu at famau a'i merched hefyd wedi'i ehangu o'r gogledd (Canolfan Byw Egnïol Blaenafon) i'r de o'r fwrdeistref (Stadiwm Cwmbrân).



Mae'r dosbarthiadau ymarfer corff am ddim yn cynnwys ystod o dechnegau sy'n cynnwys Spin, Pilates, cylchedau ac ymarfer corff i gerddoriaeth, yn ogystal â chyngor ar faeth a hunanofal. Sefydlwyd y sesiynau hyn i annog mamau i fod yn fodelau rôl cadarnhaol i'w merched drwy wneud ymarfer corff, tra hefyd yn eu cynorthwyo i oresgyn eu pryderon iechyd eu hunain.

Ein Tîm Datblygu Chwaraeon sy'n trefnu'r sesiynau, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac mae'n rhan o fenter ehangach 'Mind the Gap' i wella iechyd a lles menywod a merched yng Ngwent.

Rydym yn falch iawn o weld yr effaith gadarnhaol y mae'r dosbarthiadau hyn yn ei chael ar iechyd a hapusrwydd menywod a merched yn Nhorfaen. Mae hon yn enghraifft wych o'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd yn ein hardal a grymuso ein preswylwyr i fod yn gyfrifol am eu lles eu hunain. Dyma ffordd sydd nid yn unig yn ddifyr ac effeithiol i gadw'n heini ond hefyd yn gyfle gwych i famau a'i merched atgyfnerthu eu perthynas a chefnogi ei gilydd.

Mae'r dosbarthiadau ar agor i bob mam a merch wyth oed a hŷn yn Nhorfaen ac maent yn cael eu hariannu gan Gyngor Tref Blaenafon a Chyngor Cymuned Cwmbrân.

**Ein Prif Heriau…**

**Addysg:**

**Gorffen cyfleusterau 3G yr ysgolion a chymunedau yn Nhrefddyn, Llantarnam ac Abersychan.**

**Chwaraeon a Hamdden:**

- **Datblygu fframwaith strategol cliriach ar gyfer ein buddsoddiad mewn chwaraeon a hamdden yn Nhorfaen.**
- **Ystyried ein dull o gomisiynu gwasanaethau chwaraeon a hamdden.**

## AMCAN LLESIANT 8:

***Cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef***

### Gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef….

### Adfywio Canol ein Trefi

Yn 2023, roeddem yn ffodus i dderbyn £9.3 miliwn gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i greu prosiect Hwb Diwylliannol Pont-y-pŵl. Nod yr arian hwn gan y Llywodraeth yw creu swyddi a thyfu'r economi leol o fewn ardal benodol.

Mae ein Prosiect Hwb Diwylliannol Pont-y-pŵl yn cynnwys caffi newydd wrth ymyl y parc, yn cynnwys toiledau cyhoeddus; gwella'r cyfleusterau parcio ym Maes Parcio Glantorvaen Road a hwb diwylliannol newydd yn Eglwys St James.

Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar y caffi newydd a Maes Parcio Glantorvaen Road, ym mis Ionawr 2024.

Ar ôl cwblhau'r prosiect, bydd dau doiled cyhoeddus newydd, cwbl hygyrch ar Hanbury Road, a bydd toiledau yn y caffi, i gwsmeriaid. Bydd toiledau newydd hefyd ym Maes Parcio Glantorvaen Road, yn ogystal â mannau parcio newydd i'r anabl a mannau gwefru cerbydau trydan.

Mae mwy na £1m hefyd yn cael ei fuddsoddi i drawsnewid tri adeilad sydd bellach yn segur yng Nghanol Tref Blaenafon, fel a ganlyn:

- Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau i adnewyddu hen dafarn y Market Tavern a lle betio gynt ar Broad Street, a bydd y ddau yn dod yn gartref i eiddo masnachol a fflatiau newydd.



- Mae gwaith wedi dechrau ar hen siop gigydd, drws nesaf i Gapel Bethlehem, a bydd yn dod yn siop cludfwyd. Bydd y tri phrosiect yn cael ei gorffen erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf.

-

Gwireddwyd y prosiectau diolch i £704,000 gan Raglen Treftadaeth Treflun (RhTT) Blaenafon a Grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, yn ogystal â buddsoddiad preifat gwerth £430,000.

Mae'r grantiau s ddyfarnwyd yn ddiweddar ar gyfer y Market Tavern a'r hen siop gigydd yn dilyn buddsoddiad blaenorol gan Raglen Treftadaeth Treflun Blaenafon yn HM Stores a'r Hwb sydd gerllaw. Nodwyd bod prosiectau RhTT yn flaenoriaeth uchel yn y cyflwyniad gwreiddiol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn 2018.

Mae Grant Creu Lleoedd a Thrawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i berchnogion eiddo neu lesddeiliaid wneud cais am gyllid i Gefnogi amrywiaeth o ymyriadau yn cynnwys ailddefnyddio adeiladau segur yng nghanol y dref mewn modd pwrpasol.

Mae disgwyl bod buddsoddiad preifat yn sicr, fel rhagofyniad i sicrhau Grant Creu Lleoedd a Thrawsnewid Trefi. Ar hyn o bryd mae gennym gynllun o brosiectau a fydd yn mynd â ni hyd at fis Mawrth 2025, ar ôl derbyn datganiadau o ddiddordeb a hysbysebwyd ym mis Awst 2022. Byddwn yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb yn y dyfodol pan fydd cyllid ar gael.

Bydd hyn, ynghyd â'r prosiectau eraill, yn gwella canol ein trefi, yn gwella eu hapêl, gyda'r gobaith y byddant yn denu mwy o fusnes a bywiogrwydd i'n trefi.

### Y British




Yn ystod 2023, gwahoddwyd preswylwyr i roi sylwadau ar gynlluniau ar gyfer cynllun draenio newydd ar safle Y British, cyn ei gyflwyno am ganiatâd cynllunio.

Fe wnaethon ni brynu 1,300 erw o safle'r British ar ddiwedd 2016. Yn sefyll yn Nhal-y-waun, y safle yw'r safle mwyaf sy'n weddill o adfeilion diwydiannol yn Ne-ddwyrain Cymru ac erbyn hyn mae'n rhan o brosiect adfywio sylweddol.

Mae Cynllun Draenio Gwaith Haearn Prydain yn rhan o Waith Cam 1. Mae'r cam hwn yn hanfodol i wella diogelwch y safle a dyma'r darn cyntaf yn jig-so Uwchgynllun Y British, fydd yn ein helpu i sicrhau bod yr ardal yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef.

Mae'r cynigion ar gyfer Cynllun Draenio Gwaith Haearn Y British yn dilyn arolygon a gwaith ymchwiliol helaeth ar y safle a gynhaliwyd yn ystod 2022 a 2023, ac mae'n cynnwys cynlluniau ar gyfer:

* Ailgyfeirio ffrwd Blaengafog a chwrs dŵr Castle Wood i'r de o Farm Road a chreu cronfa ddŵr a phwll i storio dŵr. Bydd hyn yn galluogi mwy o reolaeth o ran rhyddhau dŵr o'r wyneb o'r safle i'r rhwydwaith cwlfert presennol.
* Ailbroffilio'r tir a'r tirlunio sy'n gysylltiedig â hyn.

### Fferm Greenmeadow

Ym mis Medi 2023, cytunodd ein cynghorwyr i fuddsoddi £1.64 miliwn ychwanegol i ailddatblygu Fferm Gymunedol Greenmeadow.

Bu'r fferm yn fferm weithredol am dros 250 o flynyddoedd cyn iddi gael ei throi'n fferm gymunedol yn yr 1980au.



Disgwylir i'r buddsoddiad ychwanegol droi'r Fferm yn atyniad ymwelwyr blaenllaw yn y rhanbarth, gan ddenu mwy o ymwelwyr i gynnal elw parhau.

Bydd y buddsoddiad yn galluogi:

- Ailwampio'r ysgubor er mwyn creu lle sy'n addas i ddigwyddiadau cymunedol yn cynnwys partïon a phriodasau
- ysgubor chwarae newydd, dan do, ar gyfer pob tywydd, i gynnwys offer chwarae caled a man chwarae antur newydd, ac ysgubor anifeiliaid newydd sbon,
- caffis newydd ac estynedig gyda mannau chwarae meddwl
- gwelliannau i'r siop i hyrwyddo cynnyrch a chyflenwyr lleol
- tirlunio deniadol i gynnwys llwybrau coetir, llwybrau pryfed peillio yn ogystal â llwybrau synhwyraidd
- llaethdy a man addysg newydd
- gwelliannau i fynedfa'r fferm a hygyrchedd y safle.

Bydd y fferm yn parhau ar gau tra bydd gwaith yn mynd rhagddo, ac yn ailagor erbyn Ebrill 2025 fan bellaf.

### Cynnal a diogelu ein camlesi….

Ym mis Tachwedd 2022, cymerodd 1,200 o bobl ran mewn arolwg am gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Dywedodd 93% eu bod yn ei gwerthfawrogi am ei bywyd gwyllt a'i chysylltiad â natur; dywedodd 72% fod hanes y gamlas yn bwysig a dywedodd 65% eu bod yn teimlo bod y gamlas yn rhan o gymeriad Torfaen.

Ym mis Tachwedd 2023, cymeradwyodd ein Cynghorwyr gynllun 10-mlynedd newydd i ddiogelu a gwella Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn Nhorfaen.



Mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn cael ei hystyried yn un o'r dyfrffyrdd mwyaf prydferth yn y DU. Mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan breswylwyr lleol sy'n ei defnyddio ar gyfer ymarfer corff, hamdden a theithio ac mae hefyd yn denu miloedd o ymwelwyr i'r fwrdeistref bob blwyddyn.

Mae'r strategaeth, a gafodd ei datblygu mewn partneriaeth â grwpiau camlesi ac mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, yn canolbwyntio ar bum maes allweddol. Dyma nhw: cynnal, cadw a rheoli cynaliadwy; hamdden a theithio; cymuned a phartneriaeth; treftadaeth ac adferiad gwydn a llywio i Ganol Tref Cwmbrân erbyn 2034.

Mae'r strategaeth newydd wedi'i nodi mewn tri cham. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar sefydlu ffynhonnell ddŵr gynaliadwy i alluogi ymestyn y rhan fordwyol.

Mae gan bob cam ei gynllun gweithredu ei hun, yn cynnwys sefydlu rhaglen ar gyfer gwirfoddolwyr, i gefnogi ein grwpiau camlas presennol, cofrestr asedau treftadaeth i flaenoriaethu gwaith adfer a rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau cymunedol o fewn y flwyddyn gyntaf.

Bydd y strategaeth hon yn helpu i gyflawni nodau'r cyngor i gysylltu cymunedau, diogelu'r amgylchedd a threftadaeth leol, cefnogi busnesau lleol a diogelu a datblygu potensial y gamlas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Lluniwyd Cynllun Rheoli'r Gamlas hefyd, i ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei wneud i gynnal y gamlas yn y tymor byr.

**Ein Prif Heriau…**

**Adfywio Canol y Dref:**

**Datblygu prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro a'u cyflenwi gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r manteision a ddymunir i Bont-y-pŵl.**

**Y British:**

**Datblygu cynllun hyfyw i'r cam cynllunio.**

**Y Gamlas:**

- **Llunio uwchgynllun ar gyfer basn 5 loc ochr yn ochr â gweithredu'r rhaglenni gwirfoddolwyr ehangach.**
- **Dod o hyd i arian grant addas i alluogi datblygu dyluniadau ar gyfer croesfan Five Locks Road.**

## AMCAN LELSIANT 9:

**Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau**

**Trawsnewid Digidol….**

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus tuag at drawsnewid digidol, ar ddiwedd 2022 a dechrau 2023, fe ddechreuom ni gyflwyno Microsoft SharePoint.

Fel sefydliad, rydym eisoes wedi rhoi Office 365 ar waith, felly Microsoft SharePoint yw'r cam nesaf yn ein taith i gyflwyno ffordd newydd i ni greu, storio a chael mynediad at ffeiliau gwaith o ddydd i ddydd.

Mae SharePoint yn system cwmwl sy'n cymryd lle ein gyriannau rhwydwaith ar hyn o bryd, felly'n symleiddio ein prosesau rheoli ffeiliau a gwella'r ffyrdd o gydweithio ar draws y timau a chyfarwyddiaethau drwy wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn fawr iawn yn ein sefydliad.

Ym mis Mai 2023, cymeradwyodd Aelodau Cabinet y Cyngor ein Strategaeth Ddigidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid a'n Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 sy'n gysylltiedig ag ef. Y strategaeth hon yw'r gyntaf o'i bath i'r Cyngor ac mae'n nodi sut y byddwn yn defnyddio Digidol, Data a Thechnoleg i wella profiad y cwsmer a'n heffeithlonrwydd ni o ran gweithredu. (Nid yw Digidol yn gyntaf yn golygu digidol yn unig. Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn cadw sianeli traddodiadol ac adnoddau'n canolbwyntio ar gefnogi cwsmeriaid mwy agored i niwed neu'r rhai sydd ag achosion mwy cymhleth.)

Rydym wedi sicrhau buddsoddiad ymchwil gwerth £5 miliwn gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd i'n preswylwyr. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, drwy'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), yn sicrhau'r buddsoddiad drwy Gydweithrediadau Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC) yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, gan gydnabod pa mor gyflym mae'r dirwedd ddigidol yn esblygu. Mae cynllun cyflawni blynyddol hefyd wedi'i ddatblygu. Mae'n amlinellu

gweithgareddau allweddol sydd wedi'u cynllunio drwy gydol y flwyddyn, i gyd-fynd â’r uchelgeisiau sydd wedi eu nodi yn y strategaeth hon. Bydd y dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd wrth ymateb i gyfleoedd a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Sirol a blaenoriaethau strategol eraill, fel yr ymateb i’r argyfwng costau byw, y targed sero net a’r heriau ariannol.

## Cyfranogiad y Cyhoedd….

Trwy gydol 2023/24, rydym wedi parhau i annog a gwahodd ein dinasyddion i gymryd rhan gyda ni yng nghyfarfodydd Panel Pobl Torfaen, fel eu bod yn gallu dweud eu dweud am y gwaith y mae'r cygor yn ei wneud neu'n bwriadu ei wneud.




Ym mis Ionawr 2024, penderfynom agor y cyfarfod i unrhyw un a oedd am ddod, yn hytrach na gofyn iddynt gofrestru fel aelod rheolaidd. Roedd yr agenda yn cynnwys cyflwyniadau ar newidiadau i weithdrefnau pleidleisio, dull newydd o weithio gyda chymunedau a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Rydym yn bwriadu parhau i gynnal cyfarfodydd Panel Pobl Torfaen yn agored, fel ffordd o roi cyfle i breswylwyr nad ydynt yn aelodau o grwpiau dinasyddion, ddweud eu dweud ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Byddwn yn cyhoeddi’r agenda ymlaen llaw ac yn rhoi cyfle i breswylwyr gyflwyno cwestiynau ymlaen llaw. Ym mis Medi 2024, rydym yn bwriadu ffrydio'r cyfarfod ar-lein er mwyn galluogi preswylwyr nad ydynt yn gallu dod i’r cyfarfod, wrando ar y drafodaeth, dweud eu barn a holi cwestiynau.

Mae wyth o baneli dinasyddion yn Nhorfaen, gan gynnwys Fforwm Pobl Ifanc Torfaen, tri grŵp dros 50, fforwm mynediad i'r anabl, a'r Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd.

Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom hefyd ail-lansio Fforwm Ieuenctid Torfaen, sef grŵp sy'n galluogi pobl ifanc i siarad â ni, am faterion sy'n effeithio arnyn nhw.

Daeth 17 o bobl ifanc o chwe ysgol uwchradd i Fforwm Ieuenctid Torfaen gyntaf ar ei newydd wedd yn Siambr y Cyngor. Hwn oedd y tro cyntaf i'r fforwm ieuenctid gynnwys cynrychiolwyr o gynghorau pob ysgol uwchradd – Ysgol Abersychan, Ysgol Croesyceiliog, ac Ysgol Uwchradd Cwmbrân, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban, Ysgol Gymraeg Gwynllyw ac Ysgol Gorllewin Mynwy.

Yn ystod y cyfarfod, gwahoddodd ein Prif Weithredwr y Fforwm i ddod yn rhan o "Rebel Torfaen" i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu ein hawdurdod lleol ac i ddod yn rhan o'n proses gwneud penderfyniadau. Y nod yw cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n cael dweud eu dweud yn ein penderfyniadau.

Ym mis Mai, cafodd y Fforwm Ieuenctid gyfle i ‘ysgwyddo’ gwaith y cyngor am y dydd. Gwnaethant gais i ymgymryd â sawl rôl strategol allweddol, fel Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol Plant a Theuluoedd, mewn cyfarfodydd, a gofynnwyd iddynt gyfrannu at benderfyniadau. Gwnaethant sawl argymhelliad a byddant yn dychwelyd i'r cyngor ymhen 6 mis i ddarganfod pa gynnydd a wnaed.



Mae'r fforwm yn cyfarfod unwaith y mis yn ystod y flwyddyn academaidd. Ym mis Hydref 2024, bydd Fforwm Ieuenctid Iau ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd yn cyfarfod am y tro cyntaf. Ym mis Tachwedd bydd Cynghrair Ieuenctid cyntaf Torfaen yn cyfarfod gan ddod â chynrychiolwyr o bob grŵp plant a phobl ifanc ynghyd i drafod themâu a materion cyffredin.

Ym mis Chwefror 2024, dechreuom gynnal gweithdai ymgysylltu â'r cyhoedd i helpu i gynghori timau ar arfer gorau wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori â nhw. Rydym wedi cynnal tri gweithdy hyd yn hyn.

**Ein Prif Heriau…**

**Trawsnewid Digidol:**

**Bydd angen buddsoddi i gyflawni ein strategaeth, naill ai o ran buddsoddi i arbed neu drwy wireddu ac ailddosbarthu'r arbedion a wnaed, trwy ein cynllun cyflawni blynyddol. Felly, bydd angen datblygu achosion busnes unigol, yn ôl yr angen yn unol â'n dull rheoli prosiectau.**

**Bydd cyfleoedd i sicrhau cyllid grant pellach i gefnogi ein huchelgeisiau hefyd yn cael eu harchwilio.**

**Symud ymlaen gyda rhaglen i drawsnewid gwasanaethau trwy ddulliau digidol, a hynny'n gyflym.**

## Ein blaenoriaethau a heriau yn y flwyddyn nesaf

Drwyddi draw yn yr adran hon o'n hadroddiad rydym wedi nodi nifer o heriau yr ydym yn eu hwynebu sy'n gysylltiedig â phob un o'n hamcanion llesiant. Bydd angen goresgyn y rhain er mwyn i ni wireddu ein huchelgeisiau. Er mwyn bwrw ymlaen â'n huchelgeisiau yn y flwyddyn i ddod rydym wedi cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer 2024/25.

Datblygwyd ein cynllun cyflawni ar gyfer 2024/25 gan ystyried yr heriau allweddol newydd, y rhai sy'n bodoli eisoes a'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2023/24.

Mabwysiadwyd ein **Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2024/25** gan y Cyngor a chafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023. Mae'n symud ein huchelgeisiau i gamau gweithredu wrth i ni gamu tuag at gam nesaf tuag at gyflawni ein Cynllun Sirol. Mae'r dull blynyddol hwn o gynllunio sirol yn golygu y bydd ein cynlluniau wrth symud ymlaen yn ailadroddol ac yn ystwyth, gan ystyried unrhyw fentrau, heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi y gellir ymateb iddynt, drwy gydol oes y Cynllun Sirol.

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn defnyddio ein dull monitro wrth gynllunio gwasanaethau i fonitro a dangos ein cynnydd yn rheolaidd, er mwyn dangos llwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd hyn yn ganolog i gyflawni ein dyheadau.

## b. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol

Mae'n bwysig i'r sefydliad, nid yn unig i adolygu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n preswylwyr a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael. Rhaid inni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Bydd rheolaethau, systemau a phrosesau cadarn yn cefnogi pob agwedd ar weithgarwch y Cyngor.


Mae datblygu ein Cynllun Sirol yn bwysig wrth bennu ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau. Heb ddiffinio'r amodau sefydliadol penodol, ni fyddwn byth mor effeithiol ag y gallwn fod wrth gyflawni'r holl ganlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni.

Yn ystod 2021-22, aethom drwy broses o ddatblygu fframwaith - cyfres o 8 nodwedd, yr ydym yn eu defnyddio i ddiffinio'r hyn y mae Cyngor rhagorol yn ei olygu, i'n galluogi i asesu ein perfformiad (***gweler y diagram isod)***. Mae'r fframwaith hwn yn darparu strwythur yr ydym wedi'i ddefnyddio, ochr yn ochr â'n Cynllun Sirol, i ddatblygu ein hunanasesiad blynyddol. Dyma'r ail flwyddyn i ni adrodd ein cynnydd o ran ein Nodweddion sy'n diffinio Cyngor Rhagorol.

Wrth ddatblygu ein fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol, rydym nid yn unig wedi ystyried yr hyn sy'n bwysig o'n safbwynt ni, ond rydym hefyd wedi mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n ystyried yr egwyddor cynaliadwyedd a'r 7 maes penodol o lywodraethu corfforaethol. Bydd y nodweddion hyn, ynghyd â gwerthoedd ein sefydliad, yn ein helpu i greu'r amodau cywir i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon.

Diffinnir pob nodwedd arall gan gyfres o ddatganiadau ategol, sy'n egluro ymhellach yr hyn y mae'r nodweddion yn ei olygu, felly'n ein galluogi i asesu i ba raddau yr ydym yn gweithredu, fel cyngor rhagorol.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi monitro'r gweithgareddau yr ystyriwn yn feysydd i'w gwella neu eu datblygu yn adroddiad hunanasesu y llynedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Gwasanaeth priodol ac mae'r Cyfarwyddiaethau'n mynd ati i'w monitro bob chwarter cyn mynd ymlaen i'w hadrodd i'n Tîm Rheolwyr bob chwe mis. Os teimlwn fod yna feysydd nad ydynt wedi gwella fel y bwriadwyd, byddwn yn parhau i fonitro'n agos yn y flwyddyn i ddod i helpu i gyflawni ein huchelgais o ddod yn Gyngor rhagorol.




Wrth adolygu'r broses a ddilynwyd i baratoi ein hadroddiad hunanasesu blynyddol cyntaf, y teimlad oedd, wrth fyfyrio, ein bod wedi rhoi gormod o bwyslais ar weithgareddau gweithredol sy'n seiliedig ar wasanaethau yn hytrach na'n gweithgareddau strategol corfforaethol. Mae ein datblygiad fel Cyngor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn amlwg yn ddiweddar. Mae'r newidiadau i'r strwythur arweinyddiaeth i gyd-fynd â dull mwy corfforaethol/strategol wedi ein harwain i sicrhau y bydd yr adroddiad eleni yn cymryd agwedd fwy strategol.

Ym mis Mai 2023 aethom ati i gynnal digwyddiad uwch reolwyr. Un o'r pynciau ar yr agenda oedd ceisio barn ar sut roedd staff yn teimlo am ein Nodweddion. A oeddent yn teimlo eu bod yn bwrw gwreiddiau neu a oedd angen mwy o waith?. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol gyda phobl yn cytuno'n gyffredinol ein bod yn gweithio tuag at y set gywir o Nodweddion.

Aethpwyd ati i weithio ar ddiffinio ein nodweddion yn well ac fe wnaeth hyn wedi arwain at gyfres o ddisgrifwyr ar gyfer pob nodwedd. Gellir gweld y disgrifwyr **yma**. Fe wnaeth yr ymarfer hwn ein helpu i

ddiffinio'r hyn y credwn y mae rhagorol yn ei olygu, a'n helpu i werthuso pa feysydd sydd angen canolbwyntio arnynt i'n helpu i gyrraedd pen ein taith.

Yn dilyn adolygiad, rydym wedi defnyddio ein fframwaith i gwblhau hunanasesiad ar gyfer ein sefydliad, gan ddod i gasgliadau a nodi'r camau y mae angen eu cymryd, wrth symud ymlaen. Mae ein cynnydd yn ôl ein hymrwymiadau yn cael ei fonitro bob blwyddyn ac adroddir ein canfyddiadau allweddol yn yr adran ganlynol yn yr adroddiad hwn.

## Ein Trefniadau Llywodraethu

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn rhan annatod o allu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau allweddol wrth iddo ddefnyddio ei adnoddau yn effeithiol ac mewn modd economaidd.

Bob blwyddyn rydym yn cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) i amlinellu'r prosesau llywodraethu a'r trefniadau sy'n gweithredu o fewn y Cyngor. Mae'r DLIB yn cael ei baratoi gan y swyddogion hynny ar draws y Cyngor, y mae'n rhan o'u cylch gwaith i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ac yn cynnal agweddau llywodraethu corfforaethol da.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn goruchwylio'r broses a ddilynir i lunio'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB)**, sydd yn fodd o adolygu cyn i'r Cyngor llawn fynd ati i'w fabwysiadu. Mae'r DLIB yn rhan annatod o broses Hunanasesu'r Cyngor ac mae'n ffynhonnell dystiolaeth allweddol o ran ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y 'Nodweddion Cyngor Rhagorol' sydd gennym.


Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i ymwreiddio'n gadarn yn ein trefniadau llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 5 o aelodau etholedig yr awdurdod lleol a 3 aelod lleyg y mae un ohonynt yn Gadeirydd. Mae cyfuniad o aelodau awdurdodau lleol ac aelodau lleyg yn atgyfnerthu lefel yr her annibynnol o fewn y pwyllgor ymhellach. Yn ogystal â'i rôl yn adolygu ein DLIB, mae gan y pwyllgor rôl oruchwylio a sicrwydd allweddol mewn meysydd fel rheoli risg busnes (gan gynnwys monitro cofrestrau risg unigol y gyfarwyddiaeth), rheolaeth ariannol, Fframwaith Rheoli ein Cyngor a'n proses Gwyno. Rôl hanfodol arall sydd gan y pwyllgor yw rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i adroddiadau gan ein rheolyddion allanol.

Mae unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru a'n rheolyddion allanol eraill yn cael eu derbyn gan ein **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** a'u hychwanegu at Gynllun Gweithredu Llywodraethu a Gwella" y Cyngor. Dyma ddogfen allweddol y Cyngor i ddangos sut yr eir i'r afael â chynigion gwella/argymhellion a ddaeth i law ac y cytunwyd arnynt.

Rydym yn diweddaru ac yn adrodd yn rheolaidd ar ein Cynllun Gweithredu er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyfrifoldeb pwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor yw monitro'r argymhellion ar gyfer gwasanaethau penodol ac mae diweddariadau blynyddol ar gynnydd yn cael eu paratoi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddibenion sicrwydd. Mae unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r cynnydd a nodwyd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a/neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu hamlygu mewn adroddiad i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi atgyfnerthu arweinyddiaeth wleidyddol gyffredinol drwy gyflwyno craffu trawsbleidiol effeithiol a grwpiau ffocws trawsbleidiol. Mae hyn wedi arwain at gynllunio, gweithredu a darparu prosiectau a gwasanaethau sydd o flaenoriaeth ac sydd o bwys mawr i'n cymunedau, a hynny mewn modd llawer llyfnach. Mae gwaith trawsbleidiol wedi cynnwys Aelodau etholedig o wahanol gefndiroedd daearyddol a gwleidyddol yn cydweithio i wneud penderfyniadau sydd o fudd i etholwyr a'r sir gyfan Cydnabyddir y gallai fod gan Aelodau wahanol ideolegau a blaenoriaethau, ond mae'r dull hwn yn dangos gweithio blaengar yn Nhorfaen lle rhoddir blaenoriaeth i fuddiannau etholwyr a lles y cymunedau lleol uwchlaw ystyriaethau pleidiol.

Mae llywodraethu democrataidd cryf yn elfen allweddol o fod yn sefydliad a reolir yn dda ac felly mae'n hanfodol i fodloni ein gofynion o ran ein perfformiad. (Mae trosolwg o'n trefniadau llywodraethu wedi'i nodi, fel y gwelir isod ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein dogfen, **Cyfansoddiad y Cyngor,** sef ein fframwaith ffurfiol sy'n nodi sut mae'n rhaid i ni fel Cyngor weithredu a gwneud penderfyniadau sy'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol.




## Pwyntiau Dysgu Allweddol yn sgil Hunanasesu ein Nodweddion i fod yn Gyngor Rhagorol

Defnyddiwyd y wybodaeth helaeth sydd ar gael i ni er mwyn llunio darlun cyflawn o'n Cyngor i ddatblygu ein hunanasesiad. Mae trosolwg o'r dysgu allweddol a'r canfyddiadau wedi'u nodi isod.

**1. Cyngor arloesol sydd yn …**
- drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- barod i dderbyn risg
- meithrin arloesedd yn y gweithle a thu hwnt
- chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

**Datblygiadau Allweddol**

Mae ein ffocws wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â'n nodweddion ac mae llawer o newidiadau wedi digwydd i'n helpu ni, fel Cyngor, i ddod yn fwy arloesol. Yn bwysicach, rydym wedi parhau i addasu'n gyflym ac ymateb yn gadarnhaol i heriau a mentrau newydd, gan ddangos bod ein bod yn barod i addasu a chyflawni mewn amgylchiadau sy'n newid yn barhaus. Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen, rhaid i'n parodrwydd i gymryd risgiau a chyflawni prosiectau arloesol, newydd, gyd-fynd â'r bragmatiaeth sydd ei hangen i derfynu prosiectau pan welwn yn glir nad ydym yn medru eu datblygu neu ni fyddant yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd.

Ar ddiwedd 2023, gwnaethom nodi ffordd newydd o weithio, a'i alw'n 'Rebel Torfaen'. Mae'r fath ffordd newydd o weithio yn galluogi ein staff i deimlo bod ganddynt y grym i gyflwyno eu syniadau i wella gwasanaethau, trwy amrywiaeth o grwpiau sy'n cael eu harwain gan staff, gan ystyried rhai o'r heriau strategol sy'n wynebu'r Cyngor ac adlewyrchu'r heriau sy'n cael eu hystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth. Y nod yw cynnig barn ac ymateb ehangach a mwy amrywiol i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Rydym hefyd wedi gofyn i'n staff a ydyn nhw'n rhan o grŵp 'rebel' ai peidio:

- beth yw eu syniadau fel rebeliaid, i wella ein sefydliad?

- yn eu barn nhw, beth ddylem ni ei newid, ei wella neu ei arloesi?
- beth yw'r cyfleoedd a'r heriau a welant yn eu maes gwaith?
- sut fedrwn ni gydweithio'n fwy effeithiol o fewn ein timau a'n hadrannau?
- sut allwn ni wasanaethu ein preswylwyr a'n cymunedau yn well?

Rydym bellach wedi creu llwyfan lle gellir rhannu syniadau gydag Arweinwyr y Cyngor a gyda'n gilydd. Mae'r Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at yr holl staff yn eu hannog i fod yn feiddgar, yn greadigol ac yn adeiladol yn eu hawgrymiadau.

O fewn y llwyfan, gall staff gyflwyno eu syniadau eu hunain, rhoi sylwadau ar syniadau pobl eraill, a gweld sut maen nhw'n datblygu. Mae hyn yn ffordd i staff leisio eu barn ac i ddylanwadu ar gyfeiriad a strategaeth ein sefydliad.

Wrth adolygu ein cynnydd, y llynedd gwnaethom nodi'r angen i fod yn fwy cydgysylltiedig yn fewnol pan fyddwn yn cynllunio darparu ein gwasanaethau. O'r herwydd, yn 2024/25 fe wnaethom ddiwygio ein fframwaith/templed cynllunio gwasanaethau i hyrwyddo mwy o sgyrsiau rhwng timau o amgylch datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau. Rhannwyd cynlluniau hefyd gyda gwasanaethau corfforaethol allweddol i sicrhau bod lefel yr integreiddio yn uwch. Er bod hyn wedi helpu i wella'r sefyllfa, bydd newidiadau pellach i'r broses cynllunio gwasanaethau yn 2025/26.

Rydym yn parhau i ystyried y ffordd orau i fwrw ymlaen â gwaith sy'n gysylltiedig â'n parodrwydd i gymryd risg. Mae ein prosesau presennol yn cael eu canmol ac maent yn cynnig fframwaith cadarn o ran nodi a rheoli ein risgiau. Yn ystod 2023/24 roedd ein prosesau'n destun archwiliad mewnol ac fe wnaeth ddilysu ein dull gweithredu ymhellach. Rydym wedi cynnal sgyrsiau gyda Blaenau Gwent am ein dulliau rheoli risg wrth i ni ddechrau gweithio'n agosach gyda'n gilydd. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwn yn y flwyddyn i ddod yn debygol o ganolbwyntio ar alinio ein prosesau mor agos â phosibl, yn hytrach nag ehangu ar ein trefniadau rheoli risg presennol.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25**

- **C1.1 - Archwilio a deall ein parodrwydd i gymryd risg drwy:**
  - Archwilio sut yr ydym yn mynd ati i ddiffinio risg
  - Deall beth yw ein parodrwydd i gymryd risg
  - Gallu edrych ar risg o sawl safbwynt ac mewn gwahanol ffyrdd

- **C1.2 – Deall a Lleihau Gweithio mewn seilo drwy:**
  - Darparu mynediad at Gynlluniau Gwasanaeth ar draws ein Cyfarwyddiaethau yn gynnar, sy'n caniatáu cynllunio rhagweithiol ac yn lleihau'r risg o gynllunio, ar wahân.
  - Cyflwyno 'diwylliant o gynnig syniadau', gan alluogi ein staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno eu syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau, drwy amrywiaeth o grwpiau dan arweiniad staff.

- **C1.3 - Annog mwy o ystwythder drwy'r Cyngor drwy:**
  - Bod yn barod i wneud pethau'n wahanol a rhoi'r gorau i bethau yn gynt os nad yw prosiectau'n gweithio
  - Bod yn agored i fwy o heriau sy'n gysylltiedig â datblygu 'diwylliant o gynnig syniadau' (*gweler C1.2*).-

**C1.4 - (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Datblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein holl staff fel eu bod yn gallu bodloni'r galw newidiol o ran darparu a blaenoriaethu gwasanaethau drwy:**
  - Ddatblygu a gweithredu proses recriwtio a chadw ar-lein
  - Cyflwyno llwyfan Dysgu a Datblygu sy'n cynnig gwybodaeth ar hyfforddiant a datblygiad hygyrch i fodloni anghenion unigolion a gwasanaethau

- **C1.5 - (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Adolygu prosesau a ddilynir ar hyn o bryd yn ein Tîm Cymorth Busnes Gweinyddol (ABS) i:**
  - archwilio camau i ddefnyddio technoleg yn effeithiol a "gwneud yn wahanol" gan sicrhau

bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd gorau i gyflawni’r gwasanaeth.

**2. Cyngor uchelgeisiol â gweledigaeth sy’n…**
- Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- Sefydlu cyfeiriad pendant a nodau hirdymor
- Lleihau ei ôl-troed carbon

**Datblygiadau Allweddol**

Rydym wedi nodi cyfeiriad clir o fewn ein sefydliad ac rydym yn rhannu ein nodau hirdymor i wella llesiant ledled Torfaen. Nod ein Cynllun Sirol yw gwneud hyn drwy nodi'n glir y canlyniadau / amcanion/ gweithgareddau yr ydym yn anelu at eu cyflawni, a rhai sy’n cael eu deall a'u cefnogi'n dda yn wleidyddol ac o fewn y sefydliad.

Mae Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn parhau i gael ei ddefnyddio i fonitro ac adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein dyheadau ar gyfer hyd oes y Cynllun Sirol. Rydym hefyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC) drwy gydweithio i ddod yn rhanbarth 'Marmot' gyda'r bwriad o gymryd camau ar sail tystiolaeth i leihau anghydraddoldebau a mynd i’r afael â’r heriau allweddol i les ar hyn o bryd ac yn y tymor hir ar draws y rhanbarth, i leihau anghydraddoldebau sy’n effeithio ar benderfynyddion iechyd ehangach (gweler ***adran 8***).

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, cynhaliwyd digwyddiad 'Torfaen y Dyfodol', a oedd yn canolbwyntio ar ymwreiddio egwyddorion Marmot drwy’r sefydliadau a’r holl wasanaethau sy’n cael eu cyflenwi gan bob un o feysydd y Cyngor. I ddechrau, ein Tîm Arweinwyr a'n Penaethiaid Gwasanaeth oedd y cyntaf i gymryd rhan lawn yn y broses, cyn ymgysylltu â'n rhwydwaith staff ehangach, i alluogi pob rhan o'r sefydliad i ddeall sut maen nhw’n cysylltu ag amcanion llesiant ac egwyddorion Marmot y Cynllun Sirol a chyfrannu atynt.

Yn ddiweddar iawn, mae pob maes gwasanaeth yn cefnogi datblygiad 'Uwchgynllun Torfaen' drwy ddrafftio cyfres o fesurau a fydd yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau gwasanaeth. Mae pob maes gwasanaeth felly'n deall yn well o lawer sut maen nhw’n cael effaith uniongyrchol ar gyflawni egwyddorion Marmot.

Bydd ein huwchgynllun, sy'n seiliedig ar Egwyddorion Marmot, yn helpu arweinwyr Torfaen yn y dyfodol, i weld y weledigaeth ar gyfer y sir mewn ffordd glir. Bydd yn ein helpu i ganolbwyntio a bydd yn llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau ar gyfer ein dyfodol. Bydd y cynllunio hirdymor hwn fel dilyn 'llyw lloeren' ar ein taith. Bydd yn ein helpu i wybod ble rydym am fynd a'r ffordd orau i gyrraedd yno. Bydd ein Cynlluniau Sir presennol ac yn y dyfodol yn parhau i fod yn gerrig milltir pwysig ar hyd y ffordd. Ochr yn ochr â’n Huwchgynllun, bydd hyn yn ein galluogi i ragweld heriau, paratoi ar eu cyfer a sicrhau bod ein gweithredoedd dyddiol yn cyd-fynd â'n nodau yn y pen draw.

Rydym wedi sicrhau buddsoddiad ymchwil gwerth £5 miliwn gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd i'n preswylwyr. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, drwy'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), yn gwneud y buddsoddiad hwn drwy'r Cydweithrediadau Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r partneriaethau hyn yn cael eu sefydlu ledled y DU gyda'r nod o hybu’r gallu i gwblhau ymchwil yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig y DU.

Fel cyngor, mae gennym adnoddau cyfyngedig i'w cynnig i ysgwyddo'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl Torfaen. Drwy greu CYBI, a gweithio ochr yn ochr â'n cymunedau, gyda’n gilydd gallwn nodi'r materion pwysicaf sy'n ymwneud ag annhegwch iechyd sy'n effeithio ar ein cymuned. Gallwn weithio ar wella'r ffordd yr ydym yn deall y sylfaen dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli. Gallwn ymchwil mewn ffordd a fydd yn ein galluogi i ddylunio ymyriadau effeithiol a'u profi gyda sicrwydd bod yr effaith yn cael ei monitro a'i gwerthuso. Yna gallwn wneud penderfyniadau da sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran ein dewisiadau buddsoddi a fydd yn effeithiol wrth leihau annhegwch iechyd yn ein cymunedau.

Mae gennym weledigaeth uchelgeisiol i greu diwylliant o chwilfrydedd sy'n rhoi pobl, data a deallusrwydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Deallwn cwrs bywyd y dinesydd a sut mae anghydraddoldebau iechyd yn effeithio ar eu bywydau a'u lles. Ymfalchïwn yn y ffaith ein bod yn awdurdod lleol gofalgar sy'n canolbwyntio ar y dinesydd am mai teg, effeithiol, cefnogol ac arloesol yw ein gwerthoedd. Byddwn yn cyd-greu gyda phartneriaid i roi ymchwil ar waith. Trwy gynnwys y cyhoedd a thystiolaeth o ymchwil gallwn wella penderfyniadau fydd yn mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd sy'n golygu y gall pobl yn Nhorfaen gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25**

- **C2.1 -Cefnogi'r sefydliad i ymgorffori egwyddorion Marmot ym mhopeth a wnawn, drwy:**
  - Ddatblygu a chyfleu naratif cyson drwy'r sefydliad i alluogi pob rhan o'r sefydliad ddeall sut y gallant gysylltu, a chyfrannu at: amcanion llesiant ein sefydliad ac Egwyddorion Marmot.
  - Parhau i ymgorffori Egwyddorion Marmot yn ein trefniadau Cynllunio Gwasanaethau a Llywodraethu, drwy'r Cynllun Sirol newydd/Fframwaith Rheoli Perfformiad Dangosyddion Perfformiad Marmot.

- **C2.2 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Datblygu Uned Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd:**
  - i greu Cyngor sy'n gwbl weithredol o ran ymchwil a thystiolaeth

**3. Cyngor sy'n perfformio'n uchel sy'n …**
- Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
- Sydd bob amser yn dysgu ac yn barod i wella
- Mesur yr hyn sydd o bwys i breswylwyr a chymunedau
- Hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- Deall ei bwrpas a chyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol

**Datblygiadau Allweddol**

Mae blociau adeiladu newydd cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith i'n helpu i gyflawni ein huchelgais i ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda. Gwireddwyd a chefnogwyd hyn gan nifer o ffactorau fel, ein Cynllun Sirol newydd a'r cynllun cyflawni; Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd ynghyd ag ymagwedd newydd, strwythur arweinyddiaeth newydd a mynd ati i adolygu ein prosesau cynllunio gwasanaethau yn rheolaidd. Mae'r holl ffactorau hyn wedi arwain at wireddu gwelliannau cadarnhaol o ran gwella gwasanaethau a ddarperir, yn enwedig yn ein gwasanaeth Addysg.

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP) yn helpu i amlinellu a chyfleu ein dull datblygol o fonitro, adrodd a gwella perfformiad yn Nhorfaen. Mae ein proses Cynllunio Gwasanaeth newydd ar gyfer 2023-24 yn darparu dull mwy cyson ar draws y sefydliad, o ran diweddaru a monitro perfformiad. Mae gweithgareddau sy'n cynnwys Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau ein timau sy'n ein galluogi i fonitro ein gallu i gyflawni ein huchelgeisiau yn well.

Er mwyn cefnogi ein dyhead i berfformio'n uchel mae angen i ni gael ein sbarduno fwy gan ddata a gwybodaeth wrth symud ymlaen. Trwy gydol 2023/24, gwelwyd lefelau amrywiol o gynnydd ymhlith ein timau, o ran adolygu eu data, fel ein bod ni fel sefydliad yn gallu deall yn well pa ddata sydd gennym a nodi lle mae'r bylchau. Felly, maes allweddol i'w ddatblygu, ac un fydd o flaenoriaeth yn 2024/25 fydd cwblhau'r ymarfer mapio data hwn. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu arbenigedd mewnol i ddefnyddio Power BI ac ar hyn o bryd mae nifer o gyfarwyddiaethau wrthi'n gweithredu Power BI wrth fynd ati i fonitro perfformiad.

Rydym wedi dechrau manteisio ar feincnodi awdurdodau lleol sydd wedi'i ailgyflwyno, yn ein gwaith hunanasesu. Mae offeryn newydd wedi'i ddatblygu gan Data Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i feincnodi o fewn y broses Hunanasesu a byddwn yn parhau i geisio defnyddio mwy o'r offeryn hwn a gwneud y gorau o'r data sydd ar gael wrth ei ddefnyddio i'n helpu i gymharu ein perfformiad gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Drwy gydol 2023/24, rydym hefyd wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn casglu barn ein preswylwyr yn ogystal ag adborth arall gan ein cwsmeriaid i sicrhau bod yr adborth rydym yn ei dderbyn yn cael ei ledaenu, ei ddeall a'i weithredu'n briodol.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, datblygwyd calendr corfforaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n rhoi cyfle i ni weld pryd mae ein cyfarwyddiaethau yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn cynnal arolygon i gasglu safbwyntiau'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau. Sefydlwyd hefyd Gweithgor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu arolwg cenedlaethol ar gyfer preswylwyr yng Nghymru, gan weithio ochr yn ochr â Data Cymru. Mae swyddogion o'n sefydliad wedi bod yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith hwn a rhagwelir y bydd arolwg newydd i breswylwyr yn cael ei gwblhau tuag at ddiwedd 2024/25.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25**

- **C3.1 - Archwilio ffyrdd o dderbyn gwybodaeth well gan breswylwyr drwy:**
  - Adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnal ein Harolwg Preswylwyr a chasglu unrhyw adborth arall gan ein cwsmeriaid - er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr adborth iawn gan y cwsmeriaid iawn ar yr adeg iawn
- **C3.2 – Canfod bylchau yn ein data drwy:**
  - Adolygu'r holl ddata yr ydym yn ei gasglu ar draws ein sefydliad a dod o hyd i'r bylchau yn y wybodaeth sydd gennym.
  - *Hefyd yn gysylltiedig â gweithio â'n Grŵp Ffocws Staff (C1.2) a drafodwyd o dan Nodwedd 1*

- **C3.3 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Gwella ein gallu o ran data:**
  Cyflwyno Power BI **-** i gefnogi ein dyhead i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru'n fwy gan ddata a gwybodaeth, drwy wella hygyrchedd ac amlygrwydd y data

- **C3.4 - (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Archwilio ystod o systemau i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd -** Gweithio gyda grwpiau, fel yr Hyrwyddwyr Hinsawdd i archwilio ymwneud â'r broses graffu

- **C3.5 - Mesur newydd ar gyfer 24/25) Adolygu ein hystâd i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadeiladau'n effeithlon ac yn briodol drwy:**
  - Paratoi Strategaeth Rheoli Asedau newydd, cynhwysfawr ac integredig dros gyfnod o bum mlynedd a Chynllun Gweithredu/Buddsoddi

**4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n…**

- Trysori arfer cynhwysol a chydraddoldeb
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i dderbyn cefnogaeth i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

**Datblygiadau Allweddol**

Rydym yn trysori a chroesawu cynwysoldeb a chydraddoldeb o fewn y sefydliad. Mae llawer o'r cynlluniau a gyflwynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf fel Cynllun Llesiant Gwent a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (y cafodd y ddau eu datblygu drwy bartneriaeth a chydweithredu cadarn), yn dangos ein hymrwymiad i hyn.

Mae ein Cynllun Sirol yn addo y byddwn yn gwneud pethau'n wahanol yn Nhorfaen. Gwnaethom fabwysiadu ein 'Strategaeth Llesiant Cymunedol' ym mis Ebrill 2024, gan nodi gweledigaeth a chenhadaeth newydd i'r Cyngor osod 'cymunedau' a 'lles ac atal' fel conglfeini dilys yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ein gwasanaethau.

Daw’r cam cyntaf i atal yn uniongyrchol gan ein cymunedau. Mae cymunedau'n cymryd sawl ffurf ac maent yn hanfodol i'n helpu i gadw’n wydn. Mae arweinwyr cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, elusennau, clybiau a hybiau, mannau agored, eglwysi, siopau a chaffis i gyd yn cynnig cymorth a chefnogaeth amhrisiadwy i'n cadw'n iach.

Maent yn bwerus iawn pan fydd sefydliadau wedi'u cysylltu, ac yn tynnu i'r un cyfeiriad: un 'system' sy'n cynnwys llawer o actorion gwahanol sy'n gweithio ym mhob un o'r mannau lleol. Mae gan ein Cynghorau Tref a Chymuned rôl hanfodol i'w chwarae wrth arwain y strategaeth ar gyfer eu cymuned. Ochr yn ochr â nhw, mae gan y Cyngor, ynghyd â'n partneriaid yn y GIG, yr Heddlu a'r Sector Gwirfoddol, rôl i'w chwarae wrth greu'r amodau ar gyfer cynllunio cymunedol effeithiol. Gyda’n gilydd gallwn fynd i'r afael â'r materion sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i les a gwytnwch mewn cymunedau ledled y Fwrdeistref.

Erbyn 2027, bydd y Cyngor wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithredu, a hynny’n sylweddol. Byddwn yn sicrhau bod 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' yn gonglfeini dilys yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ein gwasanaethau fel y gallwn rymuso ein cymunedau i fod yn iachach, wedi'u cysylltu'n well ac yn fwy cyfartal.

Mae ein cymunedau yn ganolog o ran cefnogi lles ac annibyniaeth ein preswylwyr. Byddwn yn cofleidio'r angerdd a'r wybodaeth sydd gan ein cymunedau a'n sefydliadau cymunedol am eu hardal leol a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio atebion ar y cyd ac wrth wraidd pob cymuned leol. Gyda'n gilydd, byddwn yn mynd i'r afael â'r materion sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i les, gwytnwch ac annibyniaeth.

Yn ystod 2023/24, rydym wedi parhau i sicrhau bod ein holl Gyfarwyddiaethau yn ein sefydliad yn ymgorffori gofynion ein Strategaeth Cyfranogiad. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd priodol i'n preswylwyr ddweud eu dweud am y ffordd yr ydym yn gweithio a'r penderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud a allai effeithio arnynt.

Bydd gwybodaeth a gesglir hefyd yn cael ei bwydo i'r gwaith yr ydym yn ei wneud i greu calendr corfforaethol i ymgysylltu â'r cyhoedd (a drafodwyd yn yr adran flaenorol). Gwneir hyn er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio’r hyn y mae preswylwyr a rhanddeiliaid eraill yn ei ddweud wrthym, yn y ffordd orau.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25**

**C4.1 - Bwrw ymlaen â'r Ymagwedd Strategaeth Gymunedol drwy:**

– Gwella’r camau i gynllunio blaenoriaethau ar lefel leol, gan sicrhau bod darparu yn y gymuned yn egwyddor allweddol wrth gynllunio gwasanaethau, cynyddu nifer y gwirfoddolwyr yn y gymuned, a chael hyd i wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy’n addas i wasanaethau a ddarperir.

- **C4.2 - Ymgorffori'r Strategaeth Cyfranogiad newydd ar draws y Cyngor drwy:**
  Sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth o fewn ein sefydliad yn ymgorffori gofynion ein Strategaeth Cyfranogiad, a fydd yn rhoi cyfleoedd priodol i'n preswylwyr ddweud eu dweud ar: y ffordd yr ydym yn gweithio a’r penderfyniadau y bydd angen i ni eu gwneud a allai effeithio arnynt.

- **C4.3 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Datblygu ein gwybodaeth am ein gweithlu trwy:**
  - Gwella’r data a gesglir am y gweithlu i’n galluogi i ddileu unrhyw anghydraddoldeb
  - Datblygu ein proses sefydlu staff i sicrhau bod y gwerthoedd sydd wedi eu nodi yn “Ein Ffordd o Weithio” (yn cynnwys ymddygiad teg) yn cael eu hymwreiddio yn ystod camau goruchwylio ac arfarniadau gwaith blynyddol

- **C4.4 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Gweithio’n Fwy agos â Blaenau Gwent:**
  Archwilio cyfleoedd cydweithredol ar draws Torfaen a Blaenau Gwent i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd
  - Nodi opsiynau i'r ddau gyngor benderfynu ar ffyrdd ymlaen yn y tymor byr, canolig a hirach

**5. Cyngor wedi'i reoli'n dda sy'n…**

- Trysori ei werthoedd craidd
- Gwerthfawrogi lles a chyfraniad staff
- Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol
- Llywodraethu’n dda i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud

## Datblygiadau Allweddol

Gwerthfawrogwn les a chyfraniad ein staff a deallwn fod hyn yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bwrw ymlaen â chryn lawer o waith i atgyfnerthu ein hymagwedd ymhellach o ran ein Strategaeth Gweithlu. Mae ein strategaeth yn nodi sut y byddwn, drwy ein gweithlu, yn cyflawni nodau strategol ein Cynllun Sirol, dyletswyddau cyfreithiol allweddol ac yn rhoi gwybodaeth am sut y bydd y Cyngor yn datblygu ein nodweddion cyngor rhagorol. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar les a datblygiad staff. Mae hyn yn dechrau cael ei weithredu drwy ffrydiau gwaith fel gweithio gyda staff yn y flwyddyn i ddod i adolygu ein rhaglen arfarnu perfformiad bresennol, mewn ffordd sydd o fudd i'r holl staff. Bydd y dull newydd yn mynd yn fyw yn 2024/25.

Ar ddiwedd 2023/24, lansiwyd rhaglen newydd ar gyfer datblygu gyrfa, i helpu i annog pobl i ddilyn gyrfa yn ein sefydliad.

Mae prentisiaid a hyfforddeion bellach yn cael cyfle i ennill cyflog wrth iddynt ddysgu - gan ennill profiad gwerthfawr yn y gwaith, yn ogystal â gweithio tuag at gymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol. Bydd hyn yn ein helpu i adeiladu gweithlu medrus ac addasadwy yn ein sefydliad a'r gobaith yw y bydd 40 o Brentisiaid a Hyfforddeion yn ymuno â'n Rhaglen yn ystod y 12 mis nesaf.

Bydd gweithwyr presennol hefyd yn cael cyfle i gael mynediad at gymwysterau wedi'u hariannu'n llawn o Fframwaith Prentisiaethau Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu eu sgiliau ac i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Mae gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu cynllun dirprwyo'r Cyngor, yn benodol er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau lefel is ar lefel briodol i sicrhau ein bod yn cael gwared ar rwystrau diangen wrth wneud penderfyniadau. Penderfynwyd er bod y cynllun dirprwyo yn addas i'r diben gan ei fod eisoes yn caniatáu dirprwyo penderfyniadau i'r swyddogion sydd angen eu gwneud, mae angen rhagor o waith i symleiddio'r broses. Felly, rydym yn gweithio ar hyn o bryd i gynnig templed symlach, ar-lein, i'w gwblhau gan swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau Categori C lefel is. Bydd hyn yn cael ei weithredu yn y flwyddyn i ddod.

Mae trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn gryf o fewn ein sefydliad. Cadarnhaodd y datganiad llywodraethu blynyddol fod ein dull gweithredu yn parhau'n gadarn, ac mae adborth archwilio mewn perthynas â llywodraethu yn gadarnhaol i raddau helaeth. Mae'r dystiolaeth a gawsom, gan gynnwys adborth cadarnhaol i raddau helaeth gan y pwyllgor archwilio yn dangos bod strwythurau a phrosesau llywodraethu da ar waith, sy'n cefnogi penderfyniadau cadarn.

## Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25

– **C5.1 - Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer Arfarniadau Perfformiad drwy:**
  - Gweithio gyda'n grŵp Ffocws Staff i sicrhau bod ystod o aelodau staff yn cynnig syniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt a'u cynnwys yn ein system arfarnu.

– **C5.2 - Adolygu ein cynllun dirprwyo presennol drwy:**
  - Sicrhau bod staff yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ar lefel is.

– **C5.3 - Nodi bylchau yn ein data drwy:**
  - Adolygu'r holl ddata a gesglir ar draws ein sefydliad i bennu unrhyw fylchau sydd gennym o ran gwybodaeth a monitro . (*Yn yr un modd â Nodwedd 3*)

\-

**C5.4 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Cryfhau ein gweithlu yn effeithiol drwy:**
  - Gytuno ar gynllun cyflawni ar gyfer strategaeth y gweithlu, a'i ddatblygu
  - Sefydlu rolau prentisiaeth o fewn y sector cyhoeddus, yn ddelfrydol ar sail a rennir
  - Datblygu Rhaglen Lles i'r holl staff
  - Adolygu'r broses Worksmart gyfredol a'i chysylltu â rheoli perfformiad a chynlluniau datblygu'r gweithlu

- **C5.5 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Cefnogi'r gwaith o gyflawni Asesiad Perfformiad Panel statudol y Cyngor** (angen unwaith bob cylch etholiadol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021).

**6. Cyngor sy'n hygyrch ac yn ymgysylltu, sy'n…**
- Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid
- Cynnwys staff a phreswylwyr mewn materion sy'n effeithio arnynt
- Croesawu syniadau gan gwsmeriaid a staff
- Agored ac onest gyda staff a phreswylwyr
- Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant

**Datblygiadau Allweddol**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd a manteision ymgysylltu â'n staff, ein preswylwyr a'n rhanddeiliaid. Rydym yn parhau i weithio gyda chymaint o grwpiau a fforymau â phosibl, i sicrhau eu bod yn ymwneud â'r materion sy'n effeithio arnynt. Mae gennym fforymau a rhwydweithiau da a sefydledig (Panel Dinasyddion, Fforwm Ieuenctid ac ati) sy'n ymwneud yn bennaf â'r penderfyniadau a'r datblygiadau rydym yn eu gwneud. Mae gennym hefyd nifer o Aelodau Eiriolwyr sydd wedi'u rhannu rhwng aelodau'r cabinet ac aelodau mainc gefn, sydd hefyd yn ymgymryd â phenderfyniadau sy'n berthnasol i'r meysydd y maent yn eu cynrychioli. Mae rhai o'n Haelodau Eiriolwyr yn cynnwys ein heiriolwr dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Eiriolwr dros Ofalwyr, Eiriolwr dros Gynaliadwyedd ac Eiriolwr dros Iechyd Meddwl.

Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn onest â phreswylwyr ac aelodau. Mae'r cyfathrebu hwn yn digwydd yn aml a thrwy amrywiaeth o gyfryngau, sydd wedi profi i fod yn gynhyrchiol iawn, gyda llawer iawn o ryngweithio ac adborth. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau'n dda, ac rydym yn agored ac yn onest mewn meysydd lle na cyflawnwyd ein cynlluniau fel y bwriadwyd.

Mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn gymhleth. Maent yn cynnwys sawl ffactor, rhyng-ddibyniaeth, ac amrywiaeth o ansicrwydd, a bydd ein llwyddiant o ran mynd i'r afael â nhw yn gofyn am fwy na gwaith caled, cymhelliant, neu hyd yn oed dalent unigol.

O ganlyniad, ar ddiwedd 2023, fe wnaethom nodi ffordd newydd o weithio. Cafodd ei frandio'n 'Rebel Torfaen'. Mae'r ffordd newydd hon o weithio yn galluogi ein staff i deimlo bod ganddynt rym i gyflwyno'u syniadau i wella gwasanaethau. Gwneir hyn drwy amrywiaeth o grwpiau sy'n cael eu harwain gan staff, i ystyried rhai o'r heriau strategol sy'n wynebu'r Cyngor ac yn adlewyrchu'r heriau sy'n cael eu hystyried gan y Tîm Arweinwyr. Y nod yw cynnig barn ac ymateb ehangach a mwy amrywiol i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Ni fydd 'Rebel Torfaen' yn cynnig ateb sengl i'n heriau, ond bydd yn helpu i addasu ein meddylfryd, a ffordd o wneud pethau a fydd yn sicrhau bod ein gweithle yn fwrlwm o syniadau, Byd cyfle i annog a dathlu ein safbwyntiau a'n dulliau amrywiol.

Mae'n ddiwylliant lle gallwn fod yn fwyfwy creadigol o ran meddwl, arbrofi, dysgu ac addasu, fel y gallwn yrru arloesedd mewn ffordd na wnaed o'r blaen.

Bydd y grwpiau 'Rebel' sy'n cynnwys gwirfoddolwyr o bob rhan o'r sefydliad yn helpu i 'harneisio' potensial yr 'amrywiaeth wybyddol' yn ein gweithlu. Mae amrywiaeth wybyddol yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau o ran sut mae pob un ohonom yn meddwl, sut yr ydym yn prosesu gwybodaeth, a sut yr ydym yn mynd i'r afael â datrys problemau. Mae'r fath wahaniaethau yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, yn cynnwys ein haddysg, ein profiadau bywyd, y diwylliant y cawsom ein magu ynddi ac yr ydym nawr yn byw ynddi, a'n personoliaethau unigol.

Y ffordd orau o ddatrys problemau cymhleth yw drwy ddod â thimau amrywiol o bobl at ei gilydd a chreu amgylchedd 'labordy meddwl', lle gallwn gael ystod ehangach o safbwyntiau a phrofiadau, sy'n arwain at atebion mwy creadigol ac arloesol, ar gyfer ein sefydliad.

Byddant yn ein helpu ni fel sefydliad i herio ein rhagdybiaethau, archwilio posibiliadau newydd, a chynhyrchu atebion newydd ar gyfer y problemau cymhleth sy'n ein hwynebu fel sir. Bydd y grwpiau rebel hefyd yn

cyflwyno safbwyntiau mwy amrywiol gan randdeiliaid gwahanol, gan sicrhau bod ein penderfyniadau'n gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion a disgwyliadau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Bydd y grwpiau rebel yn fan lle gallwn arbrofi gyda syniadau newydd a dysgu oddi wrthynt, gan greu diwylliant o welliant a dysgu parhaus. Trwy harneisio grym amrywiaeth wybyddol, bydd y grwpiau rebel yn ein galluogi i wneud penderfyniadau gwell, sicrhau canlyniadau gwell, a dod yn sefydliad mwy ystwyth a gwydn.

Rydym yn teimlo bod hwn yn gyfle gwych i'n gweithwyr ddatblygu eu sgiliau arwain a chyfathrebu, yn ogystal â chyfrannu at newid sefydliadol ac arloesi. I annog y fath drafodaethau, rydym ni wedi creu llwyfan lle gellir postio syniadau rebel a'u rhannu drwy'r sefydliad. Mae'r llwyfan yn fan ble gall gweithwyr gyflwyno'u syniadau, rhoi sylwadau ar syniadau pobl eraill a gweld sut mae'r syniadau hyn yn datblygu.

Mae ein Harweinwyr yn gwerthfawrogi mewnbwn ein gweithwyr ac rydym am wneud y gorau o'r wybodaeth a'r amrywiaeth ar y cyd sydd gennym yn ein sefydliad. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r dull hwn yn y flwyddyn i ddod yn ogystal â datblygu grŵp 'Rebel Ifanc' fydd yn ein galluogi i gynnwys pobl ifanc yn well ym mhrosesau penderfyniadau'r Cyngor. Rydym yn credu, drwy wrando ar ein gilydd a gweithio gyda'n gilydd, y gallwn greu newid cadarnhaol a chyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth..

Yn ogystal â'n darnau allweddol o waith fel yr amlinellwyd yn Amcan Llesiant 9 yn yr adroddiad hwn, ym mis Tachwedd 2023, enillodd ein Tîm Cyfathrebu y wobr Arian yng nghategori Ymgyrch Cyfathrebu'r Sector Cyhoeddus yng ngwobrau Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru am eu hymgyrch gyfathrebu. Roedd ymgyrch 'Ydych Chi Wedi Cofrestru i Bleidleisio?' yn annog pobl ifanc 14 i 18 oed i gofrestru i bleidleisio yn yr adeg oedd yn arwain at etholiadau lleol y llynedd.

Arweiniodd yr ymgyrch hon at gynnydd o 30 y cant yn nifer y pleidleiswyr a gofrestrodd o blith y grŵp oedran targed, a chynnydd o ddau y cant yn nifer y cofrestriadau cyffredinol, o 90 i 92 y cant.

Ni oedd yr unig awdurdod lleol a gyrhaeddodd y rhestr fer yng ngwobrau Ymgyrch Sector Cyhoeddus eleni, ac roeddem ni hefyd yn cystadlu yn erbyn yr holl asiantaethau Cysylltiadau Cyhoeddus (CC) yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi mabwysiadu a datblygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, i gynnwys ein preswylwyr yn well ac annog mwy i weithio gyda ni. Rydym bellach wedi cyrraedd y cam gweithredu sy'n cynnwys hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth ar draws ein holl feysydd gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i roi cyfleoedd i bobl ddweud eu dweud o ran y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn gallu effeithio ar y penderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Fel y crybwyllwyd eisoes o dan 'Cyngor Arloesol', rydym yn gweithio i feithrin diwylliant sefydliadol sy'n grymuso staff i gael yr hyder a'r gallu i gyflwyno eu syniadau. Mi fydd hyn yn bwysig i ni ei ddatblygu yn y blynyddoedd i ddod.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C6.1 - Ymgorffori'r Strategaeth Cyfranogiad newydd ar draws y Cyngor drwy**:
  - Sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth yn ein sefydliad yn ymgorffori gofynion ein Strategaeth Cyfranogiad, gan roi cyfleoedd i bobl leisio eu barn ar y ffordd rydym yn gweithio a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

  *(Hefyd yn gysylltiedig â'r Grŵp Ffocws Staff (C1.2) a drafodwyd o dan Nodwedd 1)*

- ***C6.2* – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Datblygu a gweithredu protocol siarad cyhoeddus wrth fynd ati i graffu**
- **C6.3 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Gweithredu system newydd ar gyfer adrodd perfformiad wrth fynd ati i graffu**

- **C6.4 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Rebel Torfaen**
- **Bydd Rebel Torfaen yn alinio'r holl weithgarwch â gweledigaeth a gwerthoedd cyffredinol Torfaen.**

- Sicrhau bod gweithgarwch Bwrdd Rebel Torfaen yn cael ei integreiddio'n llawn yn niwylliant a phenderfyniadau Torfaen
- Bydd rhaglen gyfathrebu yn cael ei sefydlu i hysbysu rhanddeiliaid am fanteision gwaith Rebel Torfaen. Mae hyn yn cynnwys sefydlu system adborth i gasglu mewnbwn gan randdeiliaid ynghylch effeithiolrwydd a meysydd i'w gwella
- Bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu cynnig i holl aelodau'r Bwrdd Rebel i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Mesur effaith Rebel Torfaen yn barhaus ac adrodd ar gynnydd i'r Tîm Arweinwyr a rhanddeiliaid eraill
- Cadw’r momentwm i fynd drwy ddathlu llwyddiannau a dysgu o’r heriau. Yna byddwn yn gwneud addasiadau yn seiliedig ar adborth ac amgylchiadau sy'n newid

**- C6.5 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Rebeliaid Ifainc**
**- Ehangu i ymgorffori penderfyniadau grwpiau iau trwy Rebeliaid Ifainc**

**7. Cyngor sy’n graff o ran materion ariannol sy’n…**
- Meithrin dulliau rheoli arian cadarn
- Llwyddo i reoli adnoddau a cheisio gwerth am arian
- Cynhyrchu incwm lle bo hynny’n briodol
- Hyrwyddo buddsoddi mewnol i’r eithaf
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

**Datblygiadau Allweddol**

Rydym yn sefydliad sy’n cael ei reoli'n dda yn ariannol. Mae adnoddau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol gyda phrosesau ariannol da; cyllidebau cadarn, systemau da, yn effro i heriau ariannol sy’n cael ei ystyried yn agwedd cadarnhaol gan ein rheolyddion.

Yn ddiweddar, adolygodd Archwilio Cymru 'Cynaliadwyedd Ariannol' y Cyngor. Cwblhawyd yr adolygiad heb unrhyw argymhellion, a daethpwyd i’r casgliad bod gan y Cyngor *drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a’i fod yn canolbwyntio ar ddatblygu a rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau digon o arbedion i fynd i'r afael â’r bwlch a nodwyd yn ei gyllideb, a hynny mewn modd amserol a chynaliadwy’.*

Mae gennym fframwaith effeithiol o ran atebolrwydd ariannol y gellir ei weld gan ein trefniadau cadarn o ran rheolaeth ariannol, trwy weithdrefnau cyfrifo’r Awdurdod a’i Rheoliadau Ariannol. Rydym yn sicrhau, drwy ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), fod busnes ein Cyngor yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith ac yn ôl safonau priodol. Mae arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae ein trefniadau yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyfalaf a chyllideb refeniw sefydledig. Mae ein Cynghorwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion ariannol, sy’n cymharu gwir wariant refeniw a chyfalaf / incwm â chyllidebau blynyddol. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn amlinellu’r rhagolygon ariannol ac unrhyw lefelau o ddiffyg a amcangyfrifir.

Fe wnaethom gefnogi ein prosesau ariannol drwy ddirprwyo cyfrifoldeb i unigolion yn ein sefydliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwbl gyfrifol ac atebol am eu cyllidebau a’r prosesau ariannol (gan gynnwys glynu at brosesau ariannol corfforaethol), sy’n cael eu dilyn i ddarparu’r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae staff yn derbyn cefnogaeth Swyddogion Cyllid Arweiniol sy’n effeithiol ac uchel eu parch y gellir dibynnu arnynt i gael cyngor ac arweiniad arbenigol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, datblygodd ein Tîm Rheolwyr ‘Prosiect Apollo’ sef ein dull cyngor cyfan a ddatblygwyd dan 8 ffrwd waith ar wahân i fynd i’r afael â’r diffyg yn ein cynllun ariannol tymor canolig. Rhan o'r rhaglen hon yw datblygu dull ehangach y cyngor o fasnacheiddio, sydd wedi arwain at oedi yn ein hamserlenni ar gyfer y prosiect hwn. Bydd ein dull ehangach o fasnacheiddio yn cael ei adolygu i bennu angen neu fudd o strategaeth benodol – yng ngoleuni themâu eraill Prosiect Apollo mae ailgynllunio gwasanaethau a thrawsnewid digidol, sy’n ceisio lleihau costau a chynyddu effeithlonrwydd.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio (SRhP). Mae'r SRhP yn gweithio gyda thimau drwy'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o gynllunio, cychwyn a darparu rhaglenni strategol a rhaglenni mwy, prosiectau, gwelliannau i wasanaethau thrawsnewidiadau, gan sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y pethau cywir ac yn cyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl a'r cymunedau yn Nhorfaen. Yn ddiweddar rydym ni wedi cyflwyno proses gorchymyn/llif prosiectau. Bydd y broses newydd yn sefydlu llif prosiectau sydd o flaenoriaeth, gan gynnwys y rhai sydd yn galw am fuddsoddiad cyfalaf i'w cyflawni. Bydd y broses felly yn gwella'r ffordd yr ydym yn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf ac yn sicrhau gwerth am arian o'r gwariant hwnnw.

Mae ein swyddogaeth gaffael bellach yn fwy gwydn a sefydlog, o ganlyniad i'n cytundeb cydweithredu â Chyngor Dinas Caerdydd. Rydym yn gweithio ar ddatblygu blaengynllun contract ac ar ôl ei gwblhau, byddwn yn gallu nodi unrhyw gaffaeliadau yn y dyfodol a chreu cynllun peilot ar ymgorffori gwerth cymdeithasol/buddion cymunedol. Mae canllawiau a phrosesau asesu risg yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a fydd yn cynorthwyo o ran gwariant caffael i ddylanwadu ar yr agenda datgarboneiddio.

Rydym yn parhau i fod yn gryf o ran denu buddsoddiad mewnol, gan gynnwys cynigion llwyddiannus am gyllid Ffyniant Bro a chyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a arweiniodd at gyllid grant newydd a fydd yn sicrhau buddsoddiad yn ein cymunedau. Mae angen gwneud mwy i geisio gwerth am arian ac felly bydd hwn yn un o'n meysydd i'w gwella yn y flwyddyn nesaf.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25**

**- C7.1 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Cynllunio a gweithredu ein targedau arbedion yn rhan o Brosiect Apollo, sy'n gysylltiedig ag ailgynllunio ein gwasanaethau penodol**

**8. Cyngor sy'n cael ei arwain gan ddata a phrosesau digidol, sy'n…**
- Defnyddio data i ragweld anghenion
- Adeiladu proffiliau digidol i ddeall teithiau cwsmeriaid yn well, ac
- Ymlaen o hyd – felly'n galluogi phreswylwyr i gael hyd i ystod eang o wasanaethau digidol
- Cynnwys preswylwyr drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol

**Datblygiadau Allweddol**

Er ein bod wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn gwybod bod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni ein huchelgais i fod yn gyngor a arweinir yn ddigidol a chan ddata. Rydym wedi sefydlu Tîm Digidol a Data i atgyfnerthu ein hymagwedd. Ein gobaith yw adeiladu ymhellach ar allu ein tîm drwy gais am gyllid i'r CYBI (Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd). Os bydd ein cais yn llwyddiannus, ni fydd y cyntaf yng Nghymru i dderbyn yr arian hwn.

Mae ein Tîm Digidol a Data wedi arwain ar ddatblygu ein Strategaeth Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid. Mae ein strategaeth yn ein helpu ar ein taith i fod yn ddigidol a chael ein harwain gan ddata, ac mae gennym bellach weledigaeth strategol, glir. Cafodd fersiwn drafft ein Strategaeth Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol eu mabwysiadu gan y Cabinet ym mis Mai 2023, yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Rydym eisoes wedi dechrau gweithredu ein cynllun cyflawni, drwy amrywiaeth o ffrydiau gwaith a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi penodi cyflenwr allanol ar gyfer ein System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau (EDRMS). Mae'r cynnydd ar y trywydd iawn a'r targed o ran dyddiad cwblhau yw mis Rhagfyr 2024.

Rydym wedi parhau i gyflwyno Power BI gan gefnogi ein dyhead i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan fwy o ddata a gwybodaeth drwy wella hygyrchedd a natur weladwy'r data. Mae gwaith eisoes wedi profi'r cysyniad y gall data fod yn fwy gweladwy, hygyrch a defnyddiol, gyda llawer llai o fewnbwn â llaw.

Rydym wedi datblygu proffiliau digidol i ddeall ein cwsmeriaid ac o ganlyniad, rydym wedi dechrau Awtomeiddio Prosesau Robotig. Mae angen rhagor o waith i ymgorffori personâu a mapio teithiau yn ein dulliau darparu gwasanaeth. Mae nifer o brosiectau eraill sydd â'r nod o gyflawni effeithlonrwydd digidol, fel BOT Torfaen a'n Prosiect Hunanwasanaeth i Weithwyr hefyd yn symud ymlaen.

Mae angen i ni wneud mwy i ddeall pa atebion digidol sydd ar gael i ni a sut y gall ein gwasanaethau amrywiol eu defnyddio ar draws ein sefydliad. Mae angen i ni ddeall a defnyddio ein data yn well, gan ddadansoddi pa ddata sydd gennym a pha ddata sydd ei angen arnom, fel y gallwn ddeall ein gwasanaethau ac anghenion ein cymunedau yn well. Dyma fydd ein meysydd o flaenoriaeth yn y flwyddyn nesaf.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2024/25**

**- C8.1 - Archwilio ffyrdd o gynnwys ein staff a phreswylwyr ar ein taith ddigidol drwy:**

- Ddeall ac asesu pa dechnoleg sydd eisoes gennym a'r hyn sydd ei angen
- Gweithio gyda'n Grŵp Ffocws Staff i sicrhau bod y diwylliant cywir ar waith i wella'n ddigidol a sicrhau bod ein staff yn derbyn yr hyfforddiant a'r ymgysylltiad iawn

**- C8.2 - Canfod bylchau yn ein data, drwy:**

- Adolygu'r holl ddata a gesglir ar draws ein sefydliad a phenderfynu lle mae bylchau yn ein gwybodaeth. (Yn unol â C3.2)

**- C8.3 – (Mesur Newydd ar gyfer 24/25) Cynyddu canran y trafodion sy'n cael eu gwneud ar-lein, gan ddefnyddio adborth cwsmeriaid i sbarduno gwelliannau**

**- C8.4 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Creu gweithle digidol newydd i staff wella a symleiddio prosesau busnes mewnol ymhellach trwy:**

- Symud yr holl gyfarwyddiaethau o fewn ein sefydliad i Sharepoint
- Sicrhau bod yr holl ddata a gwybodaeth yn cael eu glanhau cyn eu symud
- Creu strwythur ffolder deallus o fewn Sharepoint.

- **C8.5 – (Mesur newydd ar gyfer 24/25) Dylunio a chytuno ar raglen sgiliau digidol i gynyddu galluoedd ein gweithlu, sy'n targedu:**

- Y sgiliau y dylai'r staff feddu arnynt,
- Y Galluoedd Hyfyw Cyffredinol sydd eu hangen arnom ar lefel sefydliadol a maes gwasanaeth er mwyn trawsnewid yn ddigidol, a
- Sgiliau sydd eu hangen ar ein rheolwyr a'n harweinwyr i ddeall posibiliadau digidol yn well a'u cymhwyso i broblemau/cyfleoedd busnes

**- C8.6 - Defnyddio atebion sydd ar gael ar ein cyfer, i awtomeiddio a symleiddio prosesau busnes gan gyfrannu at fwy o gynhyrchiant a gwell canlyniadau i'n cwsmeriaid**

## 5. Cydgysylltu ein gofynion deddfwriaethol

Mae darpariaethau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (2021) hefyd yn cyd-fynd â dyletswyddau eraill a osodir ar gynghorau, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru (2016).

Felly, bydd adran nesaf yr adroddiad hwn yn manylu ar y ffordd yr ydym wedi bod yn gweithio tuag y gofynion deddfwriaethol eraill.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd benodol ar gynghorau, i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb sy'n nodi ein cynnydd o ran cyflawni ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**, mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol.




Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020 i 2024 i arwain ymdrechion y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a dangos ein hymrwymiad parhaus i gyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn parhau i ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant, tegwch, tegwch o ran deilliannau a chyfiawnder cymdeithasol ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod hyn yn cael ei ddangos yn ein harferion cyflogaeth, agweddau ac ymddygiad ein staff ac yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Mae sicrhau bod ein gwasanaethau'n helpu ac yn cefnogi pobl agored i niwed, a'r rhai yn ein cymunedau sydd wedi wynebu anfantais, yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor hwn. Er gwaethaf heriau ariannol ymysg heriau eraill, rydym yn parhau i weithio nid yn unig tuag at gynnal ein gwasanaethau ond hefyd eu gwella, fel eu bod yn gweithio, i ddiogelu hawliau pobl a grwpiau, dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn ein hadroddiad blynyddol, rydym wedi dangos ein cyfraniad cadarnhaol tuag at greu cymdeithas decach drwy'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Mae hyn yn roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu, canolbwyntio ar amcanion cydraddoldeb strategol penodol ac archwilio'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn rhan o bob amcan.

Gellir nodi o'n hadroddiad blynyddol fod cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'i gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn cydymffurfio ac yn foddhaol, mewn perthynas â nifer o'r amcanion cydraddoldeb a osodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, felly gwelwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol.

Roedd ein gweithgarwch yn ystod 2023/24 yn cynnwys y canlynol: -

- Gwnaethom fodloni'r dyddiad cau statudol o 31 Mawrth 2024 ar gyfer cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022-2023.
- Gwnaethom fodloni'r dyddiad cau statudol ar gyfer datblygu Amcanion Cydraddoldeb newydd, a gyhoeddwyd mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 erbyn 31 Mawrth.
- Integreiddio’r camau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028 i Gynlluniau Gwasanaeth a monitro perfformiad, sy'n cael eu monitro’n fwy rheolaidd gan Gyfarwyddwyr Strategol.
- Cynnal disgwyliadau o ran ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig, fel y rhestrir yn Strategaeth y Cyngor ar Gyfranogiad y Cyhoedd.
- Adolygu a newid ein prosesau fel bod y Swyddog Cydraddoldeb yn fwy gwybodus am gwynion corfforaethol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, mewn modd mwy amserol.
- Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Data Cymru i ddatblygu dangosfwrdd perfformiad cydraddoldeb.
- Mae tystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i’w weld pan gafodd Egwyddorion Marmot eu cynnwys yn ein Cynllun Sirol. Mae argymhellion adroddiad Creu Gwent Tecach, y Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd wedi eu hymwreiddio yn y Cynlluniau Gwasanaeth ac mae mynd i’r afael ag anghydraddoldeb yn cael mwy o bwyslais yn llawer o’r gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae yna ffordd i fynd, ond yn sicr mae pwysigrwydd darparu gwasanaethau teg a chymesur yn cael ei ddeall yn well ar draws ein sefydliad.

## Yr Iaith Gymraeg

Fel rhan o'n rhwymedigaethau dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n rhaid i ni gyhoeddi strategaeth pum mlynedd sy'n dangos sut y byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang yn y Fwrdeistref.

Cymeradwywyd Strategaeth y Gymraeg, gan y Cyngor ar 20 Mehefin 2016, gan amlinellu'r cyfeiriad strategol yn ystod 2017 – 2022 fydd yn cynorthwyo twf y Gymraeg yn y fwrdeistref a chefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Adroddir yn flynyddol ar ein cynnydd yn erbyn y strategaeth hon yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.



Yn ystod 2023/24 rydym ni wedi:

- **Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd -** daeth strategaeth 5 mlynedd y Cyngor i ben ym mis Mawrth 2022. Cymeradwywyd strategaeth 5 mlynedd newydd y Cyngor (2024 – 2029) gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2024. Ei nod yw cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yn Nhorfaen o 8.24% yn 2021 (Cyfrifiad 2021) i 17% erbyn 2029. Mae hefyd yn cyd-fynd yn agos â'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a Strategaeth Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

- **Archwiliad Sgiliau Staff -** Mae gennym lawer o aelodau staff sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref, ond rydym yn gwybod bod y sgiliau'n mynd yn angof a hyder yn diflannu. Hoffem gefnogi ein staff i barhau i ddefnyddio'r sgiliau bywyd hynod werthfawr hynny. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddeall lle mae gennym fylchau sgiliau fel y gallwn geisio llenwi'r rhain drwy recriwtio a/neu hyfforddi yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cofnodi sgiliau Cymraeg staff ar ei brif lwyfan (iFOR) gan ddefnyddio graddfa ALTE i fesur lefelau eu sgiliau siarad, darllen, ysgrifennu a dealltwriaeth o'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod eu sgiliau'n cyd-fynd â sefydliadau sector cyhoeddus eraill, ein nod yw symud i lefelau cofnodi CEFR. Mae'r 7 lefel sgiliau sy'n amrywio o 'dim sgiliau' (A0) i 'rhugl' (C2) hefyd yn gysylltiedig â chymwysterau cydnabyddedig a fframweithiau asesu eraill. Bydd yr arolwg newydd i annog staff i gofnodi eu sgiliau iaith yn cael ei gynnal yn ystod yr Haf.

- **Dileu Rhwystrau -** O fis Ebrill 2024, bydd y tâl a godir yn fewnol ar gyfarwyddiaethau am gyfieithiadau Cymraeg yn cael ei ddileu, felly'n dileu'r rhwystrau y mae rheolwyr yn eu hwynebu wrth gydbwyso pwysau'r gyllideb. Bydd hyn yn caniatáu mwy o gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg a'r hyn y gallwn ei gynnig i breswylwyr. Bydd defnyddio mwy o dechnoleg hefyd yn cynorthwyo'r tîm i gynyddu'i gapasiti a lliniaru unrhyw ofynion cynyddol ar y gwasanaeth cyfieithu.

- **Digwyddiadau Diwylliannol** - I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mewn partneriaeth â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, fe wnaeth y Cyngor barhau i gefnogi gwyl 'Torf-hwyl'. Fe wnaeth y Cyngor hefyd godi ymwybyddiaeth ynghylch Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Santes Dwynwen ac amrywiol ddigwyddiadau'r Eisteddfod drwy gydol y flwyddyn.

- **Datblygu Polisïau** – Mae Uned y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r Asesiad Lles Integredig ar benderfyniadau polisi. Fodd bynnag, mae'r angen i asesu'r effeithiau hyn yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisi wedi cael ei gydnabod. Yn ystod rhan olaf y flwyddyn, mae'r uned wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr i hysbysu Cyfarwyddiaethau ynghylch gofynion y Safonau a chynorthwyo i gynghori rheolwyr ynghylch effeithiau cadarnhaol a niweidiol y polisi, yn uniongyrchol ac yn uniongyrchol. Bydd modiwl hyfforddi newydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2024, wedi'i anelu at reolwyr sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau polisi.

## Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn thema drawsbynciol i lywodraeth leol gyda chysylltiadau cryf â'r holl faterion datblygu cynaliadwy eraill. Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n gosod dyletswydd ar adrannau pob awdurdod lleol i roi sylw i fioamrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth yn Nhorfaen.



Mae cynefinoedd naturiol o ansawdd uchel yn nodweddiadol iawn o Dorfaen ac mae'n gartref i nifer o ardaloedd sydd o bwysigrwydd cadwraeth leol a chenedlaethol. Mae pedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, tua 200 o Safleoedd o Bwysigrwydd o ran Cadwraeth Natur a saith Gwarchodfa Natur Leol. Mae Afon Lwyd yn goridor ecolegol pwysig yn Nhorfaen ochr yn ochr â chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Ymhlith y cynefinoedd allweddol mae coetir collddail hynafol, gwlypdiroedd, glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau, ac ucheldiroedd sy'n doreth o rug. Mae coetiroedd yn gyffredinol yn gorchuddio tua 5% o gyfanswm yr arwynebedd yn Nhorfaen, ac yng Nghwmbrân mae llawer o enghreifftiau o goetiroedd hynafol sydd dros 400 mlwydd oed.

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Torfaen yn nodi sut y byddwn yn cadw ac yn gwella bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol y fwrdeistref. Mae'r cynllun, a hwylusir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen, yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar wahân i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol penodol.

Yn ystod 2023/24 rydyn ni wedi:

- Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth
- Rheoli 7 Gwarchodfa Natur Leol (GNL) er lles natur a phobl. Mae'r rhain wedi'u lleoli'n strategol ledled Torfaen ac maent yn hybiau bioamrywiaeth o fewn ein seilwaith gwyrdd
- Gweithio gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru i fynd i'r afael â thanau anghyfreithlon oddi ar y ffordd a thanau gwyllt ar y tiroedd uchel
- Cefnogi gwirfoddolwyr i reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy a gwarchodfeydd natur lleol yn Nhorfaen
- Sicrhau cytundeb i gynyddu faint o dir y Cyngor sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth ac addasu i'r hinsawdd drwy rheoli a monitro parhaus.
- Gweithio gyda Thai Cymunedol Bron Afon i ganfod trefnau rheoli glaswelltir mwy cynaliadwy a disgwyl i brosiect mapio diweddar gael ei gwblhau.
- Trwy Bartneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen, llwyddwyd i gwblhau gwaith ar Gynllun Gweithredu i Adfer Natur sydd ar gael ar wefan y BNL.
- Mapio ein Hasedau Seilwaith Gwyrdd Trefol a nodi coridorau y mae angen eu diogelu a'u gwella i sicrhau cysylltedd ecolegol drwy'r ardal drefol.
- Cwblhau hyfforddiant staff a seminarau'r Aelodau ar faterion fel Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) Strategaeth Coed Torfaen a dyletswydd a6 i gyrff cyhoeddus
- Trwy brosiectau Gwent Gydnerth a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth i gyflawni prosiectau g bioamrywiaeth yn y gymuned a phrosiectau lles– yn cynnwys pyllau newydd, plannu coed, adfer glaswelltir a pherllannau a gerddi cymunedol.
- Bwrw ymlaen â dynodi Gwarchodfa Natur Leol newydd ym Mlaensychan.
- Dechrau gweithredu cynllun rheoli Safle Blorens sydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. (SoDdGA)
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Torfaen.
- Plannu dros 7277 o goed, ledled y fwrdeistref.
- Cyflwyno pori er lles cadwraeth ar sawl safle sy'n eiddo i'r cyngor, mewn partneriaeth â Fferm Gymunedol Greenmeadow.
- Trefnu digwyddiadau cyhoeddus i ddathlu Wythnos Natur Cymru.
- Rhoi cyngor parhaus i'r broses gynllunio defnyddio tir o ran ei ofyniad statudol i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth drwy benderfyniadau cynllunio.
- Dechrau'r gwaith o adolygu Cynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Torfaen.

## 6. Cost ein Gwasanaethau (ein cyllideb ar gyfer 2022/23)

### Ein Cyllideb Refeniw

Mae ein perfformiad ariannol ar gyfer 2022-23 wedi'i gynnwys ar ffurf dogfen drafft o'n **Datganiad o Gyfrifon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Cymeradwywyd cyllideb 2023/24 ym mis Chwefror 2023 gyda chyllideb refeniw gros o £319.6 miliwn a ariannwyd o'r £96.8 miliwn gan ffioedd a thaliadau gwasanaeth penodol i'r llywodraeth am wasanaethau a chyllid a chyfraniadau eraill.



Ariannwyd y gyllideb net o £223 miliwn gan £172.4 miliwn o gyllid heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru a £50.6 miliwn drwy Dreth y Cyngor.

Fe wnaeth alldro refeniw 2023/24 ein rhoi mewn sefyllfa net sy'n ffafriol, yn dilyn cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn penodol, o £234,000 yn erbyn ei gyllideb o £223 miliwn. Nid yw ychwaith yn tynnu cyfraniadau i lawr o'i Gronfa Gyffredinol i gefnogi mentrau amrywiol, yn cynnwys defnyddio'r gronfa at ddiben arall yn hytrach na'r diben a gafodd ei glustnodi yn y gyllideb i ariannu'r cynnydd sydyn a ragwelwyd mewn costau ynni yn 2023/24.

Wrth ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd, fe wnaeth y Cyngor (yn cynnwys ei ysgolion) wario cyfanswm gros o of £337.1 miliwn, yn cynnwys costau cyflogeion gwerth £164.6 miliwn, costau cynnal gwerth £162.3 miliwn a chostau cyfalaf o ryw £10.2 miliwn

Mae'r prif resymau ffafriol dros y sefyllfa alldro wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Arbediad ffafriol o swyddi gwag / trosiant staff ar draws pob Maes Gwasanaeth.
- Derbyn cyllid grant ychwanegol yn fwy na swm y gyllideb.
- Derbyn incwm o ffioedd a thaliadau ychwanegol uwchlaw swm y gyllideb a derbyn incwm ‘untro’ annisgwyl ychwanegol.
- Tanwariant ar gostau rheoli newid sy'n gysylltiedig ag ysgolion.
- Ad-daliadau o Gronfa Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru.
- Derbyn mwy o dreth y cyngor na’r hyn a amcangyfrifwyd ar y cychwyn.
- Tanwariant yn erbyn cyllideb wrth gefn ar gyfer cyflogau yn 2023/24.
- Oedi cyn dechrau menter y rhai sy'n gadael yr ysgol.
- Ail-alinio adnoddau i gydnabod gwaith a wnaed yn barod i lunio cyllideb 2024/25.
- Cwblhau adolygiad o'r fantolen ac ysgrifennu cofnodion priodol.

Fodd bynnag, gwrthbwyswyd y pwyntiau ffafriol hyn gan bwysau o ran:

- Y cymorth oedd ar gael ar gyfer lleoliadau Gofal Cymdeithasol i blant a’r costau ynghlwm wrth ddatrys hyn.
- Amsugno costau cau Fferm Cwmbrân yn ystod ei chyfnod adnewyddu.
- Costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.
- Pwysau ar y gyllideb incwm cymhorthdal Budd-daliadau Tai sy'n deillio o ddefnyddio lletyau gwely a brecwast dros dro i gefnogi achosion o ddigartrefedd.
- Ariannu costau terfynu sy’n gysylltiedig â’r adolygiadau a gynhaliwyd i gefnogi’r gwaith o gyflawni cyllideb 2024/25.

## Ein Cyllideb Gyfalaf

Yn ogystal â'r gwariant refeniw gwariodd y Cyngor £23 miliwn ar ei asedau drwy ei raglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 a oedd yn cynnwys gwario ar ein tir a’n hadeiladau, yn cynnwys:

- parhau i weithredu'r Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy drwy:
  - ymestyn Ysgol Crownbridge, a
  - dechrau cynllunio adeiladu ysgol gynradd newydd Maendy.
- parhau i ddatblygu ‘r cyfleuster parcio a theithio yng ngorsaf drenau Pont-y-pŵl a’r Dafarn Newydd.
- parhau i ddatblygu safle’r British.
- parhau i fuddsoddi yn y seilwaith priffyrdd a’r ystâd adeiladau.
- parhau i fuddsoddi mewn grantiau cyfleusterau i’r anabl i gefnogi ein dinasyddion bregus.

Profodd rhaglen gyfalaf 2023/24 lithriad o £7.8 miliwn tuag at 2024/25, a’r rheswm pennaf am hyn oedd:

- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – llithriad am fod taliadau contractwyr yn llai na’r disgwyl.
- Economi ac Amgylchedd – y prif lithriadau oedd AMP a chynnal a chadw asedau ysgol gwerth £854,000, cynnal a chadw priffyrdd £325,000, pympiau gwres carbon isel £311,000, crynhoi a chreu byrnau £245,000. Roedd cydbwysedd y llithriad ar gynlluniau llai a ariannwyd gan grant sydd wedi symud i mewn i 2024/25.
- Oedolion a Chymunedau – mae’r llithriad yn bennaf ar y cynlluniau a ariennir gan grant, fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin £1.5 miliwn, Trawsnewid Trefi £151,000, mae’r llithriad o £353,000 sy’n weddill, yn bennaf gynlluniau a ariennir gan y Cyngor, sef Fferm Gymunedol Greenmeadow a Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl
- Corfforaethol – mae'r prif lithriad ar gyfraniad y Cyngor i'r Fargen Ddinesig. Ariannwyd y rhaglen gan fenthyciadau gwerth £2.67 miliwn a gymeradwywyd gan y Llywodraeth, £19.33 miliwn o grantiau/cyfraniadau penodol a dderbyniwyd, £0.31 miliwn o gyfraniadau wrth gefn, a chyllid o fenthyciad Salix gwerth £1.13 miliwn.

# 7. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad

## Cyfranogiad y Cyhoedd

Mewn ymateb i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), gwnaethom fabwysiadu ei Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus gyntaf, yn ystod mis Hydref 2022.

Roedd y strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mai 2022 ac Awst 2022 a chynhaliwyd gweithdai wyneb yn wyneb gyda gwahanol baneli dinasyddion, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid Torfaen a Fforwm Mynediad Torfaen. Defnyddiwyd eu hadborth i adolygu'r strategaeth. Datblygwyd Fframwaith Cyfranogiad ar gyfer staff a'i hyrwyddo ymhlith staff a datblygwyd maes lle gall y staff gymryd rhan ar ein Mewnrwyd, Swoop.

Un o brif egwyddorion ein strategaeth newydd yw ymrwymiad i ddweud wrth bobl sydd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, sut aethpwyd ati ddefnyddio eu sylwadau a'u hadborth. Un o'r ffyrdd yr ydym yn cyflawni hyn yw drwy 'Dweud Eich Dweud Torfaen', ein platfform ymgynghori ar-lein, sy'n caniatáu i bobl gofrestru fel cyfranogwyr a derbyn cylchlythyrau rheolaidd sy'n eu hysbysu ynghylch y diweddaraf am ymgynghoriadau sy'n mynd rhagddynt a rhai sydd ar y gorwel, a pha gamau sy'n cael eu cymryd yn dilyn ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben. Mae'r platfform hefyd yn caniatáu i swyddogion y prosiect ddiweddaru llinellau amser er mwyn dweud wrth y bobl beth yw camau nesaf y prosiect.

Roedd 670 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar y platfform Saesneg ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Yn ystod 2023/2024, cafodd y safle 18,215 o ymweliadau, 5,140 o gyfraniadau ac roedd cyfanswm o 32.5% yn ymgysylltu. Cofrestrodd 49 ar y safle Cymraeg, cafwyd 848 o ymweliadau, 8 cyfraniad ac roedd 1.1% yn ymgysylltu.

Cynhaliwyd 15 ymgynghoriad yn ystod 2023/2024. Y mwyaf poblogaidd o'r rhain oedd arolwg am wasanaeth gwastraff ac ailgylchu'r cyngor (1,550 o gyfraniadau), adolygiad o ffiniau cynghorau cymuned (dau arolwg a oedd â chyfartaledd o 412 o gyfraniadau) ac ymgynghoriad am ein gwasanaeth mynwentydd, a gafodd 242 o gyfraniadau.

Cynhaliwyd pob ymgynghoriad ar y platfform yn ogystal ag ymgynghoriad wyneb yn wyneb, a hyrwyddwyd gennym drwy wefan yr ymgynghoriad a'r wefan gorfforaethol, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn datganiadau i'r wasg. Fe wnaeth timau prosiect hefyd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid yn uniongyrchol a chynnal gweithdai gyda grwpiau paneli dinasyddion a chynghorau cymuned.

Ni wnaethom gynnal arolwg preswylwyr yn ystod 2023/4 gan ein bod wedi bod yn rhan o weithgor CLILC yn archwilio manteision arolwg preswylwyr ledled Cymru a fydd yn darparu ymatebion lleol ochr yn ochr â chyfartaledd Cymru gyfan. Ein bwriad yw cynnal yr arolwg hwn ym mis Hydref neu Dachwedd 2024.

Mae'r wefan gorfforaethol yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth bwysig i breswylwyr, ac rydym yn uwch lan lwytho manylion am sut mae'r cyngor wedi perfformio yn erbyn ei gynlluniau cyflawni blynyddol bob haf.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu cynnwys ein gwefan i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd glir sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae hyn wedi'i anelu at helpu preswylwyr i gael hyd i wybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol, cael hyd i'n gwasanaethau mewn ffordd ddigidol os ydynt yn dymuno, a gwella'u canfyddiad am ein gwasanaethau.

Fel rhan o'r adolygiad parhaus, rydym wedi gwella'r broses o gofrestru ar gyfer ein datganiadau i'r wasg digidol, ein bwletin e-bost Newyddion Wythnosol, ac unrhyw hysbysiadau brys pan fydd tarfu ar wasanaethau. Mae hyn yn ei wneud yn haws i breswylwyr gael gwybodaeth.

Yn ystod 2023/4, gwelwyd cynnydd o 301 yn nifer ein tanysgrifwyr, i 25,239 a gwelwyd cynnydd o 2,342 yn nifer y tanysgrifiadau, i 75,675. Fe wnaethom anfon 380 o fwletinau ac agorwyd 38.2% ohonynt ar gyfartaledd, gydag 18 ar gyfartaledd yn clicio ar ddolenni fesul bwletin.

Ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yw ein ffordd bennaf o ymgysylltu'n uniongyrchol â phreswylwyr.
Rydym wedi:

- Denu mwy na 41,000 o ddilynwyr ar ein 3 safle cyfryngau cymdeithasol pennaf – Facebook, 22k, Twitter 16.2k, Instagram 2.8k (70% yn fenywod / 30% yn ddynion).
- Cafodd ein negeseuon eu gweld ar 983.6k achlysur a chyrhaeddwyd 232.1k o bobl. Cawsant eu rhannu ar 957 o adegau gan dderbyn 849 o sylwadau, sydd yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Creu sianel WhatsApp i'r cyngor a byddwn yn defnyddio mwy ohoni yn 2024/5.

Mae ein datganiadau i'r wasg yn cyrraedd y papurau newydd lleol yn rheolaidd (South Wales Argus a Pontypool Free Press) ac ambell waith BBC Cymru ac ITV Cymru sy'n helpu i gyfleu enghreifftiau o'n perfformiad i gynulleidfa ehangach.

Gwnaethom gyhoeddi dau rifyn o Lais Torfaen yn ystod 2023/4. Mae'n boblogaidd iawn ymysg ein preswylwyr hŷn a'r rheini sydd ddim yn ein dilyn ni ar lein.

## Ymateb i Gwynion

Byddwn bob amser yn anelu at ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'r preswylwyr a'r busnesau sy'n gweithredu yn Nhorfaen ond weithiau efallai na fyddwn bob amser yn ei gael yn iawn. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym yn annog pobl i roi gwybod drwy gwyno os ydynt yn teimlo ein bod wedi eu siomi mewn unrhyw ffordd. Os nad ydym wedi gallu datrys cwyn yn anffurfiol ar yr adeg y caiff ei mynegi, gellir cwyno'n ffurfiol a chychwyn ymchwiliad. Mae ein proses gwyno wedi'i chynllunio i'n helpu ni i:

- Wneud pethau'n iawn i'r sawl sy'n cwyno.
- Gwneud yn siŵr na fyddwn yn gwneud yr un camgymeriad eto, a
- Gwella ein gwasanaethau i bawb.

Rydym yn adolygu, monitro ac adrodd yn rheolaidd ar ein proses gwyno drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys edrych ar nifer y cwynion a ddaw i law ar draws ein gwasanaethau ac adolygu pa mor effeithlon ac effeithiol y maen nhw'n cael eu datrys. Rydym yn asesu'r wybodaeth hon yn gyson ac yn defnyddio canlyniadau cwynion i weld ble neu sut y gallwn wneud gwelliannau i'n polisïau a'n gweithdrefnau.

Bob blwyddyn, mae adroddiad blynyddol ar gwynion yn cael ei dderbyn a'i adolygu gan **Bwyllgor Rheoli ac Archwilio'r** Cyngor cyn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet. Mae'r Pwyllgor Rheoli ac Archwilio yn chwarae rhan statudol hanfodol o ran herio pa mor effeithiol yw proses gwynion y Cyngor gan sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

Mae trosolwg o'n perfformiad wedi'i nodi isod:

| Cwynion a dderbyniwyd ac a dderbyniodd ymateb | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn ariannol** | **Cam 1** | **Ymateb Hwyr** | **% ar amser** | **Cam 2** | **Ymateb Hwyr** | **% ar amser** | **OGCC*** | **Ymchwiliad OGCC** |
| **2021/22** | 71 | 3 | 95.7% | 3 | 1 | 66.6% | 18 | 0 |
| **2022/23** | 135 | 4 | 97.04% | 3 | 0 | 100% | 18 | 0 |
| **2023/24** | 224 | 6 | 97.3% | 10 | 3 | 70% | 14 | 0 |

Mae nifer y cwynion wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond nid yw hyn yn beth drwg. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i fynd ati i ystyried mwy o gysylltiadau fel cwynion. Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr OGCC yn parhau i fod yn isel iawn o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn rhoi hyder i ni fod

ein prosesau mewnol ein hunain yn deg a chadarn. Mae mwy o wybodaeth am berfformiad ein proses gwyno wedi'i nodi yn ein **hadroddiad blynyddol ar gwynion** diweddaraf.

## 8. Cyflawni a Monitro Cynnydd

### a. Ein Huwchgynllun Hirdymor….

#### Cyd-destun Rhanbarthol… Gwent Teg i Bawb

Dangosodd yr Asesiad Llesiant diweddaraf, er bod ein cymunedau'n gryf, gyda llawer o bobl yn teimlo bod ganddynt gyswllt da â'u cymdogaethau a'u bod yn falch o'u hamgylchoedd, mae gan yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau y potensial i effeithio ar bob agwedd ar lesiant ar lefel bersonol a chymunedol. Mae yna hefyd ystod o heriau a allai ehangu'r anghydraddoldebau hyn yn y dyfodol ac effeithio'n negyddol ar lesiant. Mae gan bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig lai o flynyddoedd o fywyd sy'n rhydd o afiechyd ac sy'n fwy tebygol o gael bywydau byrrach. Mae canlyniadau ysgol plant o aelwydydd difreintiedig yn waeth, sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd a chynyddu'r risg y bydd tlodi yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae rhai pobl yn ein cymunedau yn wynebu tlodi er eu bod yn gweithio, am fod yr arian sydd ganddynt yn weddill ar ôl talu eu biliau yn ei gwneud hi'n anodd fforddio bwyd, trafnidiaeth, ynni a chael cysylltiad digidol – yn enwedig wrth i gostau gynyddu.

Mae llawer o bobl yn dal i deimlo'n anniogel neu'n unig. Mae anghydraddoldebau economaidd, iechyd a lles ymysg eraill sy'n ehangu, wedi effeithio ar gydlyniant cymunedol, diogelwch a grym. Mae'r asesiad yn dweud wrthym nad yw berchen ar dŷ eisoes yn fforddiadwy i lawer o aelwydydd incwm isel, ac wrth i brisiau tai godi, mae mwy o bwysau ar ein stoc tai cymdeithasol. Bydd angen mwy o stoc tai ar Went yn y dyfodol a hynny i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau i strwythur y teulu ac un sy'n wydn i newid yn yr hinsawdd.

Mae pandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, ymadawiad y DU o'r UE, y rhyfel yn Wcráin, ac effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd, yn gwneud bywydau, bywoliaethau, iechyd, diogelwch a lles pobl Gwent hyd yn oed yn fwy heriol. Heb gymryd camau, bydd hyn yn arwain at iechyd a lles gwaeth yn sgil mwy o amddifadedd, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, anhrefn a throsedd, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae tystiolaeth eisoes yn dangos y bydd hyn yn effeithio ar iechyd a lles pobl a chymunedau sydd eisoes dan yr anfantais fwyaf, y bydd angen ffocws a chefnogaeth ychwanegol arnynt.

Wrth gydnabod yr anghydraddoldeb sy'n bodoli yn ein cymunedau, ymrwymodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i greu Gwent decach, mwy teg a chynhwysol i bawb. Y system y cytunwyd arni i wneud hyn oedd sicrhau bod Gwent yn dod yn 'rhanbarth Marmot', gyda phob partner yn y BGC yn ymrwymo i gydweithio i leihau anghydraddoldebau yng Ngwent.

Mae BGC Gwent wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag annhegwch drwy weithredu ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae llawer o bethau yn effeithio ar iechyd a lles pobl, aer glân, dŵr a bwyd, cael hyd i waith gweddus, cartref addas, siopau lleol, mynediad at weithgareddau hamdden a diwylliant, addysg o safon, trafnidiaeth dda a rhwydweithiau cymdeithasol yn ogystal â gwybodaeth a gofal iechyd.
Cytunodd BGC Gwent i ddefnyddio fframwaith wyth Egwyddor Marmot, a ddatblygwyd gan yr Athro Syr Michael Marmot a'i dîm yn y Sefydliad Tegwch Iechyd. Mae'n canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n effeithio ar degwch, iechyd a lles. Bydd y dull hwn yn helpu i nodi sut i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael ac annhegwch ledled Gwent.

Dyma wyth Egwyddor Marmot:

1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
4. Sicrhau safon byw iach i bawb
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy
6. Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd

7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'r deilliannau yn sgil hynny
8. Ceisio cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd

Bydd camau gweithredu yn targedu'r amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n siapio ein hiechyd a ddiffinnir trwy'r wyth egwyddor hyn a fydd, gyda'i gilydd, yn galluogi'r ymateb gorau i'r heriau a wynebir ledled Gwent. Mae dod yn Rhanbarth Marmot yn dangos ein bod am weithio gyda'n gilydd fel rhanbarth ar lefel uwch i wella tegwch ledled Gwent, ac i wella bywydau ein holl gymunedau. Bydd y dull hwn yn ailffocysu ac yn cyflymu'r cynnydd tuag at leihau'r hyn sydd wrth wraidd anghydraddoldebau iechyd ac eraill sy'n gysylltiedig ledled Gwent.

Mae'r BGC wedi cael cefnogaeth gan y Sefydliad Tegwch Iechyd sydd wedi ysgrifennu adroddiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Asesiad Llesiant y BGC, yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'u profiad o weithio mewn ardaloedd eraill ledled y DU. Gwnaed argymhellion ar sut y gall BGC Gwent a phartneriaethau rhanbarthol eraill, gymryd camau i leihau anghydraddoldebau ledled Gwent. Bydd y BGC a'i bartneriaid yn defnyddio'r adroddiad hwn a'i argymhellion i ddatblygu cynlluniau cyflawni yn y dyfodol.

### Datblygu a Chyflwyno Dull Gweithredu Lleol

Mae'r ymrwymiad penodol o fewn cynllun rhanbarthol BGC Gwent i ddod yn rhanbarth Marmot, yn gam nesaf yn ein Cynllunio Sirol. Mae'n bwysig ein bod nid yn unig yn ystyried yr uchelgais hwn fel ymdrech ranbarthol, ond fel rhywbeth y mae'n rhaid i ni, fel Cyngor, fynd i'r afael ag ef o ddifri, o ran y ffordd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau i'n cymunedau lleol.

Yn yr un modd â rhanbarthau eraill yng Ngwent, mae'n anffodus bod cymunedau yn Nhorfaen yn wynebu rhai o'r gwahaniaethau iechyd gwaethaf yng Nghymru. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ymysg y cenedlaethau ar draws y sir, yn mynnu ein bod yn cymryd persbectif tymor hwy. Mae bod yn gyngor Marmot, yn cynnig cyfle i ni ganolbwyntio, ac i ddefnyddio adnoddau a dylanwad eang ein cyngor i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd anghydraddoldeb.

Felly, dechreuom ddatblygu ein cynllun 15 mlynedd ein hunain (**Atodiad 1 – Torfaen y Dyfodol: Uwchgynllun 15 Mlynedd**). Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu datblygu Cynllun Sirol newydd neu un i ddisodli'r hen gynllun, ond yn hytrach mae'n adeiladu ar ein Cynllun Sirol presennol ac yn ategu ato. Mae'n cydnabod bod angen cynllunio dros gyfnod hirach o amser, gan wybod y bydd y gwaith hwn yn mynd â ni ymhell y tu hwnt i Gynllun Sirol presennol 2027. Mae ein Cynllun Sirol yn parhau i fod yn weithredol ac yn berthnasol, ac mae'n cynrychioli 5 mlynedd gyntaf ein taith tuag at ein dyhead tymor hwy i leihau anghydraddoldeb yn Nhorfaen. Ar ben hynny, mae ein cynllun 15 mlynedd ein hunain, hefyd yn arwydd ein bod yn cymryd ein rôl a'n hymrwymiad o ddifri' i fabwysiadu egwyddorion cyngor Marmot, dros genedlaethau'r dyfodol.

Rhaid inni felly beidio ag anghofio bod ein Cynllun Sirol a phob cynllun cyflawni ategol sy'n ei gefnogi, yn cyfrannu at ymdrech hirdymor llawer mwy. Felly, wrth ystyried llwybrau gweithgarwch yn ein cynllun cyflawni, fel datblygu ysgol newydd, lleoliad gofal plant neu gyfleuster hamdden, cynyddu cyfranogiad a chyflawniad mewn cyrsiau addysg oedolion, gwella'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau a grantiau, cynyddu'r dechnoleg gynorthwyol a ddefnyddir, gosod offer ffotofoltäig newydd neu godi'r gyfradd ailgylchu, mae'n bwysig i beidio â cholli golwg o'r ffaith nad yw'r cerrig milltir hyn yn rhan o gynllun blwyddyn yn unig. Rhaid sicrhau eu bod yn gerrig camu hanfodol sy'n ein harwain at uchelgais tymor hwy. Ar ben hynny, mae'r dyheadau hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i ddiwedd ein Cynllun Sirol presennol yn 2027 ac maent yn rhan o daith tymor hwy, wrth i ni anelu at ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

## Datblygiadau yn y Dyfodol….

Bydd y mesurau a restrir yn ein huwchgynllun yn parhau i gael eu mireinio a'u gwella dros amser wrth i setiau data newydd ddod i'r amlwg neu gael eu datblygu'n fewnol. Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau bod y data gorau posib ar gael i gefnogi'r cynllun, i ddangos effaith ein camau, yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag argymhellion adroddiad 'Gwent Teg i Bawb'.

Yn bwysicach oll, mae mabwysiadu egwyddorion Marmot a datblygu'r canlyniadau a'r mesurau yn rhan fechan o'r gwaith y mae angen i ni ei wneud i ddod yn gyngor Marmot. Er mwyn i Dorfaen a'n partneriaid

gael unrhyw effaith ystyrlon ar benderfynyddion ehangach iechyd, rhaid i'r dull gweithredu dreiddio i bob rhan o'r sefydliad a mynd ymhell y tu hwnt i adrodd yn erbyn rhestr i fesurau canlyniadau.

Drwy ein prosesau cynllunio, rydym felly'n cwestiynu sut yr ydym yn gwneud pethau, gan addasu yn ôl yr angen i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r effaith ar ffynonellau anghydraddoldeb ac annhegwch yn Nhorfaen. Rydym yn cymryd ein rôl o ddifri, a'n hymrwymiad i fabwysiadu egwyddorion bod yn Gyngor Marmot, ond rhaid i'n camau gweithredu gyd-fynd â hyn. Felly, byddwn yn adolygu'r hyn a wnawn a sut rydym yn mesur ei effaith yn gyson yn y blynyddoedd i ddod, wrth i ni ddatblygu systemau cyflawni cryfach i gyrraedd ein canlyniadau.

Heb wneud hynny, ni fyddwn byth yn gallu mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Bydd hyn yn golygu y bydd preswylwyr yn Nhorfaen yn llawer llai tebygol o gyrraedd eu potensial llawn ac yn llawer mwy tebygol o fod angen cymorth neu ymyriadau ehangach gan y Cyngor a’r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn y dyfodol.

## b. Monitro Cynnydd….

Mae'r Cyngor wedi bod drwy broses o newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddatblygu ei ddull o ymdrin â Rheoli perfformiad, Cynllunio Gwasanaethau a Rheoli Risg, a hynny’n sylweddol gyda’r nod o gefnogi’r gwaith o gyflawni Cynllun Sirol newydd y Cyngor.

Mae ein hagwedd ddiwygiedig at berfformiad hefyd wedi bod yn fodd o ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac Arweinwyr newydd o fewn y Cyngor, sydd wedi rhoi mwy o amlygrwydd i strwythurau perfformiad, prosesau a diwylliant y cyngor.

Mae'r Ddeddf yn ystyried bod hunanasesu effeithiol yn hanfodol i alluogi Cynghorau i ddeall sut maen nhw'n perfformio ac ym mha le mae lle i wella. Felly, mae ein trefniadau adrodd perfformiad yn hanfodol i ymateb y Cyngor i'r Ddeddf.

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad sy’n cyd-fynd ag ethos Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, yn ymwneud cymaint â gweithredu newidiadau i brosesau ac y mae i feithrin diwylliant newydd o hunanasesu a gwella parhaus yn y Cyngor, trwy roi llawer mwy o amlygrwydd i gynllunio gwasanaethau a phwysigrwydd monitro perfformiad arferol.

Datblygwyd ein cynlluniau gwasanaeth newydd i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng cynlluniau'r gyfarwyddiaeth, y Cynllun Sirol a strategaethau corfforaethol allweddol. Felly, bydd monitro cynlluniau gwasanaeth yn rheolaidd yn galluogi'r Cyngor i fonitro camau allweddol sy'n gysylltiedig â Chynllun Sirol y Cyngor a chynlluniau cyflawni strategol. Felly, mae ein dull gweithredu yn parhau i gael ei feithrin a'i gefnogi a'i herio'n ofalus, wrth iddo ddatblygu, gan sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y disgwyl, ar draws y Cyngor.

Rydym wedi dechrau defnyddio'r data sydd ar gael ar hwb Data Cymru, i feincnodi ein perfformiad, ac yn fwy diweddar rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a Data Cymru, i ddatblygu’r system hon ymhellach a’r wybodaeth gymharol sydd ar gael. Bydd rhagor o wybodaeth gymharol ar gael yn y dyfodol, drwy arolwg cyffredinol i breswylwyr a fydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru yn y flwyddyn i ddod.

Bydd ein Tîm Arweinyddiaeth hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad, drwy amserlen berfformio ddeuddeg wythnos y cytunwyd arni. Mae hyn yn rhoi ffocws penodol ar berfformiad pob cyfarwyddiaeth, sy'n ymwneud â risgiau, cynnydd yn erbyn amcanion llesiant ein Cynllun Sirol a llawer o ymchwiliadau "dwfn" i feysydd perfformiad sy'n destun pryder..

Bydd Fforwm Datblygu Polisi'r Cyngor (y Cabinet a'r Tîm Arweinyddiaeth) hefyd yn parhau i dderbyn diweddariad chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol. Ategir ymhellach at y rhain gan ddiweddariad chwarterol ar sefyllfa gyllideb y Cyngor. Bydd y gwaith o wella, adrodd a monitro perfformiad yn parhau. Daw hyn â chyfle i gryfhau ac alinio ein cynlluniau a'n prosesau ymhellach, gan gymryd ymagwedd fwy integredig at ystyried yr heriau, dyheadau ac adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor yn y flwyddyn i ddod. Bydd hyn yn arwain at gynllunio ein gwasanaethau yn fwy effeithiol.

Mae’r cyngor llawn yn derbyn ein gwybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Cyflawni’r Cynllun Sirol bob chwe mis. Maent yn derbyn un hanner ffordd drwy’r flwyddyn ac un arall ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, felly’n

sicrhau bod y Cyngor mor dryloyw ac atebol â phosibl.

Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn dechrau ystyried yr heriau a'r meysydd y byddwn yn eu blaenoriaethu yn y flwyddyn i ddod, ochr yn ochr â ffyrdd i atgyfnerthu ein proses i gynllunio gwasanaethau. Mae hyn yn rhan o'n hymgyrch barhaus i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ein prosesau cynllunio corfforaethol, gwasanaethau a phrosesau ariannol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i breswylwyr yn Nhorfaen.

## 9. Y Flwyddyn Nesaf a Thu Hwnt

Trwy gydol ein hadroddiad rydym eisoes wedi amlinellu llawer o'r heriau allweddol sy'n ein hwynebu fel sefydliad yn ogystal â'r datblygiadau allweddol rydym yn bwriadu eu cyflawni. Fodd bynnag, mae nifer fach o gysyniadau canolog, sy'n hanfodol i'n dull o sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu diwallu eu hanghenion.

Mae'r Strategaeth Llesiant Cymunedol a fabwysiadwyd gennym yn ddiweddar yn rhoi ffocws arnom i sicrhau mwy o wytnwch i'n cymunedau a'n preswylwyr, i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n arwain at lawer mwy o annibyniaeth a llai o siawns y bydd unigolion angen ymyriadau costus gan y Cyngor. Erbyn 2027, ein nod yw newid y ffordd yr ydym yn gweithredu, 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' a hynny'n sylweddol. Byddant yn gonglfeini gwirioneddol yn y ffordd y byddwn yn cynllunio ein gwasanaethau fel y gallwn rymuso ein cymunedau i fod yn iachach, wedi eu cysylltu'n well ac yn fwy cyfartal.

Mae ein cymunedau'n ganolog o ran cefnogi lles ac annibyniaeth preswylwyr. Byddwn yn cofleidio'r angerdd a'r wybodaeth sydd gan ein cymunedau a'n sefydliadau cymunedol am eu hardal leol a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddylunio atebion ar y cyd gyda phob cymuned leol. Gyda'n gilydd, byddwn yn mynd i'r afael â'r materion sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i les, gwytnwch ac annibyniaeth.

Bydd ymagwedd ein cymunedau yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i fod yn Gyngor Marmot, gan ategu at ein hymdrechion i wella'r ffordd yr ydym yn cynllunio yn y tymor hwy. Bydd datblygu ein dull Marmot / Uwch gynllun yn canolbwyntio ar feddwl am y tymor hwy er mwyn mynd i'r afael â heriau o ran pontio'r cenedlaethau, gan roi ffocws a pharhad y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol presennol.

Mae thema gyffredin i'r gwaith yr ydym yn ei wneud, sef lleihau anghydraddoldeb ac annhegwch yn sylweddol yn Nhorfaen. Yn ogystal â gwella llesiant, mae ein dull gweithredu wedi'i gysylltu'n glir â strategaeth ariannol y cyngor. Mae ymyrraeth gynnar ac atal, gwella gwytnwch a lles unigolion a chymunedau a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd i gyd yn rhan o gynllun ariannol tymor canolig y cyngor. Mae'r dull hwn yn ffordd well o ddeall a chynnal gwasanaethau a chynllunio ariannol ac mae'n ddewis arall, mwy cynaliadwy yn hytrach na thorri ein gwasanaethau yn barhaus.

Yn fwyaf diweddar, rydym wedi gweithio gyda Blaenau Gwent i ddatblygu trefniadau i rannu prif weithredwr. Rydym yn canolbwyntio, i ddechrau ar archwilio'r potensial i greu arbedion, adnoddau sy'n gallu gweithio ar raddfa, a'r potensial i gynyddu arloesi a chreadigrwydd ar draws y ddau awdurdod. Bydd y cam darganfod am 9 mis i ddechrau. Byddwn yn mynd ati ar y cyd i archwilio sut y gall ein trefniadau a rennir arwain at welliannau. Bydd hyn yn cynnwys mwy o effeithlonrwydd o ran gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws cynghorau, gweithio ar raddfa fwy, gwell arloesi a rhannu gwybodaeth, cynllunio strategol cryfach, mwy o wydnwch a hyblygrwydd, mwy o ganfyddiad ac ymddiriedaeth y cyhoedd, gwell cyfleoedd i ddatblygu staff a llwybrau gyrfa a mwy o ddylanwad rhanbarthol a chenedlaethol.

Rydym yn gwybod bod ein cynlluniau'n uchelgeisiol a bod ein dull gweithredu yn wahanol i gynghorau eraill ledled Cymru. Mae'n bwysig felly, profi yn barhaus a yw ein gweithredoedd yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd. Fel yr ydym eisoes wedi crybwyll, byddwn yn gwneud hyn drwy hunanasesu ac adolygu parhaus, yn ogystal â thrwy wrando ar yr adborth a gawn trwy weithio'n agos gyda'r cyhoedd, partneriaid a'n rheoleiddwyr. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at adolygiad cymheiriaid ar draws y Cyngor yn y flwyddyn i ddod (a elwir yn Asesiad Perfformiad Panel), i ystyried y cynnydd yr ydym ni wedi ei wneud o ran cyflawni ein dyheadau, yn ogystal â rhoi cyfle i ni edrych ar gamau nesaf ein siwrnai.

**Atodiad 1**

# Torfaen y Dyfodol: Uwchgynllun 15 Mlynedd

Lles, gwytnwch a thegwch iechyd yw conglfeini cymunedau llwyddiannus a bywiog. Dyna pam eu bod yn ganolog i adroddiad Gwent Teg i Bawb (Marmot) ac maent wrth wraidd ein 9 Amcan Llesiant. Fel Cyngor, rydym yn falch o ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ein Cynlluniau Gwasanaeth blynyddol.

Mae ein Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol yn dangos ***yr hyn*** yr ydym yn ei wneud i wella lles, gwytnwch a thegwch iechyd ledled y Fwrdeistref. Byddwn yn defnyddio’r cynlluniau hyn i adrodd ar gynnydd a llunio barn ynghylch a ydym wedi gwneud yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud.

Ond mae angen i ni ddeall hefyd a yw'r hyn a wnaethom wedi gwneud y gwahaniaeth yr oeddem yn bwriadu ei wneud. Rydym yn cydnabod na fydd newid cynaliadwy yn y ffyrdd a nodir yn adroddiad Gwent Teg i Bawb, bob amser yn digwydd dros nos. Dyma pam yr ydym wedi paratoi’r Uwchgynllun 15 mlynedd hwn. Bydd yr Uwchgynllun yn ein galluogi i fonitro'r ***effaith*** y mae ein gweithgareddau yn ei chael dros genhedlaeth.

Ni allwn aros tan ddiwedd y 15 mlynedd i weld a yw ein gweithgaredd yn cael effaith. Felly, byddwn yn monitro’r effeithiau dros dri chyfnod penodol o amser.

1. **Ar ddiwedd pob blwyddyn**. Gallwn fonitro'r dangosyddion hyn bob mis/chwarter, adrodd arnynt ar ddiwedd pob blwyddyn, ac addasu'r targed ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2. **Ar ddiwedd tymor y Cyngor hwn (5 mlynedd).** Yn ogystal â’r dangosyddion misol neu chwarterol, mae hyn hefyd yn ein galluogi i gyflwyno data a gesglir yn flynyddol yn unig.

3. **Ar ddiwedd yr Uwchgynllun.** Yn ogystal â dangosyddion misol, chwarterol a blynyddol, bydd hyn yn ein galluogi i fonitro ystadegau hirdymor go iawn o amrywiaeth o ffynonellau, fel astudiaethau cenedlaethol fydd yn rhoi barn bendant ynghylch a yw'r Cyngor yn gwella llesiant ac yn lleihau anghydraddoldeb.

Bydd ein Huwchgynllun, Torfaen y Dyfodol, yn mesur ein llwyddiant yn erbyn 8 Egwyddor Marmot sy’n sail i Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae'r berthynas rhwng y nodau ategol wedi'i nodi ar y dudalen nesaf.
Mae pob Egwyddor Marmot yn cynnwys sawl rhan (canlyniadau) a ddangosir mewn gwahanol liwiau ar bob tudalen. Dangosir y dangosyddion sy'n ymwneud â'r rhannau hynny yn yr un lliw. Byddwn yn parhau i adolygu'r mesurau hyn i sicrhau ein bod bob amser yn mesur yn erbyn y dangosyddion gorau posibl i asesu'r cynnydd rydym wedi'i wneud. Lle rydym yn gwybod bod angen datblygu data, rydym wedi nodi'r meysydd hyn o fewn y cynllun.

## Cysylltu ein Hamcanion Llesiant ag Egwyddorion Marmot

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ein Hamcanion Llesiant** | 1. Codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol | 2. Annog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu | 3. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad | 4. Gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol. |
| 5. Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol | 6. Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd | 7. Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol. | 8. Cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef | 9. Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau. |

| **Egwyddorion Marmot** | |
|---|---|
| **1.** Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn | 1, 2 |
| **2.** Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau. | 1, 2, 3, 7 |
| **3.** Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb. | 4, 6, 8 |
| **4.** Sicrhau safon byw iach i bawb. | 3, 4, 6, 7, 8 |
| **5.** Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy. | 4, 5, 7, 8, 9 |
| **6.** Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd. | 3, 4, 7, 8 |


| Egwyddorion Marmot | |
|---|---|
| **7.** Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'r deilliannau yn sgil hynny. | |
| **8.** Ceisio cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd. | |

# Egwyddor 1af Marmot: Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn

- Mae plant yn cael eu paratoi i fod yn barod i'r ysgol a dysgu gydol oes
- Mae plant, yn cynnwys y rhai agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn byw bywydau iach ac yn cyrraedd eu potensial llawn.
- Mae plant yn Nhorfaen yn byw'n rhydd o effeithiau negyddol tlodi
- Mae ysgolion yn fannau croesawgar sy'n canolbwyntio ar lesiant, cynyddu presenoldeb a galluogi plant i deimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn barod i ddysgu
- Mae plant yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, yn rhydd o niwed ac esgeulustod

## Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Bydd presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu.
- Bydd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu
- Bydd llai o blant ar y gofrestr amddiffyn plant
- Bydd llai o blant yn derbyn gofal
- Bydd nifer y diwrnodau a gollwyd fesul plentyn oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng
- Byddwn wedi gosod gwaelodlin ar gyfer y % o blant sydd ar y trywydd iawn neu'n well, o ran:
    - Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
    - Datblygiad corfforol
    - Lleferydd, iaith a chyfathrebu
    - Datblygiad mathemategol



## Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor

- Bydd % y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn 60 munud neu fwy o ymarfer corff wedi cynyddu
- Bydd % y disgyblion sy'n adrodd bod cefnogaeth yn yr ysgol i ddisgyblion sy'n teimlo'n anhapus neu'n bryderus wedi cynyddu
- Bydd % y disgyblion sydd wedi ysmygu o leiaf unwaith/yr wythnos wedi gostwng
- Bydd mwy o blant yn defnyddio rhaglen Dechrau'n Deg
- Bydd % y disgyblion sy'n adrodd bod eu hathrawon yn poeni amdanynt fel person wedi cynyddu
- Bydd % y disgyblion sy'n bwyta un darn o ffrwyth neu lysiau bob dydd wedi cynyddu.
- Bydd % y disgyblion sy'n cael eu bwlio wedi gostwng
- Bydd % y disgyblion sydd wedi rhoi cynnig ar e-sigarét wedi gostwng
- Byddwn wedi cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol
- Byddwn wedi cefnogi mwy o blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain, i ymgartrefu yn Nhorfaen

## Erbyn diwedd yr Uwchgynllun


- Bydd % y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol wedi gostwng
- Bydd % y disgyblion sy'n fodlon â'u bywyd wedi cynyddu
- Bydd % y plant saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod sylfaen wedi cynyddu
- Bydd % y genedigaethau byw sydd â phwysau geni isel wedi gostwng

## **2il Egwyddor Marmot:** Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau

- Mae cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran, gallu a chefndir yn gwella
- Mae dysgwyr yn ffynnu drwy elwa ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant o safon, sy'n hygyrch i bawb
- Mae mentrau lleol yn cael eu harwain gan y gymuned ac yn cael eu gyrru gan bartneriaethau cryf gyda sefydliadau a busnesau cymunedol
- Gall rhieni a gofalwyr gydbwyso gwaith a bywyd teuluol, felly'n eu galluogi i gael mynediad i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Bydd % y bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi i drosglwyddo i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi cynyddu
- Bydd % y cwsmeriaid sy'n derbyn cynnig cymorth cymunedol wrth y drws ffrynt wedi cynyddu
- Bydd % y bobl sydd yn methu dod o hyd i leoliad meithrin wedi gostwng
- Bydd % y plant sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant wedi cynyddu



### Erbyn Diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd % yr oedolion sydd wedi ennill cymwysterau i lefel 2 FfCC (TGAU A* - C) wedi cynyddu
- Bydd y gwahaniaeth mewn % cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 rhwng myfyrwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt wedi lleihau yn y pynciau hyn:
    - Gwyddoniaeth
    - Saesneg
    - Mathemateg
- Bydd nifer y prentisiaid newydd sy'n dechrau ar Lefel 2 a lefel 3 wedi cynyddu

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor

- Bydd nifer y plant sy'n derbyn gofal plant ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu
- Bydd % y grwpiau cymunedol a gynhaliwyd 6 mis ar ôl cyfranogiad swyddogion meithrin gallu wedi cynyddu.
- Bydd % y cwsmeriaid a gafodd cefnogaeth Drws Ffrynt sy'n dal i fynychu eu darpariaeth gymunedol wedi cynyddu
- Bydd % y grwpiau cymunedol y gwyddys amdanynt, sydd wedi cofrestru ar blatfform Cysylltu Torfaen wedi cynyddu o figure needed here
- Bydd % yr ymholiadau a atgyfeiriwyd mewn camgymeriad pan y dylid fod wedi cynnig cymorth cymunedol, wedi gostwng.

## 3ydd Egwyddor Marmot: Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb

- Mae busnesau Torfaen yn chwarae rhan weithredol mewn cadwyni cyflenwi sectorau sydd o flaenoriaeth rhanbarthol a chefnogi arloesi mewn busnes mewn blaenoriaethau cyhoeddus fel newid yn yr hinsawdd, gofal iechyd a chynhyrchiant gweithgynhyrchu gan greu economi gystadleuol ac arloesol
- Mae cyfleoedd gwaith sy'n galw am sgiliau uchel ar gael i breswylwyr wneud gwaith teg mewn economi gref, gynaliadwy a lleol.
- Mae grwpiau bregus yn cael eu cyflogi, felly'n annog economi wydn sy'n gynhwysol yn gymdeithasol

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

Cynyddu nifer y preswylwyr sy'n cael eu cefnogi i fyd gwaith ar draws yr holl sectorau blaenoriaeth
- Sgiliau digidol
- Sgiliau gwyrdd
- Y diwydiant creadigol
- Adeiladu a Gweithgynhyrchu Uwch


Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi i gychwyn ym myd gwaith

Cynyddu nifer y bobl ifanc sydd angen cymorth iechyd meddwl, sy'n cael cefnogaeth i gychwyn ym myd gwaith

Cynnydd yn nifer y mentrau sy'n gweithredu yn Nhorfaen (mesur blynyddol)

Bydd nifer y busnesau newydd sy'n cael eu creu o ganlyniad i gefnogaeth yr Economi Sylfaenol yn cynyddu

Mae nifer y gweithwyr a gafodd eu cyflogi mewn swyddi cynaliadwy am gyfnod o 6 mis yn cynyddu



### Erbyn Diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd % yr oedolion o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar oherwydd afiechyd wedi gostwng
- Bydd % yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi ennill cymwysterau i Lefel 5 y FfCC (gradd) neu uwch wedi cynyddu
- Bydd % yr oedolion cyflogedig sy'n ennill llai na chyfradd y Living Wage Foundation yn llai
- Bydd % y preswylwyr ag anabledd sydd yn gweithio, wedi cynyddu
- Bydd % y gweithwyr sy'n adrodd eu bod yn cael cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa wedi cynyddu
- Bydd cyfradd goroesi tair-blynedd busnesau wedi cynyddu

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor


- Bydd % y bobl oedran gweithio a gyflogir mewn sectorau blaenoriaeth (gweithgynhyrchu uwch, digidol, a gwyddor bywyd) wedi cynyddu
- Bydd % yr oedolion o oedran gweithio sy'n cael eu cyflogi wedi cynyddu
- Bydd % y cwmnïau sy'n gweithredu mewn sectorau blaenoriaeth (gweithgynhyrchu uwch, digidol, gwyddor bywyd) wedi cynyddu
- Bydd nifer y mentrau bach a chanolig (BBaCh), micro fentrau a busnesau newydd yn cynyddu.

## 4ydd Egwyddor Marmot: Sicrhau safon byw iach i bawb

- Tai cynaliadwy o ansawdd sy'n fforddiadwy neu yn y sector cymdeithasol
- Mae cymunedau'n gynhwysol, yn gydlynol, yn ddiogel ac yn rhydd rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae gan breswylwyr gyfle cyfartal i ddefnyddio technolegau, gwasanaethau a chymorth digidol
- Mae'r preswylwyr hynny y mae incwm isel, tanwydd, bwyd neu dlodi hylendid yn effeithio'n anghymesur arnynt, yn wydn yn ariannol
- Mae preswylwyr yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol ac yn gallu manteisio ar iechyd da am fwy o amser
- Mae preswylwyr yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref ac yn cael eu hailgartrefu'n gyflym pan fyddant yn ddigartrefedd

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Bydd % y rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd sy'n cael cymorth i gael cartref, wedi cynyddu
- Bydd nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi gostwng
- Bydd nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon wedi gostwng
- Bydd % y bobl ifanc sy'n gadael rhaglenni sydd wedi eu targedu ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, wedi cynyddu



### Erbyn Diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd nifer y bobl ar y gofrestr dai gyffredin wedi gostwng
- Bydd cynnydd yn nifer y cartrefi fforddiadwy newydd a gafodd eu hadeiladu
- Bydd disgwyliad bywyd iach adeg genedigaeth wedi cynyddu
- Bydd y bwlch mewn disgwyliad bywyd iach rhwng y wardiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Nhorfaen wedi gostwng
- Bydd nifer yr achosion o oedi ar lwybrau gofal wedi gostwng
- Bydd % AGEHI Torfaen yn y 10% isaf wedi gostwng
- Bydd % AGEHI Torfaen yn y 30% isaf wedi gostwng
- Bydd % y plant sydd mewn tlodi ar ôl costau tai wedi gostwng
- Bydd nifer y bobl ifanc sy'n wynebu rhybudd/dedfryd wedi gostwng

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor


- Bydd % y siopau y mae swyddogion diogelu'r cyhoedd yn ymweld â hwy sy'n cydymffurfio â chyfreithiau gwerthu nwyddau sy'n gysylltiedig ag oedran wedi gostwng
- Bydd % yr ymholiadau a dderbynnir gan y Cyngor ar-lein wedi cynyddu
- Bydd % yr ymholiadau gofal cymdeithasol i oedolion am gefnogaeth wrth y drws ffrynt, sy'n derbyn cynnig cymorth cymunedol wedi cynyddu
- Bydd y % sy'n cymryd rhan yn y rhaglen cynhwysiant digidol sy'n parhau i fodloni'r sgiliau digidol hanfodol ar ôl 12 mis wedi cynyddu
- Bydd yr amser symud ymlaen ar gyfartaledd, o lety dros dro wedi gostwng

## 5ed Egwyddor Marmot: Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy

- Mae arferion rheoli gwastraff effeithiol ar waith, gan gynnwys mentrau ailgylchu, compostio a lleihau gwastraff
- Mae dylunio trefol cynaliadwy yn cyfuno mynediad i fannau preswyl, masnachol a hamdden lleol sy'n blaenoriaethu bioamrywiaeth a'r amgylchedd lleol
- Mae cymunedau'n cymryd rhan mewn penderfyniadau ac yn cynnig cefnogaeth gymunedol gref sy'n helpu eu preswylwyr i gadw'n iach

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Bydd y gyfradd y mae cysylltwyr cymunedol yn trefnu i unigolion gyrchu cynnig cymorth cymunedol wedi gwella.
- Bydd swm y gwastraff a gesglir o gartrefi, fesul tunnell, wedi gostwng
- Bydd % y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu wedi cynyddu



### Erbyn Diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd nifer yr anheddau sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn yn cynyddu
- Bydd nifer y safleoedd cyflogaeth newydd sy'n cael caniatâd wedi cynyddu
- Bydd % y preswylwyr sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol wedi cynyddu
- Bydd % y cynnydd ariannol mewn rhenti misol ar gyfartaledd ar gyfer tai newydd wedi gostwng
- Bydd % y bobl sy'n ei chael hi'n hawdd cerdded i fan gwyrdd lleol wedi aros yn fwy na 90% (IHE)

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor

- Bydd nifer y bobl sy'n gwirfoddoli wedi cynyddu
- Bydd % y cwsmeriaid sy'n cael eu hatgyfeirio at gynnig cymorth cymunedol gan gysylltwr cymunedol, ac sy'n parhau i fanteisio ar y cynnig ar ôl 6 mis wedi cynyddu
- Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan uniongyrchol ym mhenderfyniadau'r cyngor ac yn siapio gwasanaethau'r cyngor
- Bydd % y cyllid a106 a ddyrannwyd ar gyfer hamdden ac adloniant wedi cynyddu
- Bydd yr ardal o dir sy'n eiddo i'r cyngor a reolir ar gyfer bioamrywiaeth wedi cynyddu
- Bydd nifer yr ymwelwyr i Fferm Gymunedol Greenmeadow ar ei newydd wedd wedi cynyddu


## 6ed Egwyddor Marmot: Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd

- Mae pobl yn byw bywydau iachach drwy ganfod problemau iechyd yn gynnar
- Rhoddir sylw i ffactorau amgylcheddol sy'n cyfrannu at iechyd gwael fel ansawdd aer a dŵr gwael
- Mae cymunedau'n wydn trwy gefnogaeth gwirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol sy'n lleihau unigrwydd ac unigedd
- Mae camau pwrpasol i atal yn diwallu anghenion y preswylwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol, felly'n atal cynnydd pellach neu'r angen am wasanaethau statudol

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Bydd % y prosesau a ganiateir yn amgylcheddol fel gorsafoedd petrol 'sy'n cydymffurfio'n gyffredinol' â safonau' yn dilyn asesiad, wedi cynyddu
- Bydd % y busnesau bwyd sy'n cael eu hasesu, sy'n 'cydymffurfio'n gyffredinol' â safonau wedi cynyddu
- Bydd % y preswylwyr sydd angen modd o atal pwrpasol 'parhaus' , fel canran o'r rhai sydd angen unrhyw fath o atal, wedi gostwng

DS Mae angen datblygu data ymhellach, sy'n gysylltiedig â chwblhau prosiect presennol y Cyngor ar Ymyrraeth ac Atal Cynnar.



### Erbyn Diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd baich achosion meddygon ar gyfartaledd mewn meddygfeydd wedi gostwng
- Bydd % y cleifion y mae eu pwysedd gwaed o fewn ystod dderbyniol wedi gostwng
- Bydd % y cleifion y mae eu IFCC HbA1c (diabetes) o fewn ystod dderbyniol wedi cynyddu
- Bydd % y bobl sy'n ysmygu yn Nhorfaen wedi gostwng
- Bydd cyfraddau camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi gostwng
- Bydd % yr oedolion sy'n teimlo'n unig wedi gostwng
- Bydd % yr oedolion sy'n adrodd lefel dda o foddhad â bywyd wedi cynyddu

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor

- Bydd % y samplau dŵr yfed sy'n dangos ansawdd annerbyniol wedi gostwng
- Bydd mwy o bobl yn parhau i fod yn annibynnol gartref
- Bydd % y cyllid a106 a ddyrannwyd ar gyfer hamdden ac adloniant wedi cynyddu
- Bydd maint pecyn gofal cartref ar gyfartaledd wedi gostwng


## 7fed Egwyddor Marmot: Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'r deilliannau yn sgil hynny

- Mae pob unigolyn, yn cynnwys cymunedau ymylol, yn cael cyfle cyfartal weithio
- Mae pobl yn byw yn rhydd o gasineb, ecsbloetio ac eithafiaeth yn y gymuned
- Mae Cyngor Torfaen yn rhydd o wahaniaethu ac mae'n hyrwyddo amgylchedd cynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a chynhwysiant
- Mae amrywiaeth, diwylliant, iaith a threftadaeth yn cael ei ddathlu gan greu cymunedau cydlynol a chroesawgar

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Mae nifer y digwyddiadau ymgysylltu sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol wedi cynyddu

DS Mae angen datblygu data ymhellach, a hynny'n gysylltiedig â datblygu'r Arolwg nesaf i Weithwyr.



### Erbyn Diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd % y bobl sy'n cytuno bod cydlyniant cymunedol da yn eu hardal leol wedi cynyddu

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor


- Bydd % y teuluoedd sydd wedi ail-sefydlu'n llwyddiannus o dan gynlluniau Adsefydlu'r DU ac nad oes angen cymorth ychwanegol arnynt ar ôl 12 mis wedi cynyddu
- Bydd % y preswylwyr sydd wedi ail-sefydlu'n llwyddiannus o dan gynlluniau Adsefydlu'r DU a bellach yn gweithio, wedi cynyddu
- Bydd % y plant sydd wedi ail-sefydlu'n llwyddiannus o dan gynlluniau Adsefydlu'r DU ac sydd â phresenoldeb uwch na chyfartaledd y sir wedi cynyddu

## 8fed Egwyddor Marmot: Ceisio cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd

- Mae llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil, gan sbarduno'r newid i ffynonellau ynni glân i leihau llygredd aer
- Mae cartrefi ac adeiladau yn defnyddio ynni'n effeithlon ac yn wydn o ran yr hinsawdd, felly'n cefnogi byw yn iach a chynnydd tuag at garbon sero net
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus a systemau teithio llesol yn cael eu datblygu a'u gwella ochr yn ochr â'n partneriaid i gryfhau ein hôl troed carbon a'n canlyniadau iechyd
- Mae cadwyni iechyd a chadwyni bwyd lleol yn lleihau ôl troed carbon o ran cynhyrchu bwyd

### Erbyn Diwedd y Flwyddyn

- Bydd nifer y mannau gwefru EV yn Nhorfaen wedi cynyddu



### Erbyn diwedd yr Uwchgynllun

- Bydd yr allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen yn Nhorfaen wedi gostwng

### Erbyn Diwedd Tymor y Cyngor

- Bydd nifer yr unedau o drydan a gyflenwir i beiriannau gwefru EV ar dir y Cyngor wedi cynyddu.
- Bydd % y cerbydau fflyd sydd ag allyriadau isel iawn wedi cynyddu
- Bydd hyd y llwybrau teithio llesol wedi cynyddu
- Bydd y nifer sy'n defnyddio llwybrau teithio llesol wedi cynyddu
- Bydd nifer y bobl sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cynyddu
- Bydd % adeiladau Cyngor Torfaen sydd wedi cael gwared ar systemau gwresogi tanwydd ffosil wedi cynyddu
- Bydd cwantwm y CO2 sy'n cael ei allyrru gan adeiladau'r Cyngor wedi gostwng

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Paratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol**

**Hydref 2024**

I gael mwy o wybodaeth neu i roi sylwadau am y ddogfen hon, cysylltwch â:

Y Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Rhif ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk